

Cyngor Sir Fynwy

# Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd 2011-2021

## Adroddiad Monitro Blynyddol

Cyfnod Monitro 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020

monmouthshire
sir fynwy

# Cyngor Sir Fynwy
# Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd
# 2011 - 2021

## Adroddiad Monitro Blynyddol

## Cyfnod Monitro 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020

**Gwasanaeth Polisi Cynllunio**

**Cyfarwyddiaeth Menter**

**Cyngor Sir Fynwy**

**Neuadd y Sir**

**Brynbuga**

**NP15 1GA**

**Ffôn: 01633 644644**

**E-bost: planningpolicy@monmouthshire.gov.uk**

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **1.** Crynodeb Gweithredol | 1 |
| **2.** Cyflwyniad | 8 |
| **3.** Gwybodaeth am y Cyd-destun | 13 |
| **4.** Proses Fonitro y Cynllun Datblygu Lleol | 22 |
| **5.** Monitro’r Cynllun Datblygu Lleol – Dadansoddiad Polisi | 26 |
| **6.** Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd | 104 |
| **7.** Casgliadau ac Argymhellion | 125 |
| Atodiad 1 | 135 |

# 1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ei fabwysiadu ar 27 Chwefror 2024. Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol fel rhan o broses statudol y cynllun datblygu.

1.2 Mae'r Adroddiad yn rhoi'r sail ar gyfer monitro effeithlonrwydd y Cynllun Datblygu Lleol ac yn y pen draw yn penderfynu p'un ai oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Ei nod yw dangos i ba raddau y caiff strategaeth ac amcanion y Cynllun eu cyflawni ac os yw polisïau'r Cynllun yn gweithredu'n effeithlon. Mae hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu effaith y Cynllun ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol y Sir ac yn dynodi unrhyw newidiadau sylweddol mewn cyd-destun a all ddylanwadu ar weithrediad neu adolygiad y Cynllun.

1.3 Hwn yw'r chweched Adroddiad Monitro Blynyddol a baratowyd ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ac mae'n seiliedig ar y cyfnod 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020.

**Canfyddiadau Allweddol y Chweched Proses Monitro Blynyddol 2019-2020**

**Gwybodaeth am y Cyd-destun**

1.4 Mae Adran 3 yn rhoi crynodeb o'r deunydd perthnasol am y cyd-destun a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod monitro presennol. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth genedlaethol a chynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol ar y lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, ynghyd â'r tueddiadau economaidd cyffredinol a ddigwyddodd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Gan fwyaf, bydd goblygiadau'r newidiadau yn y cyd-destun yn digwydd dros y tymor hwy a chânt eu hystyried mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol ac fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Fodd bynnag un newid amlwg yn nhermau'r Adroddiad hwn yw penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddiddymu TAN1 a chyhoeddi'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu ym mis Mawrth 2020. Mae hyn wedi dileu'r dull ar gyfer monitro'r cyflenwad 5 mlynedd o dir tai drwy'r broses Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai ac yn lle hynny yn cyflwyno monitro yn seiliedig ar drywydd tai y Cynllun. Caiff y canlyniadau a dadansoddiad o'r dull monitro angen eu trafod yn Adran 5.

**Covid-19**

1.5 Mae cyhoeddi pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020 a mesurau cysylltiedig y cyfnodau clo wedi arwain at heriau yn y ffordd mae cynllunio yn gweithredu, ond hefyd gyfleoedd yn sut y gall y system cynllunio a pharatoi cynlluniau datblygu ymateb i'r argyfwng. Mae llythyr a gyhoeddwyd ar 7 Gorffennaf 2020 gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn gosod nifer o ymatebion Covid-19, yn dileu'r gofyniad i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol ym mis Hydref eleni ond yn rhoi anogaeth gref i awdurdodau cynllunio lleol i barhau i gasglu data i helpu llywio polisi a datblygiad y cynllun. Fodd bynnag, ystyriodd Sir Fynwy ei bod yn werth chweil parhau i baratoi

Adroddiad Monitro Blynyddol a chynnal y dadansoddiad polisi cysylltiedig o ddangosyddion a sbardunau monitro'r Cynllun i asesu effeithlonrwydd y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd a bwydo i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

1.6 Aeth y Deyrnas Unedig i gyfnod clo ar 23 Mawrth 2020 mewn ymateb i bandemig Covid-19. Oherwydd i hyn ddigwydd tuag at ddiwedd y cyfnod monitro, ystyrir mai effaith gyfyngedig a gafodd ar y gallu i fonitro ar gyfer cyfnod 2019-20. Adeg ysgrifennu'r Adroddiad hwn, roedd peth llacio wedi dechrau ar gyfyngiadau'r cyfnod clo tebyg i agor y diwydiannau manwerthu, lletygarwch a thwristiaeth. Fodd bynnag, roedd y Sir mewn cyfnod clo llwyr am gyfnod o fwy na thri mis yn ystod mis Mawrth, mis Ebrill a mis Mai a rhan o fis Mehefin ac mae rhai cyfyngiadau yn parhau yn eu lle yn cynnwys cadw mesurau ymbellhau cymdeithasol a gweithio gartref lle'n bosibl. Mae goblygiadau cyfnod clo Covid-19 yn dal i ddod i'r amlwg ar raddfa genedlaethol a lleol ac mae'n dal i fod yn anhysbys pa effaith, os oedd effaith, a gaiff y sefyllfa bresennol gyda Covid-19 ar y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd. Rhoddir adroddiad ar unrhyw oblygiadau mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol a'u cynnwys wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol – Dadansoddiad Polisi**

1.7 Mae Adran 5 yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn rhoi asesiad manwl o sut mae polisïau strategol a pholisïau atodol cysylltiedig y Cynllun yn perfformio o gymharu â'r targedau monitro a deilliannau allweddol a ddynodwyd ac os yw strategaeth ac amcanion y Cynllun yn cael eu cyflawni. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i ffurfio barn wybodus am gynnydd y Cynllun wrth gyflawni'r targedau/deilliannau monitro a pholisïau yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'r tabl islaw'n rhoi trosolwg gweledol o effeithlonrwydd polisïau yn ystod y cyfnod monitro presennol yn seiliedig ar y system sgorio goleuadau traffig a ddefnyddiwyd yn yr asesiad. Cofnodwyd llai o sgorau 'coch' yn ystod y cyfnod monitro presennol, o gymharu ag Adroddiad Monitro Blynyddol 2018-19 (3 sgôr coch). Mae hyn oherwydd gwell perfformiad yng nghyswllt datblygiadau a ganiatawyd ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol o gymharu â'r llynedd a chynnydd gyda'r safle tai strategol yn Rhiw Finegr, Gwndy.

| | |
|---|---|
| Targedau/deilliannau monitro* yn cael eu cyflawni | **59** |
| Targedau/deilliannau monitro* ddim yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd ond nid oes pryderon am weithrediad y polisi | **27** |
| Targedau/deilliannau monitro* ddim yn cael eu cyflawni gyda phryderon dilynol am weithrediad y polisi | **1** |
| Ni fedrir dod i gasgliad oherwydd y data cyfyngedig sydd ar gael neu ddim data perthnasol yn ystod y cyfnod monitro | **4** |

*Ar gyfer y dangosyddion hynny heb unrhyw darged/sbardun, caiff y deilliannau monitro eu hasesu a'u sgorio yn unol â hynny.

**Canfyddiadau allweddol yr Adroddiad Monitro Blynyddol**

1.8 Mae canlyniadau'r broses monitro yn dangos fod llawer o'r targedau dangosydd a deilliannau monitro yn cael eu cyflawni (sgôr golau traffig gwyrdd), gan ddangos fod polisïau perthnasol y Cynllun yn perfformio fel y bwriadwyd. I'w nodi'n neilltuol yn ystod y cyfnod monitro hwn:

- Mae cynnydd yn parhau tuag at weithredu'r strategaeth ofodol.
- Cofnodwyd i 356 annedd gael eu cwblhau yn cynnwys 82 annedd fforddiadwy. Er yn is na ffigur y llynedd, mae hyn yn parhau'n sylweddol uwch nag yn y cyfnod monitro blaenorol ac mae'n adlewyrchu'r cynnydd a wnaed ar ddod â safleoedd tai strategol ymlaen.
- Mae caniatâd cynllunio gan chwech o'r saith safle tai strategol a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn awr, gyda chais wedi'i gyflwyno ar gyfer y seithfed yn Rhiw Finegr, Gwndy. Cafodd dau safle tai strategol gymeradwyaeth materion a gadwyd a chafodd dau safle Prif Bentref ganiatâd cynllunio gan symud ymlaen â'u cyflawni :
    - Tir yn Heol Crug, Porthysgewin (SAH2) 269 annedd yn cynnwys 68 o gartrefi fforddiadwy (25%+);
    - Fairfield Mabey, Cas-gwent (SAH3) 347 annedd ar y farchnad agored. Bydd tir a ddynodwyd ar gyfer tai fforddiadwy neu dir cyflogaeth fel rhan o'r gymeradwyaeth amlinellol (DC/2014/01290) yn destun ceisiadau ar wahân;
    - Cafodd dau safle Prif Bentrefi yn Well Lane, Devauden (SAH11ii) a Garej Cross Ash (SAH11(i)(b) ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer cyfanswm o 21 uned rhyngddynt (12 ar y farchnad agored, 9 fforddiadwy dros y ddau safle).
    - Aethpwyd dros y dwyseddau targed yn y materion a gadwyd a gymeradwywyd ar y Safleoedd Tai Strategol yn Heol Crug, Porthysgewin (SAH2) a Fairfield Mabey, Cas-gwent (SAH3).
- Yn gyffredinol caiff y targedau polisi fforddiadwy a osodir ym Mholisi S4 eu cyflawni yng nghyswllt caniatâd cynllunio a roddwyd yn y Prif Drefi, yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd, aneddiadau Glannau Hafren a Phrif Bentrefi.
- Mae gan y Sir gyfanswm o 40.16 hectar o dir cyflogaeth ar gael, yn dangos y cedwir digon o dir cyflogaeth i ddiwallu'r gyfradd galw a ddynodwyd.
- Bu cynnydd yn nhermau caniatâd cyflogaeth o fewn y Sir, gyda chaniatâd wedi'i roi ar gyfer ystod o ddefnyddiau cyflogaeth dosbarth defnydd B ar safleoedd cyflogaeth a warchodwyd (SA2) a safleoedd heb eu dyrannu (cyfanswm o 1.14ha hectar). Cafodd nifer o gynlluniau arallgyfeirio gwledig a mentrau gwledig eu cymeradwyo (15), yn darparu cyfleoedd cyflogaeth ledled y Sir.

- Mae’r Cyngor wedi cymeradwyo cynigion ar gyfer cyfanswm o 17 cyfleuster twristiaeth, i gyd yn ymwneud â llety twristiaeth yn amrywio o westy, unedau gwyliau i lety glampio. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (GPG) Llety Twristiaeth Gynaliadwy (Tachwedd 2017) wedi helpu i egluro ein cefnogaeth gyffredinol i’r sector pwysig hwn o’n heconomi.

- Mae cyfraddau unedau gwag yng nghanol trefi Cil-y-coed, Cas-gwent a Brynbuga wedi gostwng ers y cyfnod monitro blaenorol, gyda Rhaglan yn parhau ar yr un lefel. Fodd bynnag, mae cyfraddau unedau gwag yn ardaloedd siopa canolog y Fenni, Trefynwy a Magwyr wedi cynyddu. Fodd bynnag, nid yw’r cynnydd yn achosi unrhyw bryderon ar unwaith am fywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau.

- Mae’r gyfran o ddefnyddiau manwerthu A1 o fewn Prif Ffryntiad Siopa y trefi yn gyffredinol yn cydymffurfio gyda’r trothwyon a ddynodwyd yn SPG Prif Ffryntiad Siopa.

- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i gyfanswm o 12 o gyfleusterau cymunedol a hamdden.

- Mae digonedd o dir yn parhau ar gael ar gyfer safleoedd posibl ar gyfer rheoli gwastraff ac ni fu unrhyw ostyngiad yn y gronfa tir mwynau.

- Nid oedd unrhyw geisiadau a arweiniodd at golli adeiladau rhestredig neu safleoedd hanesyddol a ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiad a fyddai’n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol.

1.9 Mae’r dadansoddiad hefyd yn dangos nad yw gwahanol ddangosyddion polisi yn cael eu cyflawni ond heb unrhyw bryderon cyfatebol am weithredu polisi, fel y manylir yn Adran 5 (sgôr golau traffig oren). Dangosodd ymchwiliad pellach fod rhesymau y mae cyfiawnhad drostynt am y perfformiad a gofnodwyd ac nad yw hyn yn cynrychioli unrhyw broblem sylfaenol gyda gweithredu’r fframwaith polisi neu strategaeth ar hyn o bryd.

1.10 Fodd bynnag, mae deilliant monitro polisi allweddol nad yw’n sicrhau cynnydd fel y bwriadwyd yn ymwneud â darpariaeth tai (sgôr golau traffig coch):

- Mae cyfraddau cwblhau tai yn dangos tangyflenwi o -1,469 uned (36.3%) ar gyfer cyfnod y Cynllun hyd yma o’i fesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog cronnus sydd newydd ei gyflwyno.

1.11 Yn unol â dileu'r polisi pum mlynedd ar gyfer cyflenwad tir tai a chyhoeddi’r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Mawrth 2020) yn nodi arweiniad ar sut y caiff darpariaeth tai ei fonitro yn awr, cafodd ddau ddangosydd newydd eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn, sy’n cymryd lle'r dangosydd blaenorol oedd yn mesur y cyflenwad tir tai pum mlynedd. Mae’r cyntaf o’r dangosyddion hyn yn mesur lefel flynyddol nifer yr anheddau a gafodd eu cwblhau o gymharu â’r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Er bod y Cynllun wedi tangyflawni ym mlynyddoedd cynnar cyfnod y Cynllun yn y cyfnodau monitro blaenorol mwyaf diweddar bu nifer yr anheddau a

gwblhawyd yn llawer nes at y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog, -7 uned (-1.6%) yn 2018/19 a - 94 uned (-20.9%) yn 2019/20. Mae hyn yn bennaf oherwydd cyflymder cyflwyno safleoedd strategol. O'r saith safle strategol, mae chwech yn awr wedi cael caniatâd cynllunio, a disgwylir i bob un o'r saith gyfrannu at y nifer a gaiff eu cwblhau yn ystod cyfnod y Cynllun fel y nodir yn y Trywydd Tai a baratowyd mewn cysylltiad â'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai. Mae felly'n debygol y bydd y nifer a gaiff eu cwblhau yn nes at y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog o hyn ymlaen. Fodd bynnag, cafodd y sbardun ar gyfer adolygiad y Cynllun ei gyrraedd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol a dechreuodd y gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

1.12 Mae'r ail o'r dangosyddion hyn yn mesur y cyfanswm cronnus o dai a gwblhawyd o gymharu â'r gofyniad cronnus (Gofyniad Blynyddol Cyfartalog Cronnus). Bu tan-gyflenwi yn y nifer cronnus a gwblhawyd ers dechrau cyfnod y Cynllun ac felly cyrhaeddwyd y sbardun. Fodd bynnag, mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol mwy diweddar, mae'r % o dan-gyflenwi wedi gostwng yn gyson wrth i'r safleoedd strategol gael eu cyflwyno.

1.13 O gofio am y pwysigrwydd a roddir i'r mater cyflenwi tir, dechreuodd adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2017 a daeth i ben gyda chyhoeddi Adroddiad Adolygu Terfynol ym mis Mawrth 2018. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylai'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei ddiwygio ac y dylai hyn fod ar wedd gweithdrefn ddiwygio lawn h.y. Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG)**

1.14 Bydd y gwaith o baratoi a mabwysiadu'r Canllawiau yn parhau yn y cyfnod monitro nesaf fel sy'n briodol. Lle'n hanfodol, fodd bynnag, bydd adnoddau yn canolbwyntio ar y Cynllun .

**Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd**

1.15 Mae Adran 6 yn ehangu asesiad perfformiad y Cynllun Datblygu Lleol gydag amcanion monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae gorgyffwrdd rhwng rhai o ddangosyddion y Cynllun Datblygu Lleol a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn helpu i ddangos y cysylltiad rhwng monitro'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Arfarniad.

1.16 Mae rhai o'r canfyddiadau amlycaf yn benodol i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol yn cynnwys:

- Mae dau o'r tri datblygiad newydd mawr a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro o fewn 10 munud ar droed o wasanaeth bws cyson a rheolaidd.
- Ni chafodd coed oedd wedi eu diogelu gan Orchymyn Cadwraeth Coed eu colli i ddatblygiad yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn ostyngiad yn nifer y coed Gorchymyn Cadwraeth Coed a gollwyd dros y cyfnod monitro o gymharu gyda'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog blaenorol (3 coeden).

- Roedd un lleoliad yn uwch na'r lefelau amcan blynyddol o nitrogen deuocsid (Rhiw Hardwick, Cas-gwent). Mae hyn yr un lleoliad â'r 4 Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol.

- Roedd pedwar o'r deg cynnig a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol a safleoedd o dros 10 annedd/1ha yn cynnwys Systemau Draeniad Trefol Cynaliadwy (SUDS)[1] i yn y cynllun. Mae hyn yn gynnydd ers y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog blaenorol lle'r oedd tri o'r 13 cynnwys yn gynllun SUDS.

- Arhosodd pob un o'r tair gorsaf monitro llif dŵr ar draws y Sir yn Afon Wysg, Afon Gwy a'r Afon Mynwy yn uwch na lefel llif isel yr haf.

- Cafodd 61.60% o gyfanswm gwastraff cartrefi Sir Fynwy ei ailgylchu neu ei gompostio. Mae hyn wedi gostwng ychydig bach ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol sy'n dengys y cafodd 62.41% ei ailgylchu neu ei gompostio.

- Cafodd tua 7.3ha o dir amaethyddol Gradd 3a ac uwch ei gymeradwyo ar gyfer datblygiad sylweddol (ac eithrio dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol) dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn cyfeirio at safle Heol yr Eglwys yng Nghil-y-coed ar gyfer 130 annedd. Mae asesiad o dir amaethyddol a gynhaliwyd ar gyfer y safle yn dweud y cafodd y safle ei ddosbarthu fel y gorau a mwyaf hyblyg fodd bynnag bod y safle ar ben isaf y raddfa hon ac nad yw'n ymarferol addas ar gyfer defnydd amaethyddol trwm.

- Cynnydd o 11.9% mewn gwariant twristiaeth, £244.99 miliwn o gymharu gyda £218.93 miliwn dros gyfnod blaenorol 2018.

**Casgliadau ac Argymhellion**

1.17 Yn gyffredinol, mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-20 yn dangos fod cynnydd da yn parhau i gael ei wneud wrth weithredu llawer o bolisïau'r Cynllun a bod y strategaeth drwyddi draw'n parhau'n gadarn. Roedd llai o sgoriau 'coch' yn ystod y cyfnod monitro presennol, o gymharu gydag Adroddiad 2018-19 oherwydd gwella perfformiad yng nghyswllt datblygiadau a ganiateir ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Fodd bynnag, er y gwnaed cynnydd yng nghyswllt Safleoedd Tai Strategol y Cynllun, mae sgoriau cwblhau cronnus ar gyfer cyfnod y Cynllun yn is na gofyniad y Cynllun ac mae'n parhau yn fater o gonsyrn os yw anghenion tai cymunedau Sir Fynwy i gael eu diwallu.

1.18 Oherwydd pwysigrwydd sicrhau a chynnal cyflenwad cyson o dir tai, dechreuodd adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2017 a daeth i ben gyda chyhoeddi'r

[1] Mae SUDS yn ddatrysiadau draeniad sy'n rhoi amgen i sianelu dŵr wyneb yn uniongyrchol drwy rwydweithiau o bibelli a charthffosydd i lwybrau dŵr cyfagos. Drwy efelychu systemau draeniad naturiol, nod SUDS yw gostwng llifogydd dŵr wyneb, gwella ansawdd dŵr a gwella gwerth amwynder a bioamrywiaeth yr amgylchedd. Mae SUDS yn cyflawni hyn drwy ostwng cyfraddau llif, cynyddu capasiti storio dŵr a gostwng cludo llygredd i'r amgylchedd dŵr *(Cymdeithas Ddaearegol Prydain).*

Adroddiad Adolygu Terfynol ym mis Mawrth 2018. Penderfynodd y Cyngor ym mis Mai 2018 i ddechrau gwaith ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer y Sir (ac eithrio'r ardal o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) fydd yn cwmpasu cyfnod 2018-2033.

1.19 Caiff y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi, a gymeradwywyd gyntaf gan Lywodraeth Cymru ar 14 Mai 2018 a'i ddiwygio ym mis Mawrth 2020. Mae'r oedi dilynol na fedrid ei osgoi yn y broses o baratoi'r cynllun a brofwyd fel canlyniad i'r pandemig presennol a chyhoeddi Amcanestyniadau Poblogaeth 2018 wedi golygu y bydd angen diwygio pellach ar Gytundeb Cyflenwi y Cynllun. Mae Cytundeb Cyflenwi Diwygiedig felly'n cael ei baratoi sy'n gosod amserlen ddiwygiedig ar gyfer y Cynllun, sy'n cynnwys cyfnod ymgynghori ar Bapur Twf ac Opsiynau Gofodol i roi ystyriaeth i'r Amcanestyniadau Poblogaeth 2018 a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Disgwylir y caiff hyn ei adrodd yn yr hydref 2020.

1.20 Bydd y Cytundeb Cyflenwi Diwygiedig yn arwain at oedi sylweddol wrth baratoi a mabwysiadu dilynol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, gan ragweld y caiff y Cynllun ei fabwysiadu yn hydref 2023. Er ei bod yn rhy fuan i ddeall yn llawn beth yw effeithiau Covid-19, derbyniwyd yn gyffredinol fod gan y system cynllunio rôl sylfaenol wrth gefnogi adferiad parhaus yn dilyn COVID-19, fel yr adlewyrchir yn llythyr diweddar y Gweinidog sy'n cydnabod bod cynlluniau datblygu ystwyth cyfredol yn gonglfaen ein system cynllunio ac y cafodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru ei gadarnhau gan y pandemig cyfredol. Mae dogfen 'Adeiladu Lleoedd Gwell – Creu Lle a'r Adferiad Covid-19' (Gorffennaf 2020) yn rhoi sylw pellach i bwysigrwydd cynllunio wrth gefnogi adferiad Covid-19. Mae'n dynodi fod nifer o flaenoriaethau cynllunio yn sylfaenol yn yr ymateb i Covid-19 yn cynnwys creu lleoedd, Seilwaith Gwyrdd, datgarboneiddio a chanol trefi.

1.21 Yn unol â hynny, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn argymell y dilynol:

1. Parhau i ddatblygu gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae cyfnod ffurfiol nesaf y Cynllun hwn yn cynnwys ymgynghoriad ar y Papur Twf ac Opsiynau Gofodol i roi ystyriaeth i amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2018 a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Rhagwelir y bydd hyn yn dechrau tua diwedd 2020.
2. Cyflwyno'r chweched Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2020 yn unol â'r gofynion statudol. Cyhoeddi'r Adroddiad ar wefan y Cyngor.
3. Parhau i fonitro'r Cynllun drwy baratoi Adroddiadau Monitro Blynyddol olynol.

## 2 Cyflwyniad

2.1 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn rhoi'r sail ar gyfer monitro effeithlonrwydd y Cynllun Datblygu Lleol ac yn y pen draw yn penderfynu os oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Mae'n anelu i ddangos i ba raddau y caiff strategaeth ac amcanion y Cynllun eu cyflawni ac os yw polisïau'r Cynllun yn gweithredu'n effeithlon. Mae hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu'r effaith a gaiff y Cynllun ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol y Sir ac yn dynodi unrhyw newidiadau sylweddol yn y cyd-destun a fedrai ddylanwadu ar weithrediad neu adolygiad y Cynllun.

2.2 Mae monitro yn rhan barhaus o'r broses gwneud cynllun. Mae'n rhoi'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, cynllunio strategaeth a ffurfio polisi, gweithredu polisi, arfarnu a chynllunio adolygiad.

### Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy

2.3 Dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) a Rheoliadau cysylltiedig, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Gyngor Sir Fynwy ar 27 Chwefror 2014. Mae'r Cynllun yn darparu'r fframwaith defnydd tir sy'n ffurfio'r sail y mae penderfyniadau am ddatblygiadau'r dyfodol yn y Sir, yn cynnwys ceisiadau cynllunio, yn seiliedig arnynt.

2.4 Hwn yw'r chweched Adroddiad Monitro Blynyddol i gael ei baratoi ers y cafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ei fabwysiadu ac mae'n seiliedig ar y cyfnod 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020.

### Y Gofyniad am Fonitro

**Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**

2.5 Mae'n ofyniad statudol ar y Cyngor, dan adran 61 Deddf 2004, i adolygu pob mater y disgwylir iddynt effeithio ar ddatblygiad ei ardal. Yn ychwanegol, dan adran 76 y Ddeddf, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gynhyrchu gwybodaeth ar y materion hyn ar wedd Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Hydref bob blwyddyn yn dilyn mabwysiadu'r cynllun. Mae paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol felly yn rhan gyfannol o broses statudol y cynllun datblygu.[2]

[2] Yn dilyn derbyn llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 7 Gorffennaf 2020, lle oherwydd effaith digynsail Covid-19, nodwyd nad oedd unrhyw ofyniad i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol ffurfiol i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2020. https://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2020/07/Planning-and-the-post-Covid-19-recovery-Letter-to-local-authorities-07.07.2020.pdf Fodd bynnag ystyriwyd y byddai casglu data a thystiolaeth a gasglwyd dan yr Adroddiad yn fuddiol i asesu effeithlonrwydd y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd ac i helpu llywio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Cafodd Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-2020 felly ei baratoi.

2.6 Er mwyn monitro perfformiad Cynlluniau Datblygu Lleol mewn modd cyson, dylai cynlluniau gael eu hystyried o gymharu â chyfres safonol o ddangosyddion monitro a thargedau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau ac arweiniad ar y cynnwys sydd yn ofynnol yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol.

**Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiad) 2015**

2.7 Cafodd Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) eu diwygio i symleiddio rhai agweddau o weithdrefnau cynlluniau datblygu lleol, fodd bynnag nid yw'r rhain yn effeithio ar broses monitro'r Cynlluniau. Dan Reoliad 37 dylai Adroddiad Monitro Blynyddol:

- Ddynodi polisïau nad ydynt yn cael eu gweithredu;
  Ac ar gyfer pob polisi:
- Dynodi'r rhesymau pam na chaiff y polisi ei weithredu;
- Dynodi'r camau (os oes rhai) y bwriedir eu cymryd i alluogi gweithredu'r polisi;
- Ymchwilio os oes angen diwygiad i'r cynllun i amnewid neu ddiwygio'r polisi.

2.8 Yn ychwanegol, mae angen i'r Adroddiad Monitro Blynyddol fonitro dangosyddion tai creiddiol a ddynodwyd yn cynnwys y cyflenwad pum mlynedd o dir tai o'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai a'r nifer (os oes rhai) o anheddau fforddiadwy a marchnad gyffredinol ychwanegol net a adeiladwyd yn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ym mis Mawrth 2020 fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r ffordd y caiff darpariaeth tai ei fonitro. Fe wnaeth y newidiadau dynnu'r polisi cyflenwad pum mlynedd o dir tai a'i ddisodli gyda dull trywydd tai. Roedd hefyd yn cynnwys diddymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Bydd y newid hwn yn effeithio ar y ffordd y mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn monitro sut mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cyflenwi tai.

**Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Rhifyn 3, Mawrth 2020)**

2.9 Mae Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol 2006 yn amlinellu dangosyddion ychwanegol ar gyfer Cynlluniau y dylai Adroddiadau Monitro Blynyddol adrodd arnynt. Cawsant eu hymgorffori yn fframwaith monitro'r Cynlluniau lle'n berthnasol. Cafodd rhai o'r dangosyddion hyn eu haddasu i gyd-fynd yn well gydag amgylchiadau lleol a chafodd rhai eu gwrthod fel bod yn anaddas. Mae'r Llawlyfrau diwygiedig dilynol, gynt Rhifyn 2 ac yn fwy diweddar Rhifyn 3, wedi dileu llawer o ddangosyddion ychwanegol y Cynlluniau Datblygu Lleol a gynhwyswyd yn y Llawlyfr cyntaf, yn fwyaf arwyddocaol (ac fel y cyfeirir ato yn yr adran uchod) y cyflenwad pum mlynedd o dir tai, gan gyflwyno dull monitro trywydd tai yn ei le. Fodd bynnag mae rhai o ddangosyddion gwreiddiol 2006 yn parhau i fod wedi eu cynnwys yn fframwaith monitro'r Cynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd a bydd y Cyngor yn parhau i'w monitro i sicrhau cysondeb gydag Adroddiadau Monitro Blynyddol. Mae'r Llawlyfrau diwygiedig yn amlwg yn cynnwys nifer lai o ddangosyddion allbwn creiddiol ychwanegol yn ymwneud â darpariaeth tai, cyflogaeth a materion manwerthu.

2.10 Yn neilltuol o berthnasol i'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yw'r ffordd y mae cyflenwi tai i gael ei fonitro. Ar gyfer yr awdurdodau cynllunio lleol hynny sydd wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol, mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn dileu'r polisi cyflenwad pum mlynedd o dir tai ac yn cyflwyno dull y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog yn ei le fel y prif ddangosydd i fesur darpariaeth tai. I adlewyrchu'r newid hwn, yn ôl gofynion y Llawlyfr ar Gynlluniau Tai, cafodd y dangosydd cyflenwad tir tai ei ddileu a chafodd dau ddangosydd newydd eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn. Mae'r cyntaf o'r dangosyddion hyn yn mesur lefel blynyddol nifer yr anheddau a gafodd eu cwblhau wedi eu monitro o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog, mae'r ail yn mesur y cyfanswm cronnus o anheddau a gafodd eu cwblhau o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog cronnus.

**Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy**

2.11 Rhoddir Fframwaith Monitro ym Mhennod Wyth y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys cyfres o 51 dangosydd, gyda thargedau a sbardunau cyfatebol ar gyfer gweithredu pellach, yng nghyswllt polisïau strategol y Cynllun. Mae hefyd yn dangos y cysylltiadau rhwng themâu'r Cynllun a'i amcanion a pholisïau strategol a pholisïau eraill y Cynllun. Cafodd y dangosyddion eu datblygu yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru a chanllawiau ar fonitro. Y Fframwaith Monitro yw sail yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

**Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd yn 2011)**

2.12 Yn ychwanegol mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol ac Adroddiadau Monitro Blynyddol gydymffurfio gyda Chyfarwyddebau a Rheoliadau Ewropeaidd. Mae Adendwm yr Adroddiad Arfarnu ar Gynaliadwyedd (2014) yn dynodi cyfres bellach o ddangosyddion (61) a gaiff eu defnyddio i fonitro cynnydd ar faterion cynaliadwyedd. Er eu bod yn gysylltiedig, caiff y rhain eu gosod allan ar wahân i Fframwaith Monitro Polisi Cynlluniau Datblygu Lleol a chawsant eu defnyddio yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y Cynlluniau.

2.13 Mae cwblhau Adroddiad Monitro Blynyddol yn cyd-fynd gyda'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y Cynllun drwy Reoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd).

## Fformat a Chynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol

2.14 Cafodd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ei gynllunio i fod yn ddogfen gryno a hygyrch y gellir ei defnyddio fel man cyfeirio cyfleus ar gyfer pob maes polisi strategol.

2.15 Mae strwythur yr Adroddiad fel sy'n dilyn:

**Adran 1 Crynodeb Gweithredol** – Crynodeb ysgrifenedig o ganfyddiadau allweddol y monitro.

**Adran 2 Cyflwyniad** – Amlinelliad o'r gofyniad am, diben a strwythur yr Adroddiad.

**Adran 3 Gwybodaeth am y Cyd-destun** – Trosolwg byr o'r wybodaeth berthnasol am y cyd-destun a fedrai, er y tu allan i gylch gorchwyl y Cynllun, effeithio ar berfformiad fframwaith polisi y Cynllun. Rhoddir gwybodaeth am gyd-destun polisïau penodol yn yr adran berthnasol ar ddadansoddi polisi.

**Adran 4 Proses Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol** – Esbonio'r broses fonitro a ddilynwyd.

**Adran 5 Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol – Dadansoddiad Polisi –** Rhoi dadansoddiad manwl o effeithlonrwydd fframwaith polisi'r Cynllun wrth gyflenwi'r nodau/deilliannau a thargedau a ddynodwyd, ynghyd ag argymhellion am weithredu pellach.

**Adran 6 Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd –** Asesiad o berfformiad y Cynllun o gymharu â dangosyddion monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

**Adran 7 Casgliadau ac Argymhellion –** Rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol gan gyfeirio at y dadansoddiad a wnaed yn yr adrannau blaenorol a, lle'n berthnasol, yn rhoi argymhellion ar faterion sydd angen eu hystyried ymhellach.

**Cyhoeddi –** Caiff yr Adroddiad ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## Monitro yn y Dyfodol

2.16 Dylai strwythur bras yr Adroddiad Monitro Blynyddol aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn hwyluso dadansoddiad rhwng adroddiadau dilynol. Fodd bynnag, oherwydd bod y broses fonitro yn ddibynnol ar ystod eang o wybodaeth ystadegol a gaiff ei chyrchu gan y Cyngor a hefyd ffynonellau allanol, gallai unrhyw newidiadau i'r ffynonellau hyn wneud rhai dangosyddion yn aneffeithlon neu yn hen. Yn unol â hynny, gall y fframwaith monitro esblygu dros gyfnod y Cynllun a chaiff Adroddiadau Monitro Blynyddol eu defnyddio fel dull o ddynodi unrhyw newidiadau anochel o'r fath i'r fframwaith.

## Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol

2.17 Argymhellodd Adroddiad Monitro Blynyddol Sir Fynwy 2016 adolygiad cynnar o'r Cynllun Datblygu Lleol fel canlyniad i'r angen i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyflenwad tir tai a hwyluso dynodi a dyrannu tir ychwanegol ar gyfer tai. Cadarnhaodd Adroddiad 2017 yr argymhelliad i barhau gydag adolygiad cynnar o'r Cynllun Datblygu Lleol oherwydd y diffyg yn y cyflenwad o dir tai.

2.18 Mae Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol yn caniatáu 'adolygiad dethol' o ran (neu rannau) o Gynllun. Byddai darpariaeth o'r fath yn caniatáu adolygiad rhannol o'r Cynllun i gynnwys pynciau yn gysylltiedig gyda'r cyflenwad o dir tai a dethol safleoedd, yn unol ag argymhellion Adroddiadau Monitro Blynyddol 2016 a 2017. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r cyngor ddechrau adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol bob pedair blynedd. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid bod wedi dechrau adolygiad

llawn ym mis Chwefror 2018 er mwyn diwallu gofynion statudol. Felly, ystyriwyd ei bod yn fwy priodol cynnal adolygiad llawn o'r Cynllun i ystyried pob agwedd o'r Cynllun er mwyn asesu'n llawn natur a maint y diwygiadau y gallai fod eu hangen.

2.19 Fel canlyniad, dechreuodd adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2017 a daeth i ben gyda chyhoeddi'r Adroddiad Adolygu Terfynol ym mis Mawrth, a adroddwyd yng nghyfnod monitro 2017-2018. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylid diwygio'r Cynllun ac y dylai hyn fod ar wedd gweithdrefn ddiwygio lawn h.y. Cynllun Datblygu Lleol wedi'i ddiwygio'n llawn. Daeth hefyd i'r casgliad y dylid diwygio Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ar sail unigol yn hytrach nag ar y cyd gydag awdurdodau cynllunio lleol cyfagos. Dechreuodd y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ym mis Mai 2018.

## 3 Gwybodaeth am y Cyd-destun

3.1 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o'r deunydd perthnasol am y cyd-destun a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth genedlaethol a chynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Caiff unrhyw oblygiadau cyffredinol posibl ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn ei gyfanrwydd eu hamlinellu lle'n briodol. Caiff tueddiadau economaidd cyffredinol a ddigwyddodd ers mabwysiadu'r Cynllun hefyd eu nodi, ynghyd â chynnydd ar ganllawiau cynllunio atodol allweddol.

3.2 Rhoddir gwybodaeth am y cyd-destun sy'n benodol i faes polisi neilltuol o'r Cynllun yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol er gyfer hwylustod cyfeirio ac felly ni chaiff ei ailadrodd yn fanwl yma.

3.3 Adeg yr Adroddiad Blynyddol Monitro hwn, mae'n dal yn anhysbys pa effaith, os bydd effaith, a gaiff y pandemig Covid-19 ar y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd. Rhoddir adroddiad am unrhyw oblygiadau mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

### Polisi Cynllunio Cenedlaethol

**Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ('y Fframwaith')**

3.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gwaith ar gynhyrchu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fydd yn cymryd lle Cynllun Gofodol Cymru. Bydd y Fframwaith yn nodi'r fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir yng Nghymru, gan roi cyd-destun ar gyfer darpariaeth seilwaith/twf newydd. Bydd yn canolbwyntio ar faterion datblygu a defnydd tir o arwyddocâd cenedlaethol y gall y system cynllunio ddylanwadu arnynt a'u cyflawni. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Drafft Fframwaith am gyfnod o 14 wythnos o 07 Awst 2019 i 15 Tachwedd 2019. Cafodd Compendiwm o Dystiolaeth y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hefyd ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2020 i gynorthwyo pobl i ddeall yr ystod tystiolaeth a lywiodd ei baratoi. Disgwylir y cyhoeddir y Fframwaith terfynol yn gynnar yn 2021; pan ddaw yn 'gynllun datblygu' perthnasol yn unol ag adrannau 38(4a) a (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac felly gallai fod â goblygiadau sylweddol ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol yn rhoi gwybodaeth am gynnydd pellach ar y Fframwaith ac unrhyw oblygiadau dilynol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd.

**Cylchlythyr 001/2020 Llywodraeth Cymru – Canllawiau ar Gyfarwyddyd Cynllunio Tref a Gwlad (Datblygiad Preswyl Mawr) (Hysbysiad) (Cymru) 2020**

3.5 Cyhoeddwyd Cylchlythyr 001/2020 ym mis Ionawr 2020. Mae'n gosod canllawiau ar ddiwygiadau i'r ddarpariaeth parthed "Datblygiad Preswyl Sylweddol" a nodir yng Nghyfarwyddyd Cynllunio Tref a Gwlad (Hysbysiad) (Cymru) 2012 (Cyfarwyddyd 2012)

a pharagraff 16 i 18 Cylchlythyr 07/12 Llywodraeth Cymru. Mae Cyfarwyddyd 2020 mewn grym ar gyfer ceisiadau a wnaed ar neu ar ôl 15 Ionawr 2020. Mae angen hysbysu'r Gweinidogion Cymru i gael eu hysbysu am geisiadau a wnaed ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ar gyfer unrhyw ddatblygiad preswyl arfaethedig o fwy na 10 uned breswyl, neu ddatblygiad preswyl ar fwy na 0.5 hectar o dir, nad yw'n cydymffurfio gydag un neu fwy o ddarpariaethau'r cynllun datblygu ac nad yw'r awdurdod yn cynnig eu gwrthod. O'r herwydd mae gan hyn oblygiadau sylweddol ar gyfer unrhyw safleoedd a ddaw ymlaen tu allan i'r rhai a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd.

**Nodiadau Cyngor Technegol**

**TAN 1 – Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai**

3.6 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad chwech wythnos ar y diwygiadau arfaethedig i Bolisi Cynllunio Cymru gyda chyngor ac arweiniad cysylltiedig yn ymwneud â chyflenwi tai drwy'r system cynllunio rhwng 9 Hydref a 20 Tachwedd 2019. Nod yr ymgynghoriad oedd cyfarch y fframwaith polisi ar gyfer sicrhau cyflenwi tai, a'r dull monitro cysylltiedig (drwy Gyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai). Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig dileu'r gofyniad ym Mholisi Cynllunio Cymru i awdurdodau cynllunio lleol yn benodol ddarparu cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai ac wedyn i ddiddymu Nodyn Cyngor Technegol 1 (TAN 1) sy'n cyflwyno'r dull ar gyfer monitro'r cyflenwad pum mlynedd o dir tai drwy broses Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Mae hefyd wedi cynnig disodli monitro cyflenwad tir tai gyda monitro darpariaeth tai yn seiliedig ar drywydd tai y Cynllun Datblygu Lleol, i'w adrodd drwy Adroddiadau Monitro Blynyddol Cynlluniau Datblygu Lleol. Cafodd TAN1 ei ddiddymu yn llwyr fel canlyniad y newid polisi i Bolisi Cynllunio Cymru a gyhoeddwyd mewn llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 26 Mawrth 2020. Bydd hyn yn effeithio ar y ffordd y caiff darpariaeth tai yn y Cynlluniau Datblygu Lleol ei fonitro mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol.

**TAN 11 – Sŵn**

3.7 Galwodd Llywodraeth Cymru am dystiolaeth a chynhaliwyd ymgynghoriad ar yr adolygiad o TAN 11 - Sŵn rhwng 10 Chwefror 2020 ac 04 Mai 2020. Bwriedir i'r adolygiad o'r TAN roi arweiniad polisi a chyngor technegol i gefnogi'r polisi cynllunio newydd ym Mholisi Cynllunio Cymru yn ymwneud ag ansawdd aer a seinwedd. Caiff hyn ei gyflawni drwy'r adolygiad a chynhyrchu TAN 11 newydd yn rhoi sylw i ansawdd aer a seinwedd yn ogystal â llygredd sŵn. Unwaith y caiff ei adolygu, cynhelir ymgynghoriad pellach ar y TAN 11 newydd. Bydd sôn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol am gynnydd ar hyn.

**TAN 15 – Datblygu, Llifogydd ac Erydiad Arfordirol**

3.8 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar newidiadau i TAN 15 - Datblygu a Risg Llifogydd rhwng 09 Hydref 2019 a 17 Ionawr 2020. Cyhoeddwyd y TAN cyfredol yn 2004, a chynhaliwyd adolygiad o'i effeithlonrwydd yn 2017. Fel canlyniad i'r adolygiad, mae

Llywodraeth Cymru wedi paratoi dogfen wedi'i diweddaru sy'n cynnwys nifer o newidiadau arfaethedig a diweddariadau. Mae hyn yn cynnwys diweddariadau ffeithiol i eirfa a chyfeiriadau, newid y Map Cyngor Datblygu gyda Map Llifogydd Cymru i'w gynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru, polisi ar gyfer y parthau llifogydd newydd a diweddaru canllawiau ar erydiad arfordirol a nodir ar hyn o bryd yn TAN 14 a'i integreiddio o fewn TAN 15. Bydd hyn yn galluogi canslo TAN 14. Sonnir am ganlyniad yr ymgynghoriad ac unrhyw effaith ar y Cynllun Datblygu Lleol mewn Adroddiad Monitro Blynyddol yn y dyfodol. Rhagwelir y caiff y TAN diwygiedig ei gyhoeddi mewn pryd i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Rhifyn 3, Mawrth 2020)**

3.9 Cafodd drafft Lawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Rhifyn 3) ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad rhwng 07 Mehefin 2019 a 30 Awst 2019, a chyhoeddwyd y fersiwn terfynol ym mis Mawrth 2020; mae hyn yn disodli fersiwn flaenorol y Llawlyfr. Cafodd y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol ei ddiweddaru i roi ystyriaeth i newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth cynllunio a pholisi cenedlaethol ers y cyhoeddwyd y Llawlyfr (Rhifyn 2) yn 2015. Y newidiadau mwyaf sylweddol yw Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10, Rhagfyr 2018).

**Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru**

3.10 Cyhoeddwyd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2019. Ef yw'r cynllun morol cyntaf ar gyfer Cymru. Cafodd ei baratoi a'i fabwysiadu dan Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009 ar gyfer dibenion Adran 51 y Ddeddf ac yn unol ag Atodlen 6 y Ddeddf a gan gydymffurfio gyda Datganiad Polisi Morol 2 y Deyrnas Unedig. Mae'n dweud y dylai awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio'r Cynllun a deunydd cefnogi i lywio penderfyniadau ac felly y dylid rhoi ystyriaeth iddo wrth wneud penderfyniadau dan y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd, yn ogystal ag wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

## Cyd-destun Rhanbarthol

**Cynlluniau Datblygu Strategol**

3.11 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn rhoi fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl ystyried materion ehangach na lleol tebyg i'r galw am dai, ardaloedd chwilio ar gyfer safleoedd cyflogaeth strategol a seilwaith trafnidiaeth ategol, sy'n torri ar draws nifer o awdurdodau cynllunio, i gael eu hystyried a'u cynllunio mewn modd integredig. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn trafod materion traws-ffin ar lefel rhanbarthol ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio'n gyffredinol gyda'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

3.12 Ar 29 Ionawr 2018 cytunodd Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd y dylai gwaith ddechrau ar Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth sy'n cynnwys Sir Fynwy.

Sefydlwyd Grŵp Prosiect[3] gyda'r dasg o ddatblygu opsiynau allweddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol, yn cynnwys ffiniau, llywodraethiant, amserlen a chwmpas. Bydd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn gorfodi paratoi Cynllun Datblygu Strategol ym mhob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru drwy Gydbwyllgor Corfforaethol. Rhagwelir y bydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol yn Chwefror/Mawrth 2021. Bydd sôn am gynnydd pellach ar y Cynllun Datblygu Strategol ac unrhyw oblygiadau dilynol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

**Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Fargen Ddinesig**

3.13 Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys ardal o Dde Ddwyrain Cymru yn cynnwys y deg awdurdod lleol, yn cynnwys Sir Fynwy. Mae'r awdurdodau lleol hyn yn cydweithio i geisio trin materion sy'n effeithio ar yr holl ranbarth, tebyg i ddiweithdra a chysylltiadau trafnidiaeth gwael, gyda'r nod o gydweithio a chydweithredu ar brosiectau a chynlluniau ar gyfer yr ardal. Mae'r Awdurdodau sy'n rhan o'r Brifddinas-Ranbarth yn datblygu'r Fargen Ddinesig i gyllido prosiectau sy'n anelu i hybu gallu cystadleuol y rhanbarth dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn helpu i hybu twf economaidd drwy wella cysylltiadau trafnidiaeth, cynyddu sgiliau, helpu pobl i waith a rhoi'r cymorth mae busnesau ei angen i dyfu. Bydd hefyd yn sefydlu llywodraethiant cryf ar draws y rhanbarth drwy Gyd-gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Rhoddir ystyriaeth bellach i gynnydd agenda Prifddinas Ranbarth Caerdydd, y Fargen Ddinesig ac unrhyw oblygiadau dilynol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol lle'n briodol. Mae'r buddsoddiad hwn yn gyfle sylweddol i Sir Fynwy a'r rhanbarth.

**Ffordd Liniaru'r M4**

3.14 Cyhoeddwyd y penderfyniad ym mis Mehefin 2019 na fydd Ffordd Liniaru'r M4 yn mynd rhagddi, yn dilyn gorffen ymchwiliad cyhoeddus i'r prosiect a chyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd. Mae'r llwybr o fewn Sir Fynwy wedi ei ddiogelu ar hyn o bryd yn y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd. Dywedodd Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Economi a Seilwaith fod Llywodraeth Cymru wedi penodi Comisiwn arbenigol (Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru) sydd â'r dasg o wneud argymhellion am ddatrysiadau amgen i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth yn Ne Ddwyrain Cymru. Bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol yn sôn am gynnydd ar hyn ac unrhyw oblygiadau dilynol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd a'r RDLP.

## Cyd-destun Lleol

[3] Mae'r Grŵp Prosiect Cynlluniau Datblygu Strategol yn cynnwys penaethiaid cynlluno a rheolwyr polisi cynllunio o'r 10 awdurdod cynllunio lleol yn Ne Ddwyrain Cymru.

**Asesiad a Chynllun Llesiant Sir Fynwy**

3.15 Dan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, roedd yn ofynnol i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi Cynllun Llesiant erbyn mis Mai 2018. Yn cymryd lle'r Cynllun Integredig Sengl, roedd y cynlluniau i edrych ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pob sir a bod â chysylltiadau clir gyda'r Cynllun Datblygu Lleol. Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy ym mis Chwefror 2018. Mae partneriaid y Bwrdd yn gweithio ar gynlluniau gweithredu manwl sy'n nodi sut y byddant yn cyflawni'r camau a ddynodwyd y Cynllun Llesiant. Caiff y camau wedi eu blaenoriaethu ar gyfer pob blwyddyn eu nodi mewn Adroddiad Blynyddol sy'n rhoi manylion y cynnydd a wnaed gyda phob un o'r camau hyn. Rhoddir gwybodaeth bellach ar weithredu'r Cynllun Llesiant Lleol yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol dilynol i'r graddau y mae'n cyfeirio at y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd. Mae'r Cynllun Llesiant hwn wedi bod yn llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Sir Fynwy yn y Dyfodol**

3.16 Dechreuodd Cyngor Sir Fynwy ar brosiect i ail-werthuso anghenon a dymuniadau ein cymunedau a sut y bydd 'Cyngor y Dyfodol' yn ceisio diwallu'r heriau hyn. Roedd y gwaith ymgysylltu â'r gymuned yn rhedeg wrth ochr y Cynllun Llesiant Lleol ac yn ganolog i waith arno. Bydd canlyniadau'r ymgysylltu hwn a thystiolaeth berthnasol arall a gasglwyd ar gyfer y gwaith hwn yn berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Diweddariad Ardoll Gymunedol Sir Fynwy**

3.17 Fe wnaeth Deddf Cymru 2017 ddatganoli'r Ardoll Gymunedol i Lywodraeth Cymru, nad yw hyd yma wedi rhoi unrhyw arwydd o'i agwedd debygol at Ardoll Gymunedol. O gofio am yr ansicrwydd am y mesur, felly, cafodd gweithredu pellach ar yr Ardoll Gymunedol yn Sir Fynwy ei ohirio. Rhoddir ystyriaeth bellach i gynnydd yr Ardoll Gymunedol ac unrhyw oblygiadau dilynol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol/Cynllun Datblygu Lleol Newydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol lle'n briodol.

**Ysgolion 21ain Ganrif Sir Fynwy**

3.18 Cafodd gwaith ar ddwy Ysgol 21ain Ganrif yn y Sir ei gwblhau, Ysgol Trefynwy ac Ysgol Cil-y-coed. Yr ysgol nesaf yn y broses fydd Ysgol Brenin Harri VIII yn y Fenni. Bydd yr ysgol yn un 3-19 oed ac mae'r Cyngor yn y broses o penodi'r Tîm Prosiect a chynnal arolygon dechreuol. Ar hyn o bryd mae Ysgol Cas-gwent ym Mand C ac ni fyddir yn dod â hi ymlaen am o leiaf 4 blynedd arall. Mae cynnydd ar ysgolion yn y Sir yn adlewyrchu blaenoriaeth gorfforaethol allweddol plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

**Argyfwng Hinsawdd**

3.19 Datganodd Cyngor Sir Fynwy Argyfwng Hinsawdd ym mis Mai 2019. Mae'r Cyngor yn anelu i ostwng ei allyriadau carbon drwy ostwng ei ddefnydd o ynni, cynhyrchu pŵer solar ac annog ceir trydan. Y targed yw gostwng allyriadau carbon y cyngor i sero erbyn 2030. Yn ystod haf 2019, datblygodd y Cyngor gynllun gweithredu a strategaeth i nodi sut y cyflawnir hyn. Cafodd y cynllun gweithredu ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Hydref 2019 ac mae'n canolbwyntio ar ynni, trafnidiaeth, gofodau gwyrdd, gwastraff a chaffaeliad. Rhoddir adroddiad mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol ar gynnydd ar y cynllun gweithredu a bydd yn llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Sir Fynwy 2040: Ein Twf Economaidd a Datganiad Uchelgais**

3.20 Ym mis Tachwedd 2019 cyhoeddodd y Cyngor ddatganiad uchelgais economaidd. Mae hyn yn gosod cyfeiriad teithio y Cyngor a'r cyfuniad o fesurau sydd eu hangen ar gyfer twf/ffyniant economaidd cynaliadwy, yn cynnwys prosbectws buddsoddiad, ymgysylltu'n agos gyda'r sector busnes, dangos diwylliant pro-fusnes ac ymyriadau cynnull tir i sicrhau fod safleoedd cyflogaeth yn dod ymlaen. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystyried sut mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn perfformio o gymharu â'r dangosyddion cyflogaeth presennol, tra bydd gan y Cynllun Datblygu Lleol Newydd rôl allweddol wrth gefnogi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer twf economaidd yn y dyfodol a bydd yn un o'r prif alluogwyr wrth sicrhau twf economaidd cynaliadwy.

## Tueddiadau Economaidd Cyffredinol

**Gweithgaredd Economaidd**

3.21 Dangosir data gweithgaredd economaidd allweddol ar gyfer Sir Fynwy a Chymru o ddyddiad sail y Cynllun Datblygu Lleol o 2011 i'r cyfnod monitro presennol yn y tablau islaw. Mae'r data yn dangos bod y canran o'r bobl economaidd weithgar sydd wedi cynyddu i 79.5% yn ystod y cyfnod monitro presennol ac ar yr un pryd mae'r canran o bobl economaidd weithgar sy'n ddi-waith wedi gostwng i 2.7%, y lefel isaf a gofnodwyd ers y dechreuwyd monitro. Mae'r gyfran o'r bobl economaidd weithgar sy'n ddi-waith yn y Sir yn parhau'n sylweddol is na ffigur Cymru. Mae tâl crynswth gweithwyr llawn-amser sy'n byw yn y Sir yn parhau yn uwch yn Sir Fynwy nag yng Nghymru gyfan (+20.1%). Ni ystyrir fod newidiadau o'r fath mor arwyddocaol fel eu bod yn cael unrhyw oblygiadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff y dangosyddion economaidd hyn ac unrhyw effeithiau yn y dyfodol oherwydd Covid-19 eu hystyried mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol a chaiff unrhyw oblygiadau posibl eu cofnodi.

**Economaidd Weithgar – Mewn Cyflogaeth**

| | Sir Fynwy | Cymru |
|---|---|---|
| Ebrill 2011-Mawrth 2012 | **73.8%** | **66.7%** |

| | | |
|---|---|---|
| Ebrill 2012-Mawrth 2013 | **74.2%** | **67.6%** |
| Ebrill 2013-Mawrth 2014 | **73.0%** | **69.5%** |
| Ebrill 2014-Mawrth 2015 | **74.5%** | **69.3%** |
| Ebrill 2015-Mawrth 2016 | **78.8%** | **71.1%** |
| Ebrill 2016-Mawrth 2017 | **76.5%** | **71.4%** |
| Ebrill 2017-Mawrth 2018 | **78.0%** | **72.7%** |
| Ebrill 2018-Mawrth 2019 | **77.7%** | **73.1%** |
| Ebrill 2019-Mawrth 2020 | **79.5%** | **73.7%** |

Ffynhonnell Nomis (Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Gorffennaf 2020)

**Economaidd Weithgar - Diwaith**

| | Sir Fynwy | Cymru |
|---|---|---|
| Ebrill 2011-Mawrth 2012 | **5.1%** | **8.4%** |
| Ebrill 2012-Mawrth 2013 | **5.6%** | **8.3%** |
| Ebrill 2013-Mawrth 2014 | **5.1%** | **7.4%** |
| Ebrill 2014-Mawrth 2015 | **4.9%** | **6.8%** |
| Ebrill 2015-Mawrth 2016 | **3.3%** | **5.4%** |
| Ebrill 2016-Mawrth 2017 | **2.9%** | **4.4%** |
| Ebrill 2017-Mawrth 2018 | **3.5%** | **4.9%** |
| Ebrill 2018-Mawrth 2019 | **3.0%** | **4.5%** |
| Ebrill 2019-Mawrth 2020 | **2.7%** | **3.7%** |

Ffynhonnell Nomis (Arolwg Poblogaeth Flynyddol, Gorffennaf 2020)

**Tâl Wythnosol Crynswth Gweithwyr Llawn-amser (Enillion yn ôl Man Preswyl)**

| | Sir Fynwy | Cymru |
|---|---|---|
| 2011 | **£560.3** | **£455.1** |
| 2012 | **£530.7** | **£454.9** |
| 2013 | **£579.5** | **£475.3** |
| 2014 | **£582.1** | **£480.0** |
| 2015 | **£610.5** | **£487.6** |
| 2016 | **£619.4** | **£499.2** |
| 2017 | **£619.6** | **£505.9** |
| 2018 | **£638.5** | **£518.6** |
| 2019 | **£649.6** | **£540.7** |

Ffynhonnell Nomis (Arolwg Poblogaeth Flynyddol, Gorffennaf 2020)


3.22 Mae tystiolaeth yn parhau i awgrymu fod yr incwm ar gyfer menywod economaidd weithgar sy'n breswyl o fewn y Sir yn sylweddol is nag ar gyfer dynion o fewn yr un categori. Mae'n annhebygol fod hyn yn rhywbeth y gall y system cynllunio defnydd tir ddylanwadu'n uniongyrchol arno, fodd bynnag rhoddir ystyriaeth bellach i hyn fel rhan o brosiect Sir Fynwy y Dyfodol ac, os yn berthnasol, drwy ddiwygio'r Cynllun.

**Prisiau Tai**

3.23 Fel y dangosir yn y graff islaw, mae data'r Gofrestrfa Tir yn dangos fod prisiau tai cyfartalog yn Sir Fynwy wedi cynyddu dros y cyfnod monitro presennol. Fel canlyniad,

roedd prisiau cyfartalog yn chwarter 1 2020 (Ionawr i Mawrth) ar £279,532 yn uwch na phris llinell sylfaen chwarter 4 2012 (£188,720). Os yw data tueddiadau prisiau tai cyfartalog a gofnodwyd yn fwy na'r sbardun a ddynodwyd ar gyfer ymchwilio pellach a nodwyd yng nghyswllt Polisi S4, bydd y Cyngor yn ystyried ailasesu'r dystiolaeth hyfywedd a lywiodd y targedau polisi tai fforddiadwy. Rhoddir ystyriaeth bellach i hyn yn yr adran dadansoddiad polisi yn cyfeirio at Bolisi S4.

3.24 Gallai nifer o ddigwyddiadau a chynigion diweddar, yn cynnwys diddymu tollau Pont Hafren ym mis Rhagfyr 2018, cynlluniau ar gyfer Metro De Ddwyrain Cymru ynghyd â chyfleoedd ehangach yn gysylltiedig gydag agenda Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn ogystal â phandemig diweddar Covid-19 gael effeithiau posibl ar brisiau tai yn Sir Fynwy. Caiff unrhyw effeithiau o'r fath eu hystyried mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol a drwy'r broses Cynllun Datblygu Lleol Newydd.




Ffynhonnell: Mynegai Prisiau Tai Cofrestrfa Tai y Deyrnas Unedig (Gorffennaf 2020)

## Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG)

3.25 Cafodd SPG ychwanegol/diwygiedig eu paratoi a'u mabwysiadu yn ystod y cyfnod monitro hwn, sef yr SPG Tai Fforddiadwy Diwygiedig a SPG Datblygu Mewnlenwi. Mae'r SPG Datblygiad Mewnlenwi yn rhoi arweiniad ar ddatblygiad mewnlenwi graddfa fach (llai na 10 annedd) o fewn yr aneddiadau dynodedig fel y'u diffinnir dan Bolisïau S1, H1, H2 a H3 y Cynllun Datblygu Lleol. Cafodd yr SPG presennol ar Dai Fforddiadwy ei ddiwygio er mwyn diweddaru data tai ac i roi symleiddiad ac eglurdeb yng nghyswllt nifer o feysydd eraill, er enghraifft ddiwygiadau yn dilyn newid i'r dull ar gyfer cyfrif cyfraniadau ariannol tuag at dai fforddiadwy.

## Crynodeb

3.26 Fel y manylir uchod, daeth cynlluniau cenedlaethol, polisïau a strategaethau, rhanbarthol a lleol diwygiedig/newydd i'r amlwg yn ystod y cyfnod monitro presennol, a gall rhai ohonynt fod â goblygiadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn y dyfodol. Bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol yn parhau i roi diweddariad ar ddeunydd cyd-destunol perthnasol a allai effeithio ar weithrediad y Cynllun yn y dyfodol.

## 4 Proses Fonitro y Cynllun Datblygu Lleol

### Sut y caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei fonitro?

4.1 Mae Adran 5 yn rhoi dadansoddiad manwl o effeithlonrwydd fframwaith polisi'r Cynllun Datblygu Lleol wrth gyflawni nodau/deilliannau polisi a thargedau a ddynodwyd, ynghyd ag argymhellion priodol ar gyfer gweithredu pellach. Rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw faterion cyd-destun sylweddol am bolisïau penodol a gododd yn ystod y cyfnod monitro a allai effeithio ar weithredu polisi. Ynghyd â fframwaith monitro'r Cynllun Datblygu Lleol, caiff y dadansoddiad ei grwpio yn ôl polisïau strategol y Cyngor a chaiff ei strwythuro fel sy'n dilyn:

| | |
|---|---|
| **Nodau/ Deilliannau Monitro** | Mae'r nod/deilliant monitro yn dynodi beth mae pob polisi strategol yn ceisio ei gyflawni. Caiff amcanion cefnogi, rheoli datblygu a pholisïau dyrannu safleoedd hefyd eu nodi i ddangos y cysylltiadau rhwng y polisïau. |
| **Gwybodaeth am y cyd-destun** | Caiff gwybodaeth sylweddol am y cyd-destun a gyhoeddwyd dros y cyfnod monitro ei amlinellu lle'n berthnasol i bolisi strategol neilltuol. Bydd hyn yn galluogi'r Adroddiad Monitro Blynyddol i benderfynu os yw newidiadau cyd-destun wedi effeithio ar berfformiad polisi. Gall hyn gynnwys deddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig a chynlluniau, polisïau neu strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ogystal â'r tueddiadau cymdeithasol ac economaidd allanol a fedrai effeithio ar gyflenwi'r Cynllun Datblygu Lleol tebyg i amodau economaidd. Mae unrhyw newidiadau o'r fath tu allan i gylch gorchwyl y Cynllun. |
| **Dangosyddion, targedau a sbardunau** | Caiff perfformiad polisi a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro yng nghyswllt y dangosyddion a thargedau/sbardunau perthnasol ar gyfer eu hymchwilio ymhellach eu nodi ar gyfer pob polisi strategol.<br><br>Cafodd y targedau a'r sbardunau ar gyfer rhai dangosyddion eu his-rannu i alluogi monitro'r dangosyddion hyn yn effeithlon. Mae hyn yn cynnwys dangosyddion yn gysylltiedig â'r polisïau strategol dilynol:<br>• S1 Strategaeth Ofodol<br>• S3 Safleoedd Tai Strategol<br>• S4 Tai Fforddiadwy<br>• S6 Manwerthu<br>• S8/S9 Menter ac Economi/Darpariaeth Safleoedd Cyflogaeth<br><br>Mae cyfanswm y targedau a'r sbardunau yn y fframwaith monitro wedi cynyddu yn ddilynol. |

| | |
|---|---|
| | Lle'n berthnasol, caiff data dangoswyr a gofnodwyd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol ei roi yn y tablau yn defnyddio cod lliw (h.y. coch, oren, gwyrdd) i'w gwneud yn rhwydd dynodi tueddiadau. |
| **Dadansoddiad** | Yng nghyswllt y dangosyddion a thargedau, sbardunau a deilliannau monitro perthnasol, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn asesu os caiff polisïau strategol y Cynllun eu gweithredu yn ôl y bwriad ac os yw amcanion a strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys dynodi ac ymchwilio pellach ar unrhyw bolisi sy'n methu cyrraedd ei darged a/neu sydd wedi cyrraedd ei bwynt sbardun. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith fod polisi yn cyrraedd ei lefel sbardun o reidrwydd yn golygu fod y polisi yn methu. Bydd y dadansoddiad yn ystyried os y gall perfformiad o'r fath fod oherwydd amgylchiadau allanol neu y gellid ei gyfiawnhau yng nghyd-destun y fframwaith polisi cyffredinol.<br><br>Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys y targedau dangosydd hynny heb unrhyw geisiadau cynllunio neu gwblhad perthnasol i'w hasesu yn ystod y cyfnod monitro. Roedd cyfanswm o 2 o'r rhain yn ystod y cyfnod monitro presennol. |
| **Argymhellion** | Gan roi ystyriaeth i'r dadansoddiad polisi, rhoddir argymhellion priodol yn cynnwys datganiad o unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol. Os gwelir fod polisïau yn methu, bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn osod argymhellion clir ar beth, os unrhyw beth, sydd angen ei wneud i gyfarch hyn.<br><br>Bydd ystyried y Cynllun Datblygu Lleol o gymharu gyda'r holl wybodaeth a gasglwyd dros y cyfnod monitro yn galluogi'r Cyngor i benderfynu os oes angen adolygu'r Cynllun. |

**Sgorau Goleuadau Traffig Perfformiad Polisi**

4.2 Cynhwysir sgôr 'goleuadau traffig' ar gyfer dangosyddion perthnasol fel sy'n dilyn ar gyfer cymorth gweledol i fonitro effeithlonrwydd polisïau strategol y Cynllun ac i roi trosolwg cyfeirio cyflym o berfformiad polisi:

| | |
|---|---|
| (Gwyrdd) | Mae targedau/deilliannau monitro polisi* yn cael eu cyflawni |
| (Ambr) | Nid yw targedau/deilliannau monitro polisi* yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd ond nid oes pryderon am weithrediad y polisi |
| (Coch) | Nid yw targedau polisi/deilliannau monitro* yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd gyda phryderon dilynol am weithrediad y polisi |
| | Ni ellir dod i gasgliad oherwydd data cyfyngedig neu nid oedd unrhyw ddata perthnasol yn ystod y cyfnod monitro |

*Ar gyfer y dangosyddion hynny heb unrhyw darged/sbardun caiff y deilliannau monitro eu hasesu a'u graddio yn unol â hynny.

**Dangosyddion Newydd**

4.3 Mewn achosion lle na fedrodd y Cyngor fonitro dangosydd neu lle cafodd dangosydd ei ddisodli, rhoddir esboniad yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol a, lle'n briodol, caiff dangosydd arall ei ddynodi. Gall hefyd fod achosion lle mae angen diwygio dangosydd, er enghraifft, i wella eglurdeb y dangosydd neu ei ail-alinio gyda setiau data perthnasol. Mewn achosion o'r fath, rhoddir esboniad yn yr adran berthnasol o'r dadansoddiad polisi a chaiff y dangosydd ei ddiwygio fel sy'n briodol.

**Sbardunau ar gyfer Adolygiad o'r Cynllun**

4.4 Mae angen i'r Cyngor ddechrau ar adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol bob pedair blynedd. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r amgylchiadau eithriadol ysgogi adolygiad cynnar o'r Cynllun:

- Newid sylweddol mewn amodau allanol
- Newid sylweddol mewn polisi cenedlaethol neu ddeddfwriaeth
- Newid sylweddol mewn amgylchiadau lleol e.e. cau safle cyflogaeth pwysig sy'n gwanhau'r economi lleol
- Newid sylweddol mewn pwysau neu anghenion datblygu a strategaethau buddsoddi buddsoddwyr cyhoeddus a phreifat pwysig
- Pryderon sylweddol o ganlyniadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn nhermau effeithlonrwydd/gweithredu polisi a chyflenwi safleoedd.

Rhoddir ystyriaeth i'r holl faterion hyn wrth ystyried p'un ai oes angen adolygiad llawn neu rannol o'r Cynllun.

4.5 Fel y manylir ym mharagraff 2.16-2.18, dechreuodd adolygiad llawn o Gynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy yn 2017 a daeth i ben gyda chyhoeddi'r Adroddiad Adolygu Terfynol ym mis Mawrth 2018. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylid diwygio'r Cynllun Datblygu Lleol ac y dylai fod ar wedd gweithdrefn adolygu llawn, h.y. Cynllun Datblygu Lleol newydd.

**Fframwaith Monitro Arfarniad o gynaliadwyedd**

4.6 Mae'r Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ehangu asesiad perfformiad y Cynllun Datblygu Lleol o gymharu ag amcanion monitro yr Arfarniad. Mae'r Arfarniad yn dynodi 17 amcan a 62 dangosydd i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff hyn ei nodi yn Adran 6 yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

## 5 Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol – Dadansoddiad Polisi

5.1 Mae'r adran hon yn rhoi asesiad manwl o p'un a yw polisïau strategol y Cynllun a pholisïau cefnogi cysylltiedig yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac os yw amcanion a strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni. Caiff argymhellion priodol eu rhoi wedyn, ynghyd â'r camau gweithredu angenrheidiol i gyfarch unrhyw broblemau gweithredu polisi a ddynodwyd drwy'r broses monitro. Yn gydnaws gyda'r Cynllun Datblygu Lleol, caiff y dadansoddiad ei osod allan mewn trefn polisi strategol.

## Strategaeth Ofodol

**Nod/Deilliant Monitro:** Datblygiadau tai newydd i'w dosbarthu yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun Datblygu Lleol.

**Polisi Strategol:** Dosbarthiad Gofodol S1/S2 o ddarpariaeth tai newydd

**Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir** 1, 3 & 4

**Newidiadau Cyd-destun**

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r ffordd y caiff darpariaeth tai ei fonitro. Mae'r newidiadau'n cyfeirio at fonitro nifer yr anheddau a gwblhawyd ac yn cynnwys diddymu Nodyn Cyngor Technegol 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Ionawr 2019). Caiff manylion llawn ar ddiwygio'r dull monitro ei nodi yng nghyswllt Polisi S3.

| Dangosydd | Targed<br>*(Perfformiad Blaenorol Adroddiad Monitro Blynyddol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| Cyfran o ddatblygiadau tai newydd a ddarparwyd yn unol â strategaeth ofodol Polisi S1/ hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi S2* | Dylai lleoliad datblygiadau preswyl newydd gyfateb gyda'r gofynion a nodir yn y Tablau i Bolisi S2; | Mae nifer yr anheddau a gwblhawyd +/- y gofynion a nodir yn y tablau ym Mholisi S2 mewn unrhyw 1 flwyddyn | **Anheddau a Gwblhawyd** |
| | **a) Prif drefi 41%**<br>*(2014-15: 27%)*<br>*(2015-16: 40.2%)*<br>*(2016-17: 38.2%)*<br>*(2017-18: 71.3%)*<br>*(2018-19: 60.3%)* | | **60.11%** |
| | **b) Aneddiadau Glannau Hafren 33%**<br>*(2014-15: 43%)*<br>*(2015-16: 8.1%)*<br>*(2016-17: 19.3%)*<br>*(2017-18: 5.4%)*<br>*(2018-19: 16.9%)* | | **24.43%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | c) **Aneddiadau Gwledig Eilaidd 10%**<br><br>*(2014-15: 6%)*<br>*(2015-16: 37.2%)*<br>*(2016-17: 21.4%)*<br>*(2017-18: 12.2%)*<br>*(2018-19: 16.7%)* | | **3.65%** |
| | d) **Gwledig Cyffredinol 16%**<br><br>*(2014-15: 24%)*<br>*(2015-16: 14.5%)*<br>*(2016-17: 21%)*<br>*(2017-18: 11.1%)*<br>*(2018-19: 6.1%)* | | **11.79%** |

**Dadansoddiad – Anheddau a Gwblhawyd**

**a) Prif Drefi**

Cofnodwyd cwblhau 356 annedd yn ystod y cyfnod monitro hwn. Caiff dadansoddiad pellach ar y gyfradd cwblhau cyffredinol ei nodi yng nghyswllt Polisi S3.

O'r 356 annedd a gwblhawyd a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro, roedd 60.11% (214 uned) ym mhrif drefi'r Sir. Mae hyn yn uwch na'r targed a ddynodwyd o 41% ac mae'n uwch na'r ystod derbyniol o 10%. Cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn ei gyrraedd yn ddilynol. Y Fenni oedd â'r nifer uchaf o anheddau a gwblhawyd ar 114 uned neu 53% o'r anheddau a gwblhawyd yn y prif drefi. Roedd 38% yn Nhrefynwy gyda 80 wedi eu cwblhau a Chas-gwent yn 9% gyda 20 wedi eu cwblhau.

O'r anheddau a gwblhawyd yn Nhrefynwy, roedd y mwyafrif ar safle Heol Wonastow (SAH4) (63 uned) a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol. O'r rhai a gwblhawyd yn y Fenni, roedd 68 uned ar safle Fferm Deri (SAH1) a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol gyda 32 arall ar safle Coed Glas (SAH9) a ddyrannwyd yn y Cynllun. Ni chofnodwyd cwblhau unrhyw anheddau ar gyfer Cas-gwent o ddyraniadau'r Cynllun. Mae gweddill yr anheddau a gwblhawyd mewn safleoedd bach**. Ni chafodd unrhyw anheddau eu cwblhau mewn hapsafleoedd yn unrhyw un o'r prif drefi yn ystod y cyfnod monitro hwn ***.

Roedd tai ar gyfer y farchnad gyffredinol yn cyfrif am 71% (153 uned) o'r anheddau a gwblhawyd yn y prif drefi, gyda'r 29% (61 uned) arall yn cynnwys tai fforddiadwy. Yn y Fenni y darparwyd y nifer uchaf o anheddau fforddiadwy a gwblhawyd (39 uned), y rhan fwyaf ohonynt ar safle Fferm Deri. Roedd 15 uned fforddiadwy yn Nhrefynwy, y cyfan ar safle Heol Wonastow. Cafodd saith uned fforddiadwy eu cwblhau yng Nghas-gwent, y cyfan ohonynt ar safleoedd bach heb eu dyrannu**.

| |
|---|
| Mae'r canran o anheddau a gwblhawyd a gofnodwyd yn y prif drefi yn ystod y cyfnod monitro hwn o 60.11% yn gyson â chyfradd y llynedd o 60.3% ac ychydig yn is na chyfradd 2017-18 o 71.3%. Mae'n parhau'n sylweddol uwch nag yn y tri chyfnod monitro cyntaf (2016 - 2017, 38.2%, 2015 - 2016, 40.2% a 2014 - 2015, 27%). Ystyrir bod y tueddiadau hyn yn dangos yr amser a briodolwyd i gael dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol yn eu lle i sicrhau cyflawniadau. Caiff hyn hefyd ei adlewyrchu gan y cyfraniad a wnaeth dyraniadau'r Cynllun i ffigurau cwblhau'r prif drefi. Roedd tri safle a ddyrannwyd yn y Cynllun yn cyfrif am 81% o'r anheddau a gwblhawyd yn y prif drefi, gan ddarparu 174 annedd rhyngddynt (Fferm Deri, Heol Wonastow a Coed Glas). Caiff manylion pellach ar gynnydd hyn a dyraniadau eraill y Cynllun eu rhoi yn y dadansoddiad o safleoedd tai strategol (Polisi S3).<br><br>Ystyrir bod y targed yn uwch na'r hyn a gyflawnwyd o fewn y dangosydd hwn yn dangos mater amseru/camau gyda chyflwyno strategaeth ofodol y Cynllun, yn hytrach na phroblem gydag effeithlonrwydd y strategaeth ei hun. Eir bod cyfran uwch o anheddau wedi eu cwblhau nag yn y cyfnodau monitro cynharach, lle gostyngodd dan y targed o 41%, ystyrir bod y tueddiad mwyaf diweddar o fod yn uwch na'r targed yn addasiad i hyn ac yn ddangos nifer o ddyraniadau mawr yn y Cynllun yn cael eu darparu ar safleoedd. O'r herwydd, ni ystyrir fod unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt cwblhau anheddau yn y prif drefi. Cydnabyddir bod mwyafrif yr anheddau a gwblhawyd yn y safleoedd a ddyrannwyd yn Heol Wonastow, Trefynwy, Fferm Deri a Choed Glas, y Fenni, i gyd yn cydymffurfio â'r strategaeth ofodol. Serch hynny bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn agos er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y Cynllun. |
| **b) Aneddiadau Glannau Hafren**<br>Roedd Aneddiadau Glannau Hafren yn cyfrif am 24.43% (87) uned) o'r anheddau a gwblhawyd a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro. Daw hyn o fewn yr ystod derbyniol o +/- 10% o'r targed 33%. Roedd dyraniad y Cynllun Datblygu Lleol ym Melin Bapur Sudbrook (safle SAH7) yn cyfrif am 70% o'r anheddau a gwblhawyd hyn o 61 annedd, gyda 6 yn fforddiadwy. Cyfrannodd dyraniad Fferm Rockfield yng Ngwndy (SAH5) 16 uned bellach (9 marchnad agored a 7 uned fforddiadwy). Roedd y 10 annedd arall a gwblhawyd i gyd ar safleoedd mewnlenwi bach, gyda chwech ohonynt yn unedau marchnad agored cyffredinol a 4 uned fforddiadwy ar safle yn Heol Elm, Cil-y-coed.<br><br>Rhagwelir y bydd y gyfran o anheddau a gwblhawyd o fewn ardal Glannau Hafren yn parhau yn fras debyg i'r ffigur targed o 33% a'r strategaeth ofodol a nodir ym Mholisi S2. Disgwylir y bydd safle Fferm Rockfield, Gwndy (SAH5) yn datblygu ymhellach yn y cyfnod monitro nesaf ac yn parhau i gyfrannu'n sylweddol at yr anheddau a gwblheir yn y rhan hon o'r Sir. Mae'r safleoedd eraill y disgwylir y byddant yn cyfrannu at y cyflenwad tai yn ardal Glannau Hafren yn cynnwys y safle a ddyrannwyd yn hen Felin Papur Sudbrook, Sudbrook (SAH7) a hapsafle yn yr Hen Iard Longau, Sudbrook.<br><br>Yn y tymor hirach, mae'n debyg y bydd cymeradwyo materion a gadwyd ar gwpl o safleoedd yn ardal Glannau Hafren yn darparu cyflenwad cyson o dai yn y rhan hon o'r Sir. Cafodd materion a gadwyd eu cymeradwyo ar safle Heol Crug, Porthysgewin (SAH2) a safle 'heb ei dyrannu' yn Heol yr Eglwys, Cil-y-coed. Ni ddisgwylir i'r naill safle na'r llall gyfrannu at anheddau a gwblheir yn ystod y cyfnod monitro nesaf, fodd bynnag disgwylir y byddant yn cyfrannu at y cyflenwad o gartrefi dros y pum mlynedd nesaf. Yn yr un modd, er y bu'r |

cynnydd yn arafach na'r disgwyl ar ddyraniad Tai Strategol SAH6 – Tir yn Rhiw Finegr, cyflwynwyd cais cynllunio am 155 uned a rhagwelir y bydd yr anheddau cyntaf i'w cwblhau ar y safle yn 2021/22, yn amodol ar gael caniatâd cynllunio.

Mae cynnydd gyda darparu safleoedd ar y ddaear a thrwy'r broses ceisiadau cynllunio yn dangos cyflenwad parhaus o gartrefi yn ardal Glannau Hafren. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn er mwyn penderfynu effeithlonrwydd y strategaeth ofodol ac aliniad parhaus gyda'r targed a nodir ym Mholisi S2.

**c) Aneddiadau Gwledig Eilaidd**

Cofnodwyd i 10 annedd gael eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro o fewn yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd, yn cyfrif am 3.6% o'r holl anheddau a gwblhawyd yn y Sir. Mae hyn yn is na'r targed a ddynodwyd o 10%, ond o fewn yr ystod hyblygrwydd +/- 10%. Felly, ni chyrhaeddwyd y sbardun am ymchwiliad pellach.

Fe wnaeth cwblhau'r uned derfynol ar Heol Brynbuga, Penperllenni (SAH10(ii) gyfrannu un uned tuag at y cyfanswm. Roedd y deuddeg arall a gwblhawyd mewn Aneddiadau Gwledig Eilaidd i gyd ar safleoedd bach** gan ddarparu unedau cyffredinol ar y farchnad agored. Dosbarthwyd yr unedau ar draws y pedwar anheddiad sy'n llunio'r Anheddiadau Gwledig Eilaidd (Brynbuga, Rhaglan, Penperllenni a Llan-ffwyst).

Y gyfradd gwblhau yw'r gyfradd isaf a gofnodwyd ers dechrau'r broses Adroddiad Monitro Blynyddol. Ystyrir bod hyn yn adlewyrchiad cwblhau un o'r SH10 – dyraniadau safle Aneddiadau Gwledig Eilaidd, gyda'r ddau ddyraniad arall heb ddechrau hyd yma - SAH10(i) – Cwrt Burrium, Brynbuga a SAH10(iii) – Tir yn Heol Cas-gwent, Rhaglan. Fodd bynnag gwnaed cynnydd ar y dyraniadau hyn gyda chaniatâd cynllunio yn awr yn ei le ar gyfer y ddau safle. Disgwylir y bydd hapsafle arall yn cyfrannu at y cyflenwad tai ar safle yn Fferm Grove, Llan-ffwyst. Nid yw'r gwaith datblygu wedi dechrau eto ar bob un o'r tri safle ac felly ni ddisgwylir cwblhau tan gyfnod monitro 2021/22. Felly disgwylir cyfradd cwblhau isel y flwyddyn nesaf, i'w chyflawni'n bennaf drwy safleoedd bach.

O gofio am y cynnydd a wnaed ar y dyraniadau eraill yn yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd, ni ystyrir fod unrhyw broblemau sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt cwblhau anheddau o'r haen hon o'r hierarchaeth aneddiadau. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater i benderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y Cynllun.

**d) Gwledig Cyffredinol**

Cofnodwyd i 42 annedd gael eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro yn ardaloedd Gwledig Cyffredinol y Sir, sy'n cynnwys y Prif Bentrefi a'r Mân Bentrefi a restrir ym Mholisi S1, yn ogystal â chartrefi mewn cefn gwlad agored. Mae'r anheddau hyn yn cyfrif am 11.79% o'r cyfanswm anheddau a gwblhawyd yn y Sir o gymharu â'r targed a ddynodwyd o 16%. Mae hyn o fewn y lwfans hyblygrwydd +/- 10% ac felly ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach.

Mae safleoedd bach yn cyfrif am yr holl anheddau a gwblhawyd. O'r rhain roedd 38 yn anheddau Cymdeithasau Tai.

| |
|---|
| Roedd Prif Bentrefi yn cyfrif am 10 uned o'r cyfanswm o 42 uned, Mân Bentrefi yn cyfrif am 14 uned a chafodd 18 eu cyflenwi mewn cefn gwlad agored. Roedd pob un o'r 18 uned yng nghefn gwlad yn ymwneud ag addasu neu newid defnydd adeilad presennol yn hytrach na datblygu adeiladau newydd.<br><br>Ni chofnodwyd cwblhau unrhyw anheddau newydd ar safleoedd SAH11 – Prif Bentrefi yn ystod y cyfnod monitro hwn. Fodd bynnag, cafodd dau safle Prif Bentrefi ganiatâd cynllunio yn y 12 mis diwethaf a disgwylir y byddant yn cyfrannu at yr anheddau a gwblheir yn yr haen yma yn yr hierarchaeth aneddiadau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Y safleoedd dan sylw yw SA11(i)(b) – Garej Cross Ash a SA11(ii) – Tir ger Well Lane, Devauden. Drwy gyflenwi'r safleoedd hyn ynghyd â chyfleoedd parhaus ar gyfer trawsnewid safleoedd bach a datblygiadau mewnlenwi, rhagwelir y bydd y gyfran o anheddau a gwblheir yn yr aneddiadau hyn yn parhau i alinio gyda'r ffigur targed o 16% dros gyfnod y Cynllun.<br><br>Mae'r gyfradd cwblhau yn debyg i'r hyn a gyflawnwyd mewn cyfnodau monitro blaenorol, gyda chyfraddau yn amrywio o isafbwynt o 6.1% ac uchafbwynt o 24%, y cyfan ohonynt o fewn lwfans hyblygrwydd +/-10%. Oherwydd hyn, ni ystyrir fod unrhyw broblemau gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt anheddau a gwblhawyd yn yr ardaloedd gwledig cyffredinol a nodir ym Mholisi S1. Felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros gyfnod y Cynllun. |
| **Argymhelliad** |
| a) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro, fodd bynnag, gweler y sylwadau yng nghyswllt safleoedd tai strategol a ddyrannwyd (Polisi S3). |
| b) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| c) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| d) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Caiff anheddau a gaiff eu cwblhau a chaniatâd eu monitro er mwyn cael darlun cynhwysfawr o weithrediad y strategaeth ofodol.

** Hap-safle bach <10 annedd

*** Hap-safle mawr >10 annedd

| Dangosydd | Targed<br><br>*(Perfformiad Adroddiad Monitro Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| Cyfran datblygiadau tai newydd a ganiateir yn unol â strategaeth ofodol Polisi S1/ hierarchaeth sefydliadau a nodir ym Mholisi S2* | Dylai lleoliad datblygiad preswyl newydd gyfateb â'r gofynion a nodir yn y Tablau i Bolisi S2: | Caniatâd tai +/- 10% o'r gofynion a nodir yn y Tablau i bolisi S2 mewn unrhyw 1 flwyddyn | **Caniatâd Anheddau** |
| | **e) Prif drefi 41%**<br>*(2014-15: 81%)*<br>*(2015-16: 31%)*<br>*(2016-17: 30.2%)*<br>*(2017-18: 59.61%)*<br>*(2018-19: 29.6%)* | | **13.5%** |
| | **f) Aneddiadau Glannau Hafren 33%**<br>*(2014-15: 11%)*<br>*(2015-16: 10%)*<br>*(2016-17: 54.1%)*<br>*(2017-18: 24.15%)*<br>*(2018 - 19: 53.2%)* | | **61.8%** |
| | **g) Aneddiadau Gwledig Eilaidd 10%**<br>*(2014-15: 1%)*<br>*(2015-16: 37%)*<br>*(2016-17: 5.2%)*<br>*(2017-18: 10.26%)*<br>*(2018-19: 8.0%)* | | **2.4%** |
| | **h) Gwledig Cyffredinol 16%**<br>*(2014-15: 7%)*<br>*(2015-16: 22%)*<br>*(2016-17: 10.5%)*<br>*(2017-18: 5.98%)*<br>*(2018-19: 9.2%)* | | **22.3%** |

| **Dadansoddiad – Caniatâd am Anheddau** |
|---|
| Mae caniatâd am anheddau yn Sir Fynwy yn is nag a gofnodwyd yn ystod y ddau gyfnod monitro diwethaf, o 1,238 yn 2017/2018, 598 yn 2018-2019 i 251 yn 2019-2020. Mae'r gostyngiad hyn oherwydd fod gan fwyafrif y Safleoedd Strategol a ddyranwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol eisoes ganiatâd cynllunio. Mae'n werth nodi y gwneir cynnydd sylweddol ar nifer o safleoedd strategol a safleoedd a ddilynir drwy'r polisi heb ei ddyrannu a gyflwynwyd i fynd i'r afael â'r prinder o gyflenwad tir tai. Cafodd nifer o geisiadau materion a gadwyd eu cymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro hwn na chawsant eu cynnwys yn ffigurau eleni i osgoi cyfrif ddywaith rifau a gynhwyswyd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol o'r ceisiadau cynllunio amlinellol. Mae manylion pellach ar y safleoedd hyn ar gael yn y sylwebaeth i'r adran Safleoedd Tai Strategol a drafodir yng nghyswllt Polisi S3.<br><br>**e) Prif Drefi**<br>O'r 251 uned annedd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro, roedd 13.5% (34 uned) ym Mhrif Drefi'r Sir sef y Fenni, Trefynwy a Chas-gwent. Gan fod hyn 27.5% yn is na'r targed a ddynodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (41%), cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach. Mae'r caniatâd yn cynnwys 34 cais, dim ohonynt ar gyfer ceisiadau mawr neu ddyraniadau yn y Cynllun Datblygu Lleol. Yn y cyswllt hwn, cafodd pob un o'r 34 uned eu dosbarthu fel safleoedd bach, gan gyfrannu at lwfans safleoedd bach y Cynllun. Ohonynt, roedd 5 cais yn cyfrif am 9 uned (26%) yn ymwneud ag addasu adeiladau a newid defnydd a 9 cais yn cyfrif am 25 uned (74%) yn ymwneud ag anheddau adeiladu newydd. Roedd dau cais yn cyfrif am 17 o'r unedau hyn a 50% o'r holl unedau a gymeradwywyd yn y prif drefi yn ystod y cyfnod monitro. Roedd y ddau yn cynnwys cynlluniau 100% tai fforddiadwy a gyflwynwyd gan Gymdeithas Tai Sir Fynwy mewn dau hen safle garej yng Nghas-gwent ac yn cyfrif am yr holl dai fforddiadwy a ganiatawyd yn y prif drefi yn ystod y cyfnod monitro. Drwyddi draw, y tai marchnad agored/fforddiadwy a gafodd eu rhannu ar draws y prif drefi oedd 17 uned fforddiadwy (50%) a 17 marchnad agored (50%).<br><br>Cas-gwent oedd yn cyfrif am fwyafrif y caniatâd anheddau a gofnodwyd ar 73%, gyda'r Fenni yn cyfri am 18% a Threfynwy 9%.<br><br>Mae nifer yr anheddau a ganiatawyd yn y prif drefi yn ystod y cyfnod monitro presennol yn sylweddol is na'r cyfnodau monitro blaenorol a dyma'r isaf i'w gofnodi ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, yn nhermau nifer yr unedau a ganiatawyd a hefyd fel canran o gyfanswm y caniatâd o fewn y Sir. Eleni roedd caniatâd yn y prif drefi yn 13.5% o'r holl unedau a gymeradwywyd o gymharu â 29.7% yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2018-2019, 59.6% yng nghyfnod 2017-2018, 30.2% yn 2016-2017, 31% yn 2015-2016 a 81% yn 2014-2015.<br><br>Rhagwelwyd yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddl blaenorol y byddai'r gyfran o anheddau y rhoddwyd caniatâd iddynt yn yr Adroddiadau dilynol oherwydd fod Safleoedd Tai Strategol a ddyrannwyd yn y Fenni, Trefynwy a Chas-gwent wedi cael caniatâd cynllunio mewn cyfnodau moitro blaenorol. Rhoddir diweddariad ar gynnydd safleoedd a ddyranwyd yn y prif drefi yn y dadansoddiad polisi safleoedd strategol (Polisi S3). |
| **f) Aneddiadau Glannau Hafren** |

Roedd dros hanner (60.8%, 155 uned) o'r 251 annedd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro yn aneddiadau Glannau Hafren. Mae hyn yn uwch na'r targed a ddynodwyd ar gyfer yr ardal hon (33%), felly cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach. O'r 155 uned a gafodd ganiatâd, roedd 88% yng Nghil-y-coed, 8% yn Rogiet, 3% yng Ngwndy a 1% ym Magwyr. Ni roddwyd caniatâd i unrhyw unedau preswyl yng Nghaerwent, Porthysgewin a Sudbrook yn ystod y cyfnod monitro.

Mae safle yn Heol yr Eglwys, Cil-y-coed yn cyfrif am fwyafrif yr unedau a ganiatawyd yng Nghil-y-coed ac ardal ehangach Glannau Hafren ar 95% o'r unedau yng Nghil-y-coed a 84% o'r unedau yng Nglannau Hafren. Mae'r cais hwn (2018/00880) yn rhoi caniatâd amlinellol ar gyfer 130 uned a aseswyd o gymharu â'r asesiad 'safleoedd heb eu dyrannu' a gymeradwywyd gan y Cyngor i gyfarch y prinder o gyflenwad tir tai yn y Sir. Roedd hap-safle yn Fferm Ifton Manor, Rogiet yn cyfrif am 12 uned ychwanegol a ganiatawyd. Roedd safleoedd bach yn cyfrif am weddill y caniatâd yng Nglannau Hafren – 7 annedd yng Nghil-y-coed, 1 annedd yn Rogiet, 1 annedd ym Magwyr a 4 annedd yn Gwndy.

O'r anheddau a ganiatawyd yn setliadau Glannau Hafren, roedd 69% (107 uned) ar gyfer cartrefi marchnad a 31% (48 uned) ar gyfer cartrefi fforddiadwy.

Mae'r gyfran o ddatblygiadau a ganiatawyd yn aneddiadau Glannau Hafren yn uwch nag yn y cyfnodau monitro blaenorol ar 61.8% o gymharu â'r gyfradd isaf o 10% a gofnodwyd yn 2015-16 a'r gyfradd ail uchaf o 54% yn 2016-2017. Mae caniatâd eleni yn gynnydd pellach ar gyfradd y llynedd o 53.2%. Priodolir hyn i'r caniatâd yn Heol yr Eglwys, Cil-y-coed ac ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiadau sylweddol eraill yn y Sir yn ystod y cyfnod monitro hwn.

Ni ragwelir y daw unrhyw safleoedd ychwanegol i'r amlwg drwy'r dull polisi 'safleoedd heb eu dyrannu' yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Mae un dyraniad tai strategol pellach yng Nglannau Hafren nad yw wedi derbyn caniatâd cynllunio hyd yma – Tir yn Rhiw Finegr, Gwndy. Gall cyflwyno'r cais hwn yn y cyfnod monitro nesaf arwain at gyfran parhaus uwch o ganiatâd yn rhanbarth Glannau Hafren oherwydd bod caniatâd cynllunio gan yr holl safleoedd tai strategol eraill. Rhoddir diweddariad ar gynnydd safleoedd a ddyrannwyd yng Nglannau Hafren a'r Sir yn y dadansoddiad o bolisi Safleoedd Strategol (Polisi S3).

Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn er mwyn penderfynu effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y Cynllun.

**g) Aneddiadau Gwledig Eilaidd**

Roedd chwech uned (2.4%) o'r holl anheddau a gafodd ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro yn aneddiadau gwledig eilaidd y Sir. Mae hyn o fewn yr ystod dangosydd 10%, felly ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach.

Gellir priodoli'r chwe uned i ddau gais caniatâd, y ddau yn hapsafleoedd bach. Mae'r cyntaf ar gyfer pedair uned yn safle hen Ysgol Gynradd Llan-ffwyst a dwy uned ar dir yn Nhŷ Caestory, Stryd Fawr, Rhaglan.

| |
|---|
| Er bod y canran o ganiatâd yn yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol (2.4% o gymharu â 8% a 10.2% yn y ddau Adroddiad Monitro Blynyddol diwethaf) roedd hyn wedi ei ragweld ac mae'n adlewyrchu dau o'r tri dyraniad yn y Cynllun Datblygu Lleol mewn haen anheddiad eisoes wedi cael caniatâd cynllunio. Gwnaed cynnydd hefyd ar y safle Anheddiad Gwledig Eilaidd a ddyrannwyd yn y Cynllun yn Heol Trefynwy, Brynbuga (SAH10(i)). Cafodd hyn ganiatâd cynllunio ym mis Ebrill 2020 a chaiff ei gynnwys yng nghyfnod monitro'r flwyddyn nesaf.<br><br>Oherwydd yr uchod, ni ystyrir fod unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt caniatâd am anheddau a roddwyd yn yr aneddiadau gwledig eilaidd. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y cynllun. |
| **h) Gwledig Cyffredinol**<br>Roedd 56 (22.3%) o'r holl anheddau a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro yn ardaloedd gwledig y Sir. Er fod hyn yn uwch na'r targed a ddynodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol o 16%, mae o fewn yr hyblygrwydd +/- 10%. Felly, ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach.<br><br>Mae nifer yr anheddau a gafodd ganiatâd a gofnodwyd mewn ardaloedd gwledig yn ystod y cyfnod monitro hwn yn uwch nag yn y rhan fwyaf o gyfnodau monitro eraill, er ei fod yn fras debyg gyda'r gyfradd a gyrhaeddwyd yn 2015-2016 o 22%. Er bod cyfran eleni o 22.3% yn uwch na chyfran y llynedd o 9.2%, dim ond cynnydd o 1 uned yw'r nifer o unedau a gafodd ganiatâd (56 uned wedi eu cymeradwyo yn 2019-2020 o gymharu â 55 uned yn 2018-2019. Mae'r cynnydd yn y gyfran felly yn fwy o adlewyrchiad o ostyngiad mewn caniatâd yn y prif drefi nag unrhyw gynnydd gwirioneddol yn yr aneddiadau gwledig cyffredinol. Er amrywiaethau mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol, bu'r gyfran o ganiatâd a gofnodwyd yn ardaloedd gwledig y Sir o fewn +/- 10% o'r targed ers ei fabwysiadu, gan olygu na chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach hyd yma sy'n arwydd nad oes unrhyw bryderon sylweddol gyda'r caniatâd a roddwyd mewn ardaloedd gwledig.<br><br>Heb fod yn annisgwyl, safleoedd bach oedd mwyafrif yr anheddau a ganiatawyd a gofnodwyd mewn ystod o aneddiadau gwledig ledled Sir Fynwy (73%, 41 uned). Cafodd dau safle prif bentref a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn Devauden (SAH11(ii)) a Garej Cross Ash (SAH11(i)(b) ganiatâd cynllunio dros y cyfnod monitro (12 marchnad agored, 9 fforddiadwy dros y ddau safle). Roedd gweddill yr unedau yn bennaf yn ymwneud â datblygiadau preswyl graddfa fach gyda 36% (20 uned) wedi eu priodoli i addasu ysguboriau. Cafodd cyfanswm o 47 annedd marchnad a 9 annedd fforddiadwy eu caniatáu.<br><br>Yng ngoleuni'r uchod, ni ystyrir fod unrhyw broblem gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt caniatâd am anheddau a roddwyd yn aneddiadau gwledig y Sir. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y cynllun. |
| **Argymhelliad** |
| e) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

| |
|---|
| f) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| g) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| h) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Caiff nifer yr anheddau a gwblhawyd a’r caniatâd a roddwyd eu monitro er mwyn ennill darlun cynhwysfawr o weithrediad y strategaeth ofodol.

## Darpariaeth Tai

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Darparu 4,500 uned annedd (yn cynnwys 960 uned annedd fforddiadwy) yn y Sir dros gyfnod y Cynllun. |
| **Polisi Strategol:** | S2 Darpariaeth Tai |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a Gefnogir:** | 1, 3 & 4 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a Gefnogir:** | H1-H9, SAH1-SAH11 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Ym mis Mawrth 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r ffordd y caiff darpariaeth tai ei fonitro. Mae'r newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru yn dileu'r polisi cyflenwad pum mlynedd o dir tai ac yn ei ddisodli gyda datganiad polisi yn ei gwneud yn eglur mai'r trywydd tai a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd fydd y sail ar gyfer monitro darpariaeth gofynion tai'r Cynllun Datblygu fel rhan o Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cynlluniau. Roedd hefyd yn diddymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN 1): Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Ionawr 2015) yn ei gyfanrwydd fel canlyniad i'r newid polisi i Bolisi Cynllunio Cymru.

Yn dilyn y newidiadau hyn ac yn unol â'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Mawrth 2020), paratowyd trywydd tai a luniwyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar y tir tai sydd ar gael yn Sir Fynwy ar hyn o bryd, yn cynnwys yr anheddau a gafodd eu cwblhau/a gafodd ganiatâd a'u lleoliadau.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad blaenorol yr Adroddiad Monitro Blynyddol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer yr anheddau ychwanegol marchnad gyffredinol a fforddiadwy a adeiladwyd dros gyfnod y cynllun* | Hyd at 488 annedd i'w hadeiladu bob blwyddyn 2013-2021 *(2014-15: 205)* *(2015-16: 234)* | 10% yn llai neu'n fwy na chyfradd adeiladu strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol am 2 flynedd yn olynol | **356** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2016-17: 238)* *(2017-18: 279)* *(2018-19: 443)* | | |
| 2. Lefel flynyddol yr anheddau a gafodd eu cwblhau o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog (AAR)** | Y gwahaniaeth rhwng yr union nifer a gafodd eu cwblhau â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog *(2014-15: -245 uned (-54.4%))* *(2015-16: -216 uned (-48%))* *(2016-17: -212 (-47.1%))* *(2017-18: -171 uned (-38%))* *(2018-19: -7 uned (-1.6%))* | Tangyflawni nifer blynyddol a gafodd eu cwblhau ar ddwy flynedd yn olynol | **-94 uned (-20.9%)** |
| 3. Cyfanswm cronnus nifer anheddau a gafodd eu cwblhau o gymharu â'r gofyniad cronnus (Gofyniad Blynyddol Cyfartalog Cronnus)** | Gwahaniaeth rhwng y nifer cronnus a gafodd eu cwblhau a'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog *(2014-15: -769 uned (-42.7%))* *(2015-16: -985 uned (-43.8%))* *(2016-17: -1197 (-44.3%))* | Tangyflawni wrth gwblhau anheddau ar ddwy flynedd yn olynol | **-1469 uned (-36.3%)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2017-18: -1368 uned (-43.4%))* *(2018-19: -1375 uned (-38.2%))* | | |
| 4. Dwysedd anheddau a ganiatawyd (dph) ar safleoedd a ddyrannwyd♦ | Cyrraedd y dwyseddau targed a osodir ym mholisïau dyrannu safle SAH1 i SAH10 | Nid yw'r caniatâd cynllunio a roddwyd yn cyrraedd y dwyseddau hyn | **SAH2: 30 dph SAH3: 39 dph** |
| 5. Adolygu Astudiaeth Anghenion Llety a Safleoedd Sipsiwn/Teithwyr i gael ei chwblhau o fewn dwy flynedd o fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol | Os dynodir angen am safle(oedd) ychwanegol, ceisio dyrannu safle addas erbyn y Gwanwyn 2017 | Angen a ddynodwyd heb ei gyrraedd erbyn Gwanwyn 2017 | **Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr yn Ionawr 2017. Cymeradwyo 17 llain** |

**Dadansoddiad**

1. Er fod y dull o fonitro darpariaeth tai wedi newid yn ystod y cyfnod monitro hwn, caiff y ddangosydd ei gynnwys o hyd gan ei fod yn mesur y nifer a gwblhawyd o gymharu â'r targed (488) o fabwysiadu'r Cynllun yn 2014 yn hytrach na 2011, dechrau cyfnod y Cynllun. Mae'r dangosydd hwn felly yn trafod unrhyw dan/dros ddarpariaeth yn nhair blynedd gyntaf y Cynllun cyn ei fabwysiadu.

Cafodd 356 annedd eu hadeiladu yn ystod y cyfnod monitro (274 marchnad gyffredinol a 82 fforddiadwy).

Roedd mwyafrif yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd (252 uned, 71%), yn cynnwys Fferm Deri, y Fenni (68), Coed Glas, y Fenni (32), Heol Wonastow, Trefynwy (74), tir i'r de o Heol Brynbuga, Penperllenni (1 – mae'r safle hwn yn awr wedi ei gwblhau), Melin Bapur Sudbrook (61) a Fferm Rockfield, Gwndy (16). Safleoedd bach (yn cynnwys addasiadau a hapsafleoedd) oedd y 104 annedd arall a gwblhawyd (29%).

Er nad oedd y nifer a gwblhawyd mor uchel ag yn y cyfnod monitro diwethaf, maent yn parhau'n sylweddol uwch nag yn y cyfnodau monitro blaenorol. Fodd bynnag, ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn gan na fu'r nifer a gwblhawyd 10% yn llai na'n fwy na chyfradd adeiladu strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol am 2 flynedd yn olynol. Mae'r ffigur cwblhau cyfredol, ynghyd â'r gyfradd cwblhau o 1399 annedd a gofnodwyd yn ystod y pum cyfnod monitro ers ei fabwysiadu (cwblhau 205 yn 2014-2015, cwblhau 234 yn 2015-2016; cwblhau 238 yn 2016-2017; cwblhau 279 yn 2017-2018; a

chwblhau 443 yn 2018-2019) yn golygu y cofnodwyd cwblhau cyfanswm o 1755 o anheddau ers mabwysiadu'r Cynllun.

Mae'r cynnydd ar y safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn parhau i gyfrif am lefel uwch nifer a anheddau a gafodd eu cwblhau a gofnodwyd yn ystod y cyfnod hwn o gymharu â chyfnodau monitro cynharach. Oherwydd i nifer o safleoedd eraill a ddyrannwyd gael caniatâd, mae'n ddi-os y bydd nifer yr anheddau a gwblhawyd yn cynyddu dros weddill cyfnod y Cynllun. Gan i ddau Safle Tai Strategol gael caniatâd materion a gadwyd yn ystod y cyfnod monitro hwn, rhagwelir y bydd hyn ynghyd â'r dyraniadau safleoedd strategol eraill yn golygu y caiff anheddau eraill eu cwblhau ar y safleoedd hyn yn ystod cyfnod monitro y flwyddyn nesaf. Bydd cyflenwi safleoedd tai strategol y Cynllun Datblygu Lleol yn neilltuol yn hybu'r gyfradd cwblhau yn unol â'r targed a ddynodwyd. Rhoddir diweddariad ar y cynnydd ar y safleoedd strategol a ddyrannwyd yn y dadansoddiad polisi o safleoedd strategol (Polisi S3).

Mae nifer o ffactorau economaidd ehangach sy'n dylanwadu ar ddarpariaeth tai yn ychwanegol a thu hwnt i'r system cynllunio. Roedd chwe dyraniad safle strategol wedi cael caniatâd erbyn diwedd y cyfnod monitro ac mae cynnydd sylweddol ar ddod â'r safle strategol arall ymlaen, fel y nodir yn y dadansoddiad ar Bolisi S3. Nid oes tystiolaeth i awgrymu na fedrir cyflawni'r dyraniad safle strategol sydd ar ôl neu fod angen adolygu'r dyraniad.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cyfraddau cwblhau anheddau yn agos yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi wrth alluogi cyflenwi anheddau marchnad gyffredinol a hefyd anheddau fforddiadwy.

2. & 3. Fel y trafodir uchod ac yn adran cyd-destun yr Adroddiad Monitro Blynyddol, yn ystod cyfnod yr Adroddiad hwn cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r ffordd y caiff darpariaeth tai ei fonitro. Mae'r newidiadau yn dileu'r polisi cyflenwad pum mlynedd o dir tai ac yn ei le yn rhoi datganiad polisi yn ei gwneud yn eglur mai'r trywydd tai, fel y'i nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ac a gytunwyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai, fydd y sail ar gyfer monitro darpariaeth gofynion tai y cynllun datblygu fel rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff y dull ar gyfer cynnal hyn ei nodi yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Rhifyn 3) (Mawrth 2020).

Mae'n ofynnol i'r awdurdodau cynllunio lleol hynny a fabwysiadodd eu Cynlluniau Datblygu Lleol cyn cyhoeddi'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu ac felly heb baratoi trywydd tai i ddefnyddio'r dull Gofyniad Blynyddol Cyfartalog fel y prif ddangosydd i fesur darpariaeth tai, ac i gynnwys y dull trywydd o fewn yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf a gyhoeddwyd yn dilyn cyhoeddiad y Llawlyfr. Roedd y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd yn gyfwerth â 450 annedd fesul blwyddyn, gofyniad y Cynllun o 4,500 annedd wedi'i rannu dros 10 mlynedd cyfnod y Cynllun. Ar y ffigur hwn y caiff darpariaeth anheddau'r Cynllun ei fonitro o hyn ymlaen.

Cafodd dau ddangosydd newydd eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn, sy'n disodli'r dangosydd blaenorol oedd yn mesur y cyflenwad pum mlynedd o dir tai. Mae'r cyntaf o'r dangosyddion hyn yn mesur lefel flynyddol yr anheddau a gwblhawyd o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu yn nodi

bod yn rhaid cyflwyno hyn yn glir yn yr Adroddiad fel rhifau a hefyd fel canran (plws/minws x %) ac mai'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach ddylai fod diffyg ar y nifer blynyddol a gwblhawyd mewn dwy flynedd ddilynol. Er bod diffyg yn y nifer ym mlynyddoedd cynnar cyfnod y Cynllun, yn y cyfnodau monitro mwyaf diweddar bu'r nifer anheddau a gwblhawyd yn llawer nes at y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog, -7 uned (-1.6%) yn 2018/19 a –94 uned (-20.9%) yn 2019/20. Mae hyn yn bennaf oherwydd pa mor gyflym y daeth y safleoedd strategol ymlaen. O'r 7 safle strategol, mae gan 6 bellach ganiatâd cynllunio felly mae'n debygol y bydd y nifer a gafodd eu cwblhau yn nes i'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog o hyn ymlaen. Fodd bynnag, cafodd y sbardun ar gyfer adolygu'r Cynllun ei gyrraedd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol ac mae gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd wedi dechrau.

Mae'r ail o'r dangosyddion hyn yn mesur y cyfanswm cronnus a gwblhawyd o gymharu â'r gofyniad cronnus (Gofyniad Blynyddol Cyfartalog cronnus). Unwaith eto mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu yn dweud fod yn rhaid i hyn gael ei gyflwyno'n glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol fel rhif a hefyd fel canran (plws/minws x %) ac mai'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach ddylai fod diffyg yn y nifer a gwblhawyd ar ddwy flynedd ddilynol. Bu diffyg yn y nifer cronnus a gwblhawyd ers dechrau cyfnod y Cynllun ac felly cafodd y sbardun ei gyrraedd. Fodd bynnag, mewn Adroddiadau mwy diweddar mae'r canran y diffyg wedi gostwng yn gyson wrth i'r safleoedd strategol ddod ymlaen. Mae dadansoddiad mwy manwl ar gynnydd ar safleoedd strategol ar gael yn yr adran ar Safleoedd Tai Strategol (Polisi S3).

Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu hefyd angen monitro elfennau o gyflenwad tai, yn cynnwys dyraniadau safle, hapsafleoedd bach a mawr, ar wahân a'u cynnwys ar graff i'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Cafodd trywydd tai ei baratoi mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai ac fe'i dangosir yn y tabl a'r graff islaw. Mae gwybodaeth fanwl am amseriad a threfn safleoedd yn y trywydd yn Atodiad 1. Gan mai dim ond un flwyddyn sydd ar ôl o gyfnod y Cynllun mae'r trywydd yn cynnwys 5 blwyddyn arall tu hwnt i'r cyfnod monitro hwn. Mae hyn yn mynd â'r trywydd i gynllun y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ac yn caniatáu dadansoddiad mwy ystyrlon o ddarpariaeth tai.


**Cyfanswm Blynyddol o Nifer Anheddau a Gwblhawyd o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog**

| Blwyddyn Cynllun Datblygu Lleol | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** |
| Gwir nifer a gwblhawyd safleoedd cronfa dir [4] | 86 | 193 | 118 | 73 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | |
| Gwir nifer a gwblhawyd safleoedd a ddyrannwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 36 | 89 | 279 | 252 | | | | | |
| Gwir nifer a gwblhawyd hapsafleoedd | 60 | 55 | 53 | 33 | 135 | 128 | 107 | 80 | 0 | | | | | |

[4] Safleoedd cronfa dir yw'r safleoedd hynny a ddyrannwyd ar gyfer eu datblygu mewn Cynlluniau blaenorol.

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwir nifer a gwblhawyd safleoedd bach | 108 | 94 | 59 | 99 | 99 | 74 | 83 | 84 | 104 | | | | | |
| Nifer y rhagwelwyd eu cwblhau safleoedd a ddyrannwyd | | | | | | | | | | 197 | 326 | 402 | 268 | 261 |
| Nifer y rhagwelwyd eu cwblhau hapsafleoedd | | | | | | | | | | 150 | 185 | 151 | 111 | 58 |
| Nifer y rhagwelwyd eu cwblhau safleoedd bach | | | | | | | | | | 89 | 89 | 89 | 89 | 89 |
| **Gwir nifer a Gwblhawyd** | **254** | **342** | **230** | **205** | **234** | **238** | **279** | **443** | **356** | **436** | **600** | **642** | **468** | **408** |
| Gofyniad Blynyddol Cyfartalog (seiliedig ar Ofyniad Blynyddol Cyfartalog llinell syth) | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | | | | |

**Trywydd Datblygiad Tai 2011-2025**




Mae'r wybodaeth hon yn dangos yn glir ym mlynyddoedd cynnar y Cynllun Datblygu Lleol fod mwyafrif y nifer a gwblhawyd yn dod o'r gronfa dir o safleoedd o'r Cynllun blaenorol. Fodd bynnag, mewn blynyddoedd diweddar wrth i'r Safleoedd Strategol gael caniatâd maent yn cyfrannu'n sylweddol at at y cyfanswm a gwblhawyd. Er eu bod yn is na'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog yn ystod y cyfnod monitro, rhagwelir y byddant yn cyrraedd neu'n uwch na'r gofyniad dros y 5 mlynedd nesaf wrth i'r safleoedd gweddilliol gael eu hadeiladu.

| |
|---|
| 4. Cafodd y safleoedd dilynol a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol*** ganiatâd cynllunio materion a gadwyd dros y cyfnod monitro sydd wedi effeithio ar nifer yr unedau a gaiff eu darparu ar y safle. Mae dwyseddau'r safle fel sy'n dilyn:<br>• Heol Crug, Porthysgewin (SAH2) 269 uned, dwysedd o 30 annedd fesul hectar.<br>• Fairfield Mabey, Cas-gwent (SAH3) 347 uned, dwysedd o 39 annedd fesul hectar.<br><br>Roedd gan y ddau safle ddwysedd ychydig yn uwch na'r targed a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol. Targed y Cynllun ar gyfer Heol Crug, Porthysgewin yw 28.6 a 37 ar gyfer Fairfield Mabey, Cas-gwent.<br><br>Oherwydd yr uchod, gan fod y ddau ddyraniad Cynllun a gafodd ganiatâd dros y cyfnod monitro ychydig yn uwch na'r dwyseddau targed gofynnol, ystyrir nad oes unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt dwysedd y tai a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd. Serch hynny bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y Cynllun. |
| 5. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i gadw golwg ar anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ac mae wedi paratoi Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr a gyflwynwyd i Weinidog Cymru yng nghyfnod monitro 2016-2017. Nod yr asesiad oedd rhoi data a fyddai'n dynodi anghenion lleiniau Sipsiwn a Theithwyr ar wahân i'r galw preswyl a dyhead ehangach. Un o ganfyddiadau allweddol yr asesiad oedd yr amcangyfrifir fod angen heb ei gyflawni ar gyfer wyth llain hyd 2021, yn seiliedig ar orlenwi, defnydd heb awdurdod a thebygrwydd o wrthwynebiad diwylliannol i dai confensiynol.<br><br>Oherwydd hyn bwriad y Cyngor yw gwneud darpariaeth ar gyfer safle(oedd) priodol i ateb yr angen a ddynodwyd heb ei ddiwallu drwy weithio gydag aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr i ganfod eu dewisiadau ar gyfer darpariaeth safle (preifat neu Gyngor). Mae canfyddiadau proses yr Asesiad yn awgrymu fod dyhead o fewn llawer o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr am ddarpariaeth safle preifat yn Sir Fynwy. Lle mae angen, bydd y Cyngor yn gweithio gyda ac yn cefnogi aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr i ddynodi a datblygu safleoedd preifat addas i drin yr angen heb ei gyflawni a ddynodwyd yn unol â fframwaith polisi'r Cynllun Datblygu Lleol. Ystyrir mai'r ffordd orau o ddarparu safleoedd o'r fath fyddai drwy fframwaith polisi presennol y Cynllun (Polisi H8). Os na fedrir sicrhau safle(oedd) preifat, gall fod angen dynodi safle cyhoeddus i sipsiwn/teithwyr yn unol â fframwaith polisi'r Cynllun.<br><br>Yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, bu peth cynnydd yn nhermau datblygiadau'r Asesiad, yn cynnwys paratoi a mabwysiadu Polisi Llety Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr. Roedd angen mabwysiadu'r polisi hwn cyn y gellid rhoi ystyriaeth i ddynodi safleoedd Sipsiwn a Theithwyr addas. Fe wnaeth Gwasanaeth Strategaeth Tai y Cyngor lunio Polisi Llety Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr (rhestr aros yn seiliedig ar fandiau (lefelau) angen i gynorthwyo gyda dyrannu lleiniau), cafodd hyn ei gymeradwyo a'i fabwysiadu drwy Benderfyniad Cabinet Aelod Sengl ar 28 Chwefror 2018.<br><br>Yn unol â'r fframwaith monitro, nid oedd yr angen a ddynodwyd wedi cael ei gyrraedd erbyn Gwanwyn 2017 felly cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad bellach. Fodd bynnag, fel yn y Gwanwyn 2019 roedd yr angen heb ei gyflawni a ddynodwyd yn yr Asesiad wedi ei gyrraedd. Rhoddir manylion pellach islaw. |

| |
|---|
| Fel yr adroddwyd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol, gwrthodwyd dau gais cynllunio ar gyfer llety Sipsiwn/Teithwyr yn ystod cyfnod 2016-17. Roedd y cais yn cyfeirio at safle preifat i sipsiwn yn cynnwys 5 llain ychwanegol a datblygiad cysylltiedig ar dir yn Llangyfiw a safle preifat 4 llain i Sipsiwn yn Llancaio. Ystyriwyd fod y ddau gynnig yn groes i bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yng nghyswllt datblygu yng nghefn gwlad ac ystyriwyd fod ymgeiswyr wedi methu dangos fod amgylchiadau eithriadol oedd yn drech a fyddai'n gorbwyso fframwaith polisi y Cynllun. Yn ddilynol cafodd cais Llangyfiw (DC/2015/01424) ei ganiatáu mewn apêl ym mis Hydref 2017 ar gyfer safle parhaol ar gyfer 7 llain a datblygiad cysylltiedig. Gwrthodwyd y safle preifat 4 llain i Sipsiwn yn Llancaio (DC/2016/00297) mewn apêl ym mis Rhagfyr 2017 ar bob un o'r seiliau heblaw un. Caniataodd yr arolygydd yng nghyswllt sail (g) yn unig, yn cyfeirio at gyfnod o gydymffurfiaeth gyda'r Hysbysiad Gorfodaeth, yn ymestyn y cyfnod o 2 fis i 12 mis. Mae'r penderfyniad yn cael ei herio gan yr apeliwr yn yr Uchel Lys ar yn o bryd.<br><br>Cafodd cais cynllunio ar gyfer safle i un teulu o deithwyr gyda 1 llain ar dir i ogledd ddwyrain Llanwytherin (DM/2018/00205) ei wrthod ar sail diogelwch priffordd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf. Wedyn apeliodd yr ymgeisydd yn erbyn y penderfyniad gyda gwrandawiad apêl ym mis Chwefror 2019. Gwrthodwyd yr apêl ar seiliau diogelwch priffordd.<br><br>Yn ystod y cyfnod monitro presennol cafodd cais cynllunio am newid defnydd tir i ddarparu ar gyfer dau gartref parc a hyd at 4 carafán deithiol (safle teulu preifat) ei gymeradwyo ar dir yn agos at Sunnybank, Crug (DM/2019/01480).<br><br>Defnyddir polisi H8 seiliedig ar feini prawf y Cynllun Datblygu Lleol i ystyried unrhyw geisiadau ar gyfer llety Sipsiwn/Teithwyr sy'n codi yn Sir Fynwy. Caiff yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr ei ddiweddaru i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Parhau i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| 2. Parhau i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| 3. Parhau i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| 4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Dangosyddion Craidd

** Yn dilyn diddymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Ionawr 2015) yn llwyr, cafodd y dangosydd hwn ei newid i adlewyrchu gofynion y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Mawrth 2020)

***Dangosydd yn cyfeirio at safleoedd a ddyrannwyd yn SAH1 – SAH10 yn unig. Mae hyn felly yn eithrio safleoedd Prif Bentrefi a ddyrannwyd (SAH11).

♦Diwygiwyd i ddileu'r cyfeiriad at 'cyfartaledd' ar gyfer eglurhad. Mae'r dangosydd yn ceisio monitro'r dwysedd a gyflawnwyd ar safleoedd a ddyrannwyd, yn hytrach na'r dwysedd cyfartalog.

**Dangosyddion a gafodd eu diwygio/dileu – Cafodd y dangosydd hwn ei ddileu ers Adroddiad Monitro Blynyddol 2018-2019**

| Dangosydd gwreiddiol | Rheswm am ddiwygiad |
| --- | --- |
| Cyflenwad tir tai | Yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'rffordd y caiff darpariaeth tai ei fonitro. Ar gyfer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny sydd wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol mae’r newidiadau’n dileu’r polisi cyflenwad pum mlynedd o dir tai ac yn cyflwyno dull Gofyniad Blynyddol Cyfartalog yn ei le fel y prif ddangosydd i fesur darpariaeth tai. I adlewyrchu’r newid hwn, fel sydd angen gan y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu, cafodd y dangosydd cyflenwad tir tai ei ddileu a chafodd dau ddangosydd newydd eu cynnwys yn yr Adroddiad hwn. Mae’r cyntaf o’r dangosyddion hyn yn mesur lefel blynyddol nifer yr anheddau a gwblhawyd o gymharu â’r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog, mae’r ail yn mesur cyfanswm cronnus yr anheddau a gwblhawyd o gymharu â’r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog cronnus. |

## Safleoedd Tai Strategol

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Darparu'r safleoedd tai strategol yn unol â pholisi strategol S3 a pholisïau dyrannu safle SAH1-SAH7 |
| **Polisi Strategol:** | S3 Safleoedd Tai Strategol |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogwyd:** | 1, 3 & 4 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogwyd:** | SAH1-SAH7 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Ym mis Mawrth 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r ffordd y caiff darpariaeth tai ei fonitro. Mae'r newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru yn dileu'r polisi cyflenwad pum mlynedd o dir tai ac yn ei ddisodli gyda datganiad polisi sy'n ei gwneud yn eglur mai'r trywydd tai, fel y'i nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, fydd y sail ar gyfer monitro darpariaeth gofynion tai y cynllun datblygu fel rhan o Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd hefyd yn cynnwys diddymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN 1): Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Ionawr 2015) yn ei gyfanrwydd fel canlyniad i'r newid polisi i Bolisi Cynllunio Cymru.

Yn dilyn y newidiadau hyn ac yn unol â'r Llawlyfr ar y Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020), cynhaliwyd trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar y tir tai sydd ar gael yn Sir Fynwy ar hyn o bryd, yn cynnwys nifer yr anheddau a gwblhawyd/caniatâd a roddwyd a'u lleoliad.

| Dangosydd | Targed | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2019– 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer yr anheddau a ganiateir ar safleoedd strategol fel y'u dynodwyd ym Mholisi S3 a pholisïau dyrannu safle SAH1 i SAH7 | Sicrhau/cyflenwi angen tai ar y safleoedd strategol allweddol a ddynodwyd ym Mholisi S3 a pholisïau dyrannu safle SAH1-SAH7 yn ystod cyfnod y cynllun | Ni roddir caniatâd cynllunio erbyn diwedd 2014 ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a) Fferm Deri, Y Fenni | | **(250*)** |
| | b) Heol Crug, Porthysgewin | | **269** |
| | c) Fairfield Mabey, Cas-gwent | | **347** |
| | d) Heol Wonastow, Trefynwy | | **(340*)** |
| | e) Fferm Rockfield, Gwndy | | **(266*)** |
| | f) Tir yn Rhiw Finegr, Gwndy | | **0** |
| | g) Hen Felin Bapur, Sudbrook | | **(210*)** |
| 2. Nifer yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd strategol fel y dynodwyd ym Mholisi S3 a pholisïau dyraniadau safle SAH1 i SAH7 | Nifer yr anheddau a gwblhawyd yn unol â'r trywydd tai ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol** | Nifer yr anheddau a gwblhawyd yn syrthio dan 10% o'r targed trywydd tai ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol | |
| | a) Fferm Deri, Y Fenni *(Trywydd 2018-19 = cwblhau 50 annedd yn 2019-20)* | | **68** |
| | b) Heol Crug, Porthysgewin *(Trywydd 2018-19 = cwblhau 0 yn 2019-20)* | | **0** |
| | c) Fairfield Mabey, Cas-gwent *(Trywydd 2018-19 = cwblhau 0 yn 2019-20)* | | **0** |
| | d) Heol Wonastow, Trefynwy *(Trywydd 2018-19 = cwblhau 74 annedd yn 2019-20)* | | **74** |
| | e) Fferm Rockfield, Gwndy *(Trywydd 2018-19 = cwblhau 22* | | **16** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *annedd ar gyfer 2019-20)* | | |
| | f) Tir yn Rhiw Finegr, Gwndy *(trywydd 2018-19 = cwblhau 0 yn 2019-20)* | | **Dim ar Gael** |
| | g) Hen Felin Bapur, Sudbrook *(trywydd 2018-19 = cwblhau 35 yn 2019-20)* | | **61** |

**Dadansoddiad**

**1. Caniatâd Anheddau**

Yn nhermau safleoedd strategol a ddyrannwyd, ni roddwyd caniatâd i unrhyw safleoedd ychwanegol yn ystod y cyfnod monitro presennol, er fod dau safle yn bwnc caniatâd materion a gadwyd sydd wedi effeithio ar nifer yr unedau i gael eu darparu ar y safle. Cafodd safle Heol Crug, Porthysgewin ganiatâd cynllunio materion a godwyd ar gyfer 269 annedd a rhoddwyd caniatâd cynllunio materion a gadwyd ar gyfer 347 annedd yn safle Fairfield Mabey.

Mae'r ddau safle hwn ynghyd â chaniatâd am 340 uned yn safle Heol Wonastow*, 210 uned yn yr hen Felin Bapur, Sudbrook*, 266 uned yn Fferm Rockfield, Gwndy* a 250 uned yn Fferm Deri, y Fenni* yn golygu y cafodd chwech o ddyraniadau safle strategol y Cynllun ganiatâd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Fodd bynnag, gan nad yw'r safle strategol sydd ar ôl yn Rhiw Finegr, Gwndy wedi cael caniatâd cynllunio hyd yma, cafodd y sbardun am ymchwiliad pellach ei gyrraedd.

Oherwydd y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig gyda rhai o'r safleoedd, yn cynnwys Fferm Deri a Fairfield Mabey, roedd y dyddiad sbardun o gael caniatâd i bob safle erbyn diwedd 2014 yn afrealistig. Mae'r methiant i gael caniatâd cynllunio ar y safle strategol gweddilliol yn Rhiw Finegr erbyn diwedd y cyfnod monitro presennol yn fater o bryder, er y gwneir cynnydd ar ddod â'r safle hwn rhagddo fel yr amlinellir yn fyr islaw.

**Fferm Deri, Y Fenni (SAH1):**

Cyflwynodd Persimmon Homes gais llawn (DC/2014/01360) ar gyfer 250 uned breswyl (201 uned marchnad a 49 fforddiadwy) ym mis Tachwedd 2014. Roedd cynnydd y cais yn arafach na'r disgwyl oherwydd problemau sylweddol yn gysylltiedig â hyfywedd safle, yn neilltuol darpariaeth tai fforddiadwy a gosod llinellau pŵer uwchben dan ddaear. Fodd bynnag, cafodd y materion hyn eu datrys wedyn, cymeradwywyd y cais yng nghyfnod monitro 2017-2018 a chafodd 100 uned eu cwblhau hyd yma.

Mae'r trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn disgwyl i'r safle ddarparu 188 annedd o fewn cyfnod y Cynllun.

**Heol Crug, Porthysgewin (SAH2):**
Yn y cyfnod monitro diwethaf, cyflwynodd Cyngor Sir Fynwy a Cartrefi Melin gais amlinellol ar y cyd (DM/2018/00696) ar gyfer 291 uned breswyl (218 uned marchnad a 73 fforddiadwy), cafodd hyn ganiatâd ym mis Mawrth 2019. Yn ystod y cyfnod monitro presennol, cymeradwywyd cais materion a gadwyd (DM/2019/01041) am 269 uned breswyl (201 uned marchnad a 68 fforddiadwy). Mae hyn yn is na'r nifer targed o unedau ar gyfer y safle (285) yn y Cynllun Datblygu Lleol. Cafodd y gostyngiad yn nwysedd y safle ei yrru gan newidiadau i'r mathau tai arfaethedig a gan welliannau cadarnhaol i ddyluniad y safle. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys Seilwaith Gwyrdd sy'n ffurfio echel gogledd-de y safle, goblygiadau ecolegol nyth moch daear yn y safle a arweiniodd at fwy o ofod agored gwyrdd wedi'i ddiogelu, ac mae'r gofynion priffordd wedi arwain at gysylltiadau mwy diogel a mwy hygyrch. Mae polisi SAH2 yn dyrannu 1 hectar o B1, a gafodd ei newid am gartref gofal fydd yn darparu hyd at 32 gwely yn yr ardal a amlinellir ar gyfer defnydd cyflogaeth Mae hyn yn destun cais cynllunio ar wahân, DM/2019/01629, a gafodd ganiatâd ar 26 Chwefror 2020. Rhoddwyd cyfiawnhad yn flaenorol am dderbyn y golled hon yng nghyswllt y caniatâd amlinellol a gymeradwywyd mewn cyfnod monitro cynharach. Er nad mewn gwirionedd yn gyflogaeth B1, mae cartref gofal yn fath o gyflogaeth a byddai'n arwain at greu swyddi ar yr ardal.

Mae'r trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn disgwyl i'r safle i gyflenwi tua 14 annedd yng nghyfnod y Cynllun. Disgwylir i'r anheddau cyntaf gael eu cwblhau ar y safle yn 2021/22.

**Fairfield Mabey, Cas-gwent (SAH3):**
Cyflwynodd y perchennog tir gais amlinellol (DC/2014/01290) ym mis Hydref am hyd at 600 uned breswyl (350 i'w cyflenwi o fewn cyfnod y Cynllun), gofod masnachol yn cynnwys swyddfeydd a gweithdai (Dosbarth Defnydd B1), gofod manwerthu/bwyd a diod graddfa fach (Dosbarth Defnydd A1 ac A3) a gofod agored gwyrdd a glas aml-swyddogaeth. Bu'r cynnydd ar y cais yn arafach na'r disgwyl am resymau amrywiol, yn cynnwys problemau priffyrdd (roedd gan Adran Priffyrdd Llywodraeth Cymru wrthwynebiad dal ar y cais am 18 mis). Fodd bynnag, cafodd y materion oedd ar ôl eu datrys ers hynny a chafodd y safle ganiatâd cynllunio amlinellol am 450 uned (432 uned marchnad a thua 18 uned fforddiadwy ar 1.5 erw o'r safle) ym mis Tachwedd 2017. Roedd y cais amlinellol yn safle Fairfield Mabey yn gostwng y ddarpariaeth cyflogaeth o 2.8ha i 0.65 ha o dir B1. Cymeradwywyd Cais Materion a Gadwyd (DM/2019/0001) yn ystod y cyfnod monitro presennol ar gyfer 347 uned. Mae'r cais ar gyfer elfen tai marchnad y safle ac nid yw'n cynnwys y tir a ddynodwyd ar gyfer tai fforddiadwy na thir cyflogaeth; bydd y rhain yn destun ceisiadau ar wahân. Mae gwaith ar y safle yn awr wedi dechrau.

Mae'r trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn disgwyl i'r safle gyflenwi 58 annedd o fewn cyfnod y Cynllun.

**Heol Wonastow, Trefynwy (SAH4):**
Rhoddwyd caniatâd amlinellol ar gyfer hyd at 370 annedd a 6.5ha o dir cyflogaeth ym mis Rhagfyr 2014. Cyflwynodd datblygwyr y safle (Barratt/David Wilson a Taylor Wimpey) gais Materion a Gadwyd (DC/2015/00392) am 340 uned (238 uned marchnad a 102 uned

fforddiadwy) a gafodd ganiatâd ym mis Tachwedd 2015. Mae'r safle bellach yn agos at fod yn barod gyda 327 annedd wedi'u cwblhau hyd yma.

Mae cyfanswm dyraniad safle'r Cynllun Datblygu Lleol am gyfanswm o 450 uned. Caiff yr unedau ychwanegol yn gysylltiedig â'r dyraniad eu cyflenwi fel estyniad i'r safle yn Fferm Drewen. Ni chafodd cais am yr elfen hon o'r safle ei gyflwyno hyd yma.

Mae'r trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn disgwyl i'r safle gyflenwi 340 annedd o fewn cyfnod y Cynllun.

**Fferm Rockfield, Gwndy (SAH5):**
Dyrannwyd y safle hwn ar gyfer 270 uned breswyl o 2ha o dir â gwasanaeth ar gyfer defnydd busnes a diwydiannol yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd. Cyflwynwyd cais cynllunio amlinellol ym mis Gorffennaf 2016 (DC/2016/00883) am 266 uned a 5,575 m sg o dir cyflogaeth (defnydd B1). Ar gyfer dibenion yr Adroddiad Monitro Blynyddol, cofnodwyd 265 uned (198 uned marchnad a 67 uned fforddiadwy) fel budd net, mae gan y ffermdy presennol ddefnydd preswyl ac mae'n cael ei ddymchwel felly tynnwyd hwnnw o'r cyfanswm. Bu'r cynnydd gyda'r safle yn arafach nag a ddisgwylid oherwydd gwahanol faterion, yn cynnwys archaeoleg. Fodd bynnag cafodd y materion hyn eu datrys a chafodd y cais amlinellol ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2015. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i gais Materion a Gadwyd (DM/2018/01606) ar gyfer cam 1 y safle yn ystod y cyfnod monitro diwethaf ar gyfer 144 uned breswyl). Mae'r safle'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd gyda 16 annedd wedi eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro.

Mae'r trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn disgwyl i'r safle gyflenwi 107 annedd o fewn cyfnod y Cynllun.

**Tir yn Rhiw Finegr, Gwndy (SAH6):**
Mae'r safle hwn ar gyfer 225 uned breswyl yn gysylltiedig gyda safle cyfagos Fferm Rockfield a disgwylid y byddai'n symud ymlaen ar yr un pryd. Fodd bynnag er y bu'r cynnydd dechreuol yn araf, cyflwynodd y datblygwr (Bovis) gais hybrid (DM/2019/01937) yn ystod y cyfnod monitro presennol (Tachwedd 2019). Mae'r cais ar gyfer 155 annedd, 72 annedd fel cais llawn a 83 annedd fel amlinellol. Disgwylir y caiff y cyfnod hwn o'r datblygiad ei gymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Mae'r trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn disgwyl i'r safle gyflenwi tua 8 annedd o fewn cyfnod y Cynllun. Disgwylir y caiff yr anheddau cyntaf eu cwblhau ar y safle yn 2021/22.

**Hen Felin Bapur, Sudbrook (SAH7):**
Cyflwynwyd cais cynllunio llawn (DC/2015/01184) gan Harrow Estates (cadarnhawyd Redrow fel y datblygwr) ym mis Hydref 2015 am 212 uned breswyl (192 uned marchnad a 20 uned fforddiadwy). Bu nifer o broblemau gyda hyfywedd y safle yn gysylltiedig â'r cais gan olygu y bu cynnydd gyda'r cais yn arafach na'r disgwyl. Fodd bynnag cafodd y materion hyn eu datrys yn ddilynol a chafodd y cais ei gymeradwyo yng nghyfnod monitro 2016-2017 (Tachwedd 2016). Yn dilyn ailgynllunio rhan o'r safle, mae nifer yr unedau preswyl ar

y safle wedi gostwng i 210. Mae'r safle'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd gyda 96 annedd wedi eu cwblhau hyd yma.

Mae'r trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn disgwyl i'r safle gyflenwi 166 annedd o fewn cyfnod y Cynllun.

Ac eithrio Heol Wonastow, cydnabyddir nad yw safleoedd strategol a ddyrannwyd wedi symud ymlaen yn unol â'r targed a ddynodwyd o gael caniatâd cynllunio erbyn diwedd 2014. Fodd bynnag, oherwydd y cyfyngiadau'n gysylltiedig gyda rhai o'r safleoedd, yn cynnwys Fferm Deri a Fairfield Mabey, roedd y dyddiad sbardun o gael ganiatâd ar gyfer pob safle erbyn diwedd 2014 yn afrealistig. Cafodd y dyraniad strategol ym Melin Bapur Sudbrook ganiatâd yng nghyfnod monitro 2017-2018. Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn i safle Fferm Deri ynghyd â chaniatâd amlinellol yn Mhont Mabey, Cas-gwent a Fferm Rockfield, Gwndy yng nghyfnod monitro 2017-18, gyda Heol Crug, Porthysgewin yn cael caniatâd amlinellol yn ystod cyfnod monitro 2018-2019. Disgwylir y bydd y safle strategol terfynol, Rhiw Finegr, Gwndy, yn cael caniatâd yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Mae'r ffigurau trywydd tai a gytunwyd yn dangos diffyg yng nghyfnod y Cynllun (h.y. hyd at ddiwedd 2021) o 1,172 annedd o safleoedd strategol. Er y bu cynnydd pellach dros y cyfnod monitro hwn gyda dau safle strategol yn cael caniatâd cynllunio materion a gadwyd a bod adeiladu wedi dechrau ar ddau safle strategol arall, mae diffyg sylweddol yn dal i fod ar gyflenwi anheddau ar safleoedd strategol yn ystod cyfnod y Cynllun. Cafodd y sbardun ei gyrraedd am y chweched flwyddyn yn olynol. Fe y nodir uchod, mae'n debyg y bydd y safle strategol sydd ar ôl yn Rhiw Finegr, Gwndy yn mynd rhagddo yn ystod y cyfnod monitro nesaf a rhoddir adroddiad ar hynny ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu na fedrir cyflawni'r safle neu fod angen adolygu'r dyraniad. Fodd bynnag, mae gan oedi mewn safleoedd yn dod rhagddynt oblygiadau ar gyfer targedau monitro a sbardunau eraill a chaiff yr angen am unrhyw weithredu pellach ei ystyried mewn cysylltiad gyda'r dangosyddion neilltuol hynny. Yn neilltuol, mae gan gyflenwi safleoedd strategol oblygiadau amlwg ar gyfer y strategaeth ofodol a chyflenwi tai (marchnad gyffredinol a fforddiadwy). I gael gwybodaeth bellach am hyn gweler y dadansoddiad polisi ar gyfer Polisi S1, S2 a S4.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynnydd y safleoedd strategol yn agos oherwydd pwysigrwydd eu cyflenwi.

**2. Anheddau a Gwblhawyd**

Cofnodwyd cwblhau anheddau ar y safleoedd strategol a ddyrannwyd dilynol yn ystod y cyfnod monitro: Heol Wonastow, Trefynwy (74 annedd), Melin Bapur Sudbrook (61 annedd), Fferm Deri, y Fenni (68 annedd) a Fferm Rockfield, Gwndy (16 annedd). Mae hyn i'w ddisgwyl gan i'r oll safleoedd hyn gael caniatâd cynllunio cyn y cyfnod monitro hwn. Ac eithrio Fferm Rockfield, mae'r holl anheddau a gwblhawyd a gofnodwyd yn uwch na thrywydd Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018-19. Yng nghyswllt Fferm Rockfield dim ond bwlch bach oedd yn nifer yr anheddau a gafodd eu cwblhau: roedd trywydd Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018-19 yn rhagweld cwblhau 22 annedd ar y safle hwnnw yn 2019-20, roedd y gwir nifer yn 16. Fodd bynnag, gan mai dim ond newydd

ddechrau mae'r gwaith adeiladu ar y safle ac y daeth adeiladu i ben cyn diwedd y cyfnod monitro oherwydd cyfyngiadau Covid-19, ni ystyrir bod y bwlch o 6 uned yn fater pryder.

Fel y dangosir uchod, gan fod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud ar y ceisiadau cynllunio gweddilliol ar gyfer safleoedd strategol, rhagwelir y bydd nifer yr anheddau a gwblhawyd yn gydnaws gyda'r targedau trywydd a ddynodwyd a gytunwyd gan y Grŵp Rhanddeiliaid Tai wrth i'r safleoedd hyn symud ymlaen yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Fel y nodir yn y newidiadau cyd-destun uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi diddymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Ionawr 2015) yn llwyr yn ystod y cyfnod monitro presennol, fel canlyniad i'r newid ym Mholisi Cynllunio Cymru. Yng ngoleuni'r canllawiau newydd a nodir yn Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Rhifyn 3, Mawrth 2020) mae Cyngor Sir Fynwy mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai wedi cynhyrchu trywydd tai. Rhoddir dadansoddiad pellach o'r trywydd tai yn yr adran ar Bolisi S2 Darpariaeth Tai. Er nad yw'r gofyniad i ddangos cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai yn weithredol bellach a gyda dim ond 1 flwyddyn o'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ar ôl, mae'n ddefnyddiol ystyried yr unedau hynny y rhagwelir y byddant wedi eu cwblhau tu allan i'r 5 mlynedd nesaf. Mae hyn yn dangos, er na chafodd y nifer disgwyliedig o anheddau eu cwblhau ar nifer o safleoedd strategol eto, bod y safleoedd yn mynd rhagddynt er fod cyfanswm nifer yr unedau tu allan i'r cyfnod 5 mlynedd hwn (h.y. 2020-2025) wedi parhau'r un fath ag yn y cyfnod monitro blaenorol, fel y manylir yn y tabl islaw.

**Trywydd Grŵp Rhanddeiliaid Tai**

| | 2017-18 | | 2018 – 19 | | 2019 – 20 | | Newid mewn nifer unedau tu allan i'r 5 mlynedd nesaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | O fewn y 5 mlynedd nesaf | Tu allan i'r 5 mlynedd nesaf | O fewn y 5 mlynedd nesaf | Tu allan i'r 5 mlynedd nesaf | O fewn y 5 mlynedd nesaf | Tu allan i'r 5 mlynedd nesaf | |
| **Fferm Deri** | 229 | 21 | 218 | 0 | 150 | 0 | = |
| **Fairfield Mabey** | 230 | 120 | 325 | 125 | 305 | 68 | -57 |
| **Fferm Rockfield** | 232 | 34 | 266 | 0 | 250 | 0 | = |
| **Rhiw Finegr** | 150 | 75 | 175 | 50 | 130 | 95 | +45 |
| **Heol Wonastow (Taylor Wimpey)** | 115 | 0 | 34 | 0 | 4 | 0 | = |
| **Heol Wonastow (Barratt)** | 117 | 0 | 52 | 0 | 9 | 0 | = |
| **Heol Wonastow (Fferm Drewen)** | 110 | 0 | 110 | 0 | 110 | 0 | = |
| **Heol Crug** | 160 | 125 | 203 | 88 | 169 | 100 | +12 |
| **Melin Papur Sudbrook** | 175 | 35 | 175 | 0 | 114 | 0 | = |

| |
|---|
| Gwelodd dau safle strategol gynnydd yn nifer yr unedau tu allan i'r cyfnod 5 mlynedd nesaf, Rhiw Finegr, Gwndy a Heol Crug, Porthysgewin. Fodd bynnag, mae'r anheddau a gwblhawyd yn Fairfield Mabey wedi dod rhagddynt yn y trywydd. Felly mae 263 uned sy'n syrthio tu allan i'r 5 mlynedd nesaf (h.y. 2020-2025) yn nhrywydd tai 2020.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn er mwyn penderfynu os yw dyraniadau preswyl strategol y Cynllun yn cael eu cyflawni yn unol â thargedau'r trywydd tai. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Rhoddwyd caniatâd i'r safle cyn cyfnod monitro'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn.

**Trywydd 2018-19 gan fod y rhagolwg am y nifer a gwblhawyd ar gyfer cyfnod 2019-20 h.y. cyfnod monitro presennol.

## Tai Fforddiadwy

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Darparu 960 o unedau annedd fforddiadwy dros gyfnod y cynllun |
| **Polisi Strategol:** | S4 Tai Fforddiadwy |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogwyd:** | 1, 3 & 4 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogwyd:** | H7, SAH1-SAH11 |

**Newidiadau Cyd-destun**

**Prisiau Tai**

Cafodd yr amrywiadau a gofnodwyd ym mhrisiau tai cyfartalog y Sir ers 2012 eu nodi yn Adran 3 – Gwybodaeth am y Cyd-destun. Caiff y goblygiadau posibl o dueddiadau prisiau tai cyfartalog a gofnodwyd dros y cyfnod monitro eu hasesu yng nghyswllt dangosydd 5 islaw.

| Dangosydd | Targed *(Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol **a adeiladwyd** dros gyfnod y cynllun*[1] | Cyflenwi 96 annedd fforddiadwy bob blwyddyn 2011-2021 (cyfanswm o 960 dros gyfnod y cynllun) *(2014-15: 17)* *(2015-16: 63)* *(2016-17: 47)* *(2017-18: 84)* *(2018-19:131)* | 10% yn llai neu fwy na chyfradd adeiladu strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol am 2 flynedd olynol | **82** |
| 2. Nifer yr anheddau fforddiadwy a **sicrhawyd** ar safleoedd tai newydd | a) 35% o gyfanswm nifer yr anheddau i fod yn fforddiadwy ar safleoedd o 5 annedd neu fwy yn y Prif Drefi a'r Aneddiadau Gwledig Eilaidd a ddynodir ym Mholisi S1 *(2014-15: 35%)* *(2015-16: 34%)* *(2016-17: 43%)* (2017-18: 16.5%) (2018-19: 32%) | Cyfran tai fforddiadwy a sicrhawyd ar safleoedd datblygu ym mhob ardal yn disgyn yn is na'r gofyniad a nodir ym Mholisi S4 | **100%** |
| | b) 25% o gyfanswm nifer yr anheddau i fod yn | | **32%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ffforddiadwy ar safleoedd o 5 annedd neu fwy yn Aneddiadau Glannau Hafren a ddynodwyd ym Mholisi S1.<br>*(2014-15: 100%)*<br>*(2015-16: N/A)*<br>*(2016-17: 9.7%)*<br>(2017-18:31.7%)<br>(2018-19: 26%) ** | | |
| | c) 60% o gyfanswm nifer yr anheddau i fod yn fforddiadwy ar safleoedd o 3 annedd neu fwy yn y Prif Bentrefi a ddynodwyd ym Mholisi S1<br>*(2014-15: 0%)*<br>*(2015-16: 60%)*<br>*(2016-17: 60%/20%*** )*<br>*(2017-18: 62.5%)*<br>*(2018-19: 60.0%)* | | **67.5%** |
| | d) Mân bentrefi: safleoedd gyda chapasiti ar gyfer 4 annedd yn darparu i 3 fod yn fforddiadwy, a safleoedd gyda chapasiti ar gyfer 3 annedd yn darparu i 2 fod yn fforddiadwy<br>*(2014-15: N/A)*<br>*(2015-16: N/A)*<br>*(2016-17: N/A)*<br>*(2017-18: N/A)*<br>*(2018-19: N/A)* | | **N/A**<br>**(Dim ceisiadau perthnasol)** |
| 3. Nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiatawyd/ adeiladwyd ar Safleoedd Prif Bentrefi a ddynodwyd ym Mholisi SAH11 | Safleoedd Prif Bentrefi ar y cyd i gyflenwi 20 annedd fforddiadwy bob blwyddyn 2014-2021<br>*(2014-15: 0)*<br>*(2015-16: 9 wedi eu caniatau)* | 10% yn llai neu'n fwy na'r gyfradd adeiladu darged am 2 flynedd yn olynol | **2019-20: 9 wedi eu caniatau/0 wedi eu hadeiladu** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2016-17: 9 wedi eu caniatau/9 wedi eu hadeiladu*<br>*(2017-18: 5 wedi eu caniatáu/0 wedi eu hadeiladu)*<br>*(2018-19: 12 wedi eu caniatáu/3 wedi eu hadeiladu)* | | |
| 4. Nifer anheddau fforddiadwy a **adeiladwyd** drwy gynlluniau eithriad gwledig | Dim targed<br>*(2014-15: 0)*<br>*(2015-16: 0)*<br>*(2016-17: 0)*<br>*(2017-18: 0 wedi eu hadeiladu/3 wedi eu caniatáu)*<br>*2018-19: 4 (1 wedi ei ganiatau)* | Dim | **4 wedi eu hadeiladu/0 wedi cael caniatâd** |
| 5. Targed canran tai fforddiadwy ym Mholisi S4 | Targed i adlewyrchu amgylchiadau economaidd | Prisiau tai cyfartalog wedi cynyddu gan 5% uwchben pris sylfaen lefelau 20212 wedi'i gynnal dros 2 chwarter | **Gweler y dadansoddiad islaw (5)** |

**Dadansoddiad**

1. Cafodd cyfanswm o 82 annedd fforddiadwy eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro yn cyfrif am 23% o gyfanswm nifer yr anheddau a gwblhawyd a gofnodwyd. Roedd safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn 77% ohonynt gyda'r 23% arall ar hapsafleoedd. Mae'r safle a ddyrannwyd yn Fferm Deri, y Fenni (SAH1) yn cyfrif am 30 o'r 82 o anheddau fforddiadwy y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau, yn cynrychioli 37%. Cyfrannodd pedwar dyraniad pellach at y cyflenwad o dai fforddiadwy:

- Coed Glas, Y Fenni (SAH9) – 5 cartref fforddiadwy wedi eu cwblhau yn 2019/20
- Heol Wonastow, Trefynwy (SAH4) – 15 cartref fforddiadwy wedi eu cwblhau yn 2019/20
- Melin Bapur Sudbrook ( SAH7) – 6 cartref fforddiadwy wedi eu cwblhau yn 2019/20
- Fferm Rockfield, Gwndy (SAH5) – 7 cartref fforddiadwy wedi eu cwblhau yn 2019/20

Yn ychwanegol at yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd, roedd pedwar hapsafle wedi cyfrannu 19 cartref fforddiadwy yn cyfrif am 23% o'r cyfanswm. Roedd pob un o'r pedwar hapsafle yn 100% o safleoedd tai fforddiadwy wedi eu lleoli yn:

- Heol Croesonnen, Y Fenni – 4 uned fforddiadwy wedi eu cwblhau yn 2019/20
- Garden City Way, Cas-gwent – 7 uned fforddiadwy wedi eu cwblhau yn 2019/20
- Heol Elm, Cil-y-coed – 4 uned fforddiadwy wedi eu cwblhau yn 2019/20
- Llandeilo Gresynni – 4 uned fforddiadwy wedi eu cwblhau yn 2019/20

Mae'r cyfanswm o 82 uned yn is na'r 131 o anheddau fforddiadwy a gwblhawyd a gofnodwyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol y flwyddyn ddiwethaf. Y mae, fodd bynnag, yn debyg i'r 84 a gyflenwyd yng nghyfnod monitro 2017/18. Mae'r gyfradd cyflenwi wedi amrywio dros gyfnodau monitro blaenorol yn amrywio o 17 yn 2014/15, 63 yn 2015/16 a 47 yn 2016/17 ond mae, fodd bynnag, wedi cadw cyfradd gyson uwch ar gyfer y gorffennol mewn blynyddoedd diweddar gan ddangos cyflenwi dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol, a ategwyd gan nifer o 100% o safleoedd tai fforddiadwy.

Er fod nifer yr anheddau fforddiadwy a gwblhawyd yn is na'r targed a ddynodwyd (96 y flwyddyn) yn y cyfnod monitro diweddaraf, nid yw wedi digwydd am ddwy flynedd olynol ac nid yw felly wedi sbarduno'r angen am ymchwiliad pellach.

Mae cyfanswm nifer yr anheddau fforddiadwy a gwblhawyd a gofnodwyd dros chwe blynedd mabwysiadu'r Cynllun (424) yn parhau'n is na'r cyflenwad gofynnol. Yn seiliedig ar darged y Cynllun , dylid bod wedi cwblhau cyfanswm o 576 annedd fforddiadwy sydd, gan ystyried y nifer a gwblhawyd mewn gwirionedd, yn rhoi bwlch o 152 uned rhwng 2014-2020. Mae cyfradd cwblhau'r llynedd o 131 uned wedi gostwng ychydig ar y bwlch ond mae cyfradd eleni o 82 annedd a gwblhawyd wedi cynyddu'r bwlch hwn ymhellach.

Mae cynnydd araf ar weithredu nifer o safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol, fel yr ystyrir uchod yng nghyswllt Polisïau S2 ac S3, wedi arwain at ddarpariaeth gyfyngedig o dai marchnad a fforddiadwy ar ddechrau cyfnod y Cynllun. Gan fod safleoedd a ddyrannwyd, yn cynnwys prif safleoedd pentref, wedi cael caniatâd, mae nifer yr anheddau fforddiadwy a gwblhawyd wedi cynyddu yn unol â'r targed. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol hyd yma yn dangos nad yw Polisi S4 ei hun yn gweithredu'n effeithlon, er y gall oedi fod wedi bod wrth benderfynu rhai ceisiadau cynllunio safle strategol, yn arbennig Fferm Deri (sydd bellach wedi ei ddatrys a datblygu wedi dechrau ar y safle), oherwydd trafodaethau am faterion hyfywedd yn deillio o ofynion Polisi S4. Mae'r materion hyfywedd yma eu hunain yn cael effaith uniongyrchol ar lefelau tai fforddiadwy a sicrhawyd, serch hynny cynhelir asesiadau trylwyr i sicrhau y ceir y cyfraniad mwyaf posibl.

Nid oes angen unrhyw weithredu penodol yng nghyswllt Polisi S4, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cyfraddau anheddau a gwblhawyd yn agos yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar ei effeithlonrwydd i gyflenwi anheddau fforddiadwy.

**2. Prif Drefi ac Aneddiadau Eilaidd Gwledig**

Mae'r gyfran o anheddau fforddiadwy a ganiatawyd ar safleoedd o 5 neu fwy o gartrefi ym mhrif drefi ac aneddiadau gwledig eilaidd y Sir yn ystod y cyfnod monitro yn gyfwerth â 100% sy'n sylweddol uwch na tharged y Cynllun Datblygu Lleol o 35%.

Mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar gyfanswm o 2 cais, y ddau ym mhrif dref Cas-gwent. Cyflwynwyd y ddau gais gan Gymdeithas Tai Sir Fynwy ac maent yn cynnwys dymchwel garejys ac ailddatblygu'r safleoedd ar gyfer cynlluniau 100% tai fforddiadwy. Mae'r ddau safle yn hapsafleoedd o fewn ffin yr anheddiad. Roedd gweddill y ceisiadau cynllunio a gafodd ganiatâd a gofnodwyd yn y prif drefi ac aneddiadau eilaidd gwledig ar gyfer safleoedd gyda chapasiti o lai na 5 cartref ac felly'n is nai'r trothwy o 35% a nodir ym Mholisi S4.

Rhagorwyd ar y targed polisi o 35% eleni ar 100%, er y cydnabyddir fod hyn yn seiliedig ar ddim ond dau gais. Serch hynny, bydd y cynlluniau yn gwneud cyfraniad pwysig i dai fforddiadwy yng Nghas-gwent.

Gwnaed cynnydd ar ddatblygiadau amlwg eraill yn y trothwy tai fforddiadwy hwn, ond fel ceisiadau materion a gadwyd. Cafodd dau gais materion a gadwyd eu cymeradwyo yn y prif drefi ac aneddiadau eilaidd gwledig yn ystod y cyfnod monitro yn Fferm Grove, Llan-ffwyst a Phont Mabey, Cas-gwent Cafodd y safleoedd hyn ganiatâd amlinellol yn ystod y cyfnodau monitro cynharach ac felly ni chânt eu cyfrif tuag at y ffigurau ar gyfer y cyfnod monitro presennol. Roedd y cynlluniau yn cydymffurfio gyda tharged polisi'r Cynllun Datblygu Lleol (h.y. 35%****) ac unwaith y cânt eu hadeiladu byddant yn cyfrannu'n sylweddol at ddarpariaeth tai fforddiadwy yn y prif drefi ac aneddiadau eilaidd gwledig. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn agos er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y targed tai fforddiadwy a ddynodwyd ym Mholisi S4 yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol.

**Aneddiadau Glannau Hafren**
Caniatawyd tri chais yng Nglannau Hafren ar gyfer 5 neu fwy o anheddau dros y cyfnod monitro. Mae'r cynllun mwyaf yn cyfeirio at ganiatâd amlinellol ar dir i'r dwyrain o Heol yr Eglwys, Cil-y-coed a gafodd ei benderfynu dan bolisi 'safleoedd heb eu dyrannu' y Cyngor a sefydlwyd i fynd i'r afael â phrinder cyflenwad tir tai yn y Sir. Yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy a'i gyngor ar safleoedd amrywiad, gosodwyd gofyniad o 35% ar y safle, a gytunwyd. Roedd y caniatâd amlinellol (DM/2018/00880) yn cymeradwyo 130 annedd, gyda 46 ohonynt yn fforddiadwy. Cafodd y cais materion a gadwyd hefyd ei benderfynu yn ystod y cyfnod monitro hwn a chymeradwyo'r un rhifau.

Roedd yr ail safle ar gyfer 12 uned yn Ifton Manor, Rogiet. Mae dwy o'r 12 uned yn fforddiadwy, cyfradd o 17% fforddiadwy ar y cynllun. Cytunwyd hyn ar seiliau hyfywedd. Roedd y trydydd cynllun yn cynnwys newid defnydd swyddfeydd i chwe fflat. Roedd yr asesiad o'r cynnig yn ei hystyried yn annhebygol y byddai landlord cymdeithasol cofrestredig eisiau un fflat mewn bloc o fflatiau preifat. Gofynnwyd am gyfraniad ariannol dechreuol o £42,753, ond gostyngwyd hyn i £5,000 ar sail hyfywedd. Sicrhawyd cyfradd gyffredinol o 32% ar draws ardal Glannau Hafren, er y nodir fod hyn oherwydd y sicrhawyd y gofyniad uwch o 35% ar y safle amrywiad.

Cafodd cais materion a gadwyd amlwg pellach hefyd ei gymeradwyo yn Safle Tai Strategol SAH2 – Heol Crug, Porthysgewin lle parhawyd i gyflawni'r gofyniad o 25% o dai fforddiadwy. Cafodd y safle ganiatâd amlinellol yn ystod cyfnod monitro cynharach felly ni chafodd ei gyfrif tuag at y ffigurau ar gyfer y cyfnod hwn.

Roedd gweddill yr achosion caniatâd cynllunio a gofnodwyd yn aneddiadau Glannau Hafren ar gyfer safleoedd gyda chapasiti o lai na 5 annedd ac, felly, yn is na'r trothwy tai fforddiadwy a nodir ym Mholisi S4. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro safleoedd o'r fath dros y cyfnod monitro nesaf er mwyn asesu gweithredu'r targedau tai fforddiadwy a ddynodwyd ym Mholisi S4.

**Prif Bentrefi**
Cafodd dau gais eu caniatáu yn ystod y cyfnod monitro o fewn Prif Bentrefi ar gyfer safleoedd o 3 neu fwy o anheddau. Roedd hyn yn gysylltiedig â dyraniadau yn y Cynllun Datblygu Lleol, SAH11(ii)

| |
|---|
| – Tir yn Well Lane, Devauden a SAH11(i)(b) – Tir ger Garej Cross Ash, Cross Ash. Roedd safle Devauden ar gyfer cyfanswm o 15 uned a chyflawnodd y gyfradd ofynnol o 60% fforddiadwy gyda 6 uned fforddiadwy. Mae safle Cross Ash yn cynnig cyfanswm o 6 uned i gyd yn cynnwys tir ychwanegol y tu allan i'r dyraniad, ond o fewn ffin yr anheddiad. Sicrhawyd cyfradd o 75% o'r dyraniad gan fod tair o'r pedair annedd ar y rhan hon o'r cynllun yn fforddiadwy. Yn unol â Pholisi S4 mae angen cyfraniad ariannol ychwanegol ar gyfer y ddwy annedd marchnad agored a gynigiwyd ar ddarn o dir tu allan i'r dyraniad, ond o fewn ffin datblygu y pentref. Fodd bynnag, ar ôl trafodaethau ar y cais gyda swyddogion cynllunio yn gysylltiedig â hyfywedd economaidd, cytunwyd y gellid ildio hyn oherwydd bod y safle hwn yn ddyraniad tir llwyd ac y byddai anheddau marchnad ychwanegol yn helpu gyda chostau adfer tir i ddatblygu'r safle cyffredinol. Drwyddi draw, ystyrir fod y safle hwn wedi diwallu gofynion y polisi tai fforddiadwy.<br><br>Cafodd cyfradd canran cyffredinol o 67.5% ei gytuno ar safleoedd dyraniad SAH11, yn fwy na'r targed o 60%. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro safleoedd Prif Bentrefi er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y targed tai fforddiadwy a ddynodwyd ym Mholisi S4.<br><br>**Mân Bentrefi**<br>Ni roddwyd unrhyw ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer safleoedd bach mewn Mân Bentrefi. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro safleoedd Mân Bentrefi er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y targed tai fforddiadwy a ddynodwyd ym Mholisi S4. |
| 3. Cafodd dau gais eu caniatáu dros y cyfnod monitro ar y safleoedd a ddyrannwyd a ddynodir ym Mholisi SAH11, fel y cyfeirir ato uchod. Rhoddir sylwebaeth lawn ar y ceisiadau uchod, ond gyda'i gilydd rhoddodd y ddau safle 9 uned fforddiadwy ar safleoedd SAH11 Prif Bentrefi.<br><br>Er y bu peth cynnydd gyda dyraniadau Prif Bentrefi yn cael caniatâd cynllunio, ni chyflawnwyd y targed i'r safleoedd hyn gyflwyno 20 annedd fforddiadwy y flwyddyn rhyngddynt. Mae'r safleoedd wedi cyflenwi 12 cartref fforddiadwy ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n sylweddol brin o darged y Cynllun o 20 uned fforddiadwy y flwyddyn. Caiff y rhesymau am y diffyg cynnydd ar safleoedd Prif Bentrefi ei ymchwilio ymhellach fel rhan o'r broses, yn cynnwys er enghraifft ddisgwyliadau afrealistig gan berchnogion tir am werthoedd tir. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i ddad-ddyrannu'r safleoedd hyn nad ydynt yn mynd rhagddynt fel y bwriadwyd. |
| 4. **Anheddau Eithriadau Gwledig a Gwblhawyd.**<br>Cafodd pedair annedd eu cwblhau yn ymwneud â chynllun eithriad gwledig dros y cyfnod monitro. Darparwyd y cartrefi ar safle eithriad gwledig yn Llandeilo Gresynni. Mae'r safle yn safle 100% tai fforddiadwy, a gyflenwyd gan Gymdeithas Sir Fynwy.<br><br>Ni chaniatawyd unrhyw gynlluniau eithriad gwledig dros y cyfnod monitro hwn. Er na osodwyd targed yng nghyswllt nifer yr anheddau a gwblhawyd ar gyfer cynlluniau eithriad gwledig bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig gyda chynlluniau eithriad gwledig. |
| 5. Mae'r sbardun ar gyfer cynnal profion hyfywedd ychwanegol yng nghyswllt y targedau tai fforddiadwy a osodir ym Mholisi S4 yn gynnydd o 5% neu fwy mewn prisiau tai cyfartalog uwchben pris sylfaen 2021 wedi'i gynnal dros 2 chwarter. |

Fel y nodir yn Adran 3, mae data'r Gofrestrfa Tir yn dangos fod prisiau tai cyfartalog yn Sir Fynwy wedi cynyddu dros gyfnod y monitro presennol gyda phrisiau cyfartalog yn chwarter 1 2020 (mis Ionawr i fis Mawrth) yn sefyll ar £279,532, yn sylweddol uwch na phris sylfaen chwarter 4 2012 (£188,720). Er hyn, ni chafodd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach ei gyrraedd. Byddai cynnydd o 5% yn ffigur pris sylfaen chwarter 4 2012 yn gyfwerth â chynnydd o £9,436 ac er bod prisiau tai cyfartalog wedi cynyddu dros gyfnod monitro 2019-20, nid yw prisiau wedi cynyddu gan y swm hwn yn barhaus dros 2 chwarter. Y cynnydd mwyaf a gofnodwyd dros y cyfnod monitro oedd £5,775 rhwng chwarter 4 2019 a chwarter 1 2020. Yn unol â hynny, fel gydag Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol, nid yw'r newid mewn prisiau tai cyfartalog yn golygu fod angen ailasesu'r dystiolaeth hyfywedd yng nghyswllt Polisi S4 a'i ddangosydd monitro, er ei fod yn hysbys iawn fod prisiau tai cyfartalog uchel yn y Sir yn un o'r prif faterion a ddynodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro tueddiadau prisiau tai cyfartalog mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol er mwyn penderfynu ar unrhyw oblygiadau posibl ar gyfer gweithredu polisi S4 yn effeithlon.

Dylid hefyd gydnabod, fodd bynnag mai dim ond un ffactor a allai effeithio ar hyfywedd datblygiad yw prisiau tai. Byddai costau adeiladu, er enghraifft, hefyd wedi codi dros y cyfnod monitro. Er na chaiff costau adeiladu eu manylu fel dangosydd monitro y Cynllun Datblygu Lleol newydd, caiff materion cyffredinol hyfywedd eu hadolygu fel y daw gwybodaeth ymlaen ar sail achos unigol ac mewn cysylltiad gydag unrhyw waith hyfywedd strategol yng nghyswllt proses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i ystyried unrhyw oblygiadau posibl pellach ar gyfer gweithredu Polisi S4 yn effeithlon.

| **Argymhelliad** |
|---|
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Ystyried cynnydd safleoedd Prif Bentrefi fel rhan o'r broses Cynllun Datblygu Lleol newydd. |
| 4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Dangosyddion Craidd

[1] Dangosydd a Tharged yn seiliedig ar ardal cynllunio Sir Fynwy a Chynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy yn unig.

** Cofnodwyd hyn yn flaenorol fel 100% - roedd hyn yn gamgymeriad yn dangos fod pob safle a gymeradwywyd y llynedd wedi cyrraedd y targed o 25% a chafodd felly ei gofnodi fel cyfradd lwyddiant o 100%. Fodd bynnag, mae'r dangosydd yn monitro'r canran o dai fforddiadwy a gymeradwywyd. Cafodd pedwar safle eu cymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro diwethaf ar gyfer ardal Glannau Hafren. Cymeradwywyd cyfanswm o 312 uned, gyda 82 ohonynt yn fforddiadwy, yn gyfwerth â 26%. Cafodd y tabl ei ddiweddaru yn unol â hynny.

***Cyflawnwyd 60% ar safleoedd Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r 20% yn cyfeirio at gais Materion a Gadwyd a gymeradwywyd yn dilyn cais amlinellol a wnaed cyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.

****Cymeradwyodd cais amlinellol Pont Mabey (2014/01290) 1.5ha o dir i gael ei ddefnyddio ar gyfer cyflenwi tai fforddiadwy ar y datblygiad. Ni chafodd y Materion a Gadwyd ar gyfer yr elfen hon o'r safle ei gyflwyno eto.

## Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Cadw cyfleusterau cymunedol a hamdden presennol a cheisio datblygu cyfleusterau ychwanegol |
| **Polisi Strategol:** | S5 Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1 & 5 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | CRF1, CRF3 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn cyd-destun yn gysylltiedig â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer cyfleusterau cymunedol a hamdden a gafodd ganiatâd cynllunio | Dim targed* *(2014-15: 9)* *(2015-16: 5)* *(2016-17: 4)* *(2017-18: 10)* *(2018-9: 8)* | Dim* | 12 |
| 2. Nifer cyfleusterau cymunedol/hamdden a gollwyd | Lleihau colled cyfleusterau cymunedol a hamdden *(2014-15: 3)* *(2015-16: 0)* *(2016-17: 6)* *(2017-18: 2)* *(2018-19:2)* | Colli unrhyw 1 cyfleuster cymunedol/ Hamdden mewn unrhyw 1 flwyddyn | **4** |
| **Dadansoddiad** | | | |
| 1. Cafodd deuddeg cais cynllunio eu cymeradwyo ar gyfer defnyddiau cymunedol a hamdden yn ystod y cyfnod monitro presennol. Mae pump o'r deuddeg cais yn ymwneud â defnydd hamdden â defnydd cymunedol.<br><br>O'r pump o geisiadau ar gyfer defnydd hamdden, roedd y budd mwyaf yng nghyswllt y cynnig am barc cymunedol 4ha a choetir mewn cysylltiad gyda'r safle preswyl heb ei ddyrannu yn Heol yr Eglwys, Cil-y-coed. Roedd defnyddiau hamdden eraill a gymeradwywyd yn cynnwys traciau, llwybrau a champfa awyr agored yng nghanolfan hamdden Porthysgewin a Sudbrook, newid defnydd coetir i hamdden saethyddiaeth yn | | | |

| |
|---|
| Llandeilo Bertholau; adleoli ardal chwarae plant yn Chippenham Mead, Trefynwy; a Phafiliwn Glanyrafon (cynllun diwygiedig ym maes parcio Castell Cas-gwent).<br><br>Yng nghyswllt y saith cyfleuster cymunedol a gymeradwywyd, roedd sawl cais yn ymwneud â newid defnyddiau yn cynnwys: newid defnydd rhan o Hen Neuadd y Farchnad, Trefynwy, nad oedd yn cael ei defnyddio, i gyfleuster ar gyfer rhai sy'n cysgu ar y stryd; creu canolfan ddydd (ar gyfer anableddau dysgu) yn Hen Ysgol y Bwrdd, Cas-gwent; newid defnydd o safle Gwely a Brecwast yn Nhŷ Northgate, Caerwent i feithrinfa ddydd breifat; a newid defnydd llawr cyntaf 57 Stryd y Bont, Brynbuga (Banc Natwest gynt) i feithrinfa ddydd.<br><br>Mae gweddill y ceisiadau am gyfleusterau cymunedol yn ychwanegiadau i ddefnyddiau cymunedol presennol sy'n cynnwys: unedau dros dro yn Ysgol Gymraeg y Fenni ac Ysgol Gynradd Dell; ac unedau dros dro yng ngorsaf dân y Fenni ar gyfer defnydd yr Heddlu.<br><br>Drwyddi draw, ystyrir fod nifer y cyfleusterau cymunedol a gymeradwywyd yn fras debyg i flynyddoedd blaenorol sy'n amrywio o 4 yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2015-16 i 10 yn Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol 2017-18. |
| 2. Collwyd pedwar cyfleuster cymunedol dros y cyfnod monitro. Roedd y cyntaf yn ymwneud â cholli hen ysgol gynradd Llan-ffwyst i ddefnydd preswyl. Ychydig o debygrwydd oedd y byddai'r adeilad yn cael ei ailddefnyddio fel ysgol (adeiladwyd ysgol 21ain Ganrif newydd o fewn yr anheddiad) ac felly ystyriwyd nad oedd newid defnydd i breswyl yn gwrthdaro ag amcanion Polisi CRF1.<br><br>Roedd y cyfleusterau cymunedol eraill a gollwyd yn gysylltiedig â newid defnydd dwy feithrinfa: un ym Meithrinfa Glanyrafon, Cas-gwent i ddefnydd preswyl; ac 1 Stryd y Bont, Brynbuga i ddistyllfa jin (B2) ac ardal siop flasu (A1). Fodd bynnag, nodir yn yr adran uchod y cafodd dau gyfleuster meithrin eu hennill yn ystod y cyfnod monitro<br><br>Y gofod cymunedol olaf a gollwyd oedd rhan fach o Hyb Cymunedol Brynbuga i ganiatáu ymestyn Swyddfa'r Post (A1) a gafodd ei lleoli o fewn adeilad yr Hyb mewn blynyddoedd diweddar.<br><br>Ystyrir bod egwyddor colli'r defnyddiau cymunedol hyn yn dderbyniol yng nghyswllt Polisïau S5 a CRF1.<br><br>Er bod y data a gasglwyd yn dangos y cafodd nifer o gyfleusterau cymunedol eu colli i ddefnyddiau eraill yn ystod y cyfnod monitro ac yn ddilynol y cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn, mae cyfiawnhad dros eu colli o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi'r Cynllun Datblygu Lleol. Fel canlyniad, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynigion o'r fath mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn. |

| Argymhelliad |
|---|
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Ni ystyrir ei bod yn addas gynnwys targed/sbardun ar gyfer y dangosydd hwn gan fod y Cyngor mewn rhai achosion yn dymuno gostwng nifer y cyfleusterau cymunedol neu i ganolbwyntio buddsoddiad ar gyfleusterau presennol.

## Manwerthu

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Cyfeirio datblygiad manwerthu newydd bwyd a nwyddau heb fod yn swmpus i ganol trefi a chanolfannau lleol y Sir a cheisio cynyddu eu bywiogrwydd a'u gwneud yn fwy deniadol a hyfyw. |
| **Polisi Strategol:** | S6 Manwerthu |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogwyd:** | 1 & 2 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogwyd:** | RET1-RET4 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn cyd-destun yn gysylltiedig â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| 1. Faint o ddatblygiad manwerthu bwyd a heb fod yn swmpus newydd a ganiateir mewn canol trefi/canolfannau lleol fel cyfran o'r holl ddatblygiadau manwerthu a ganiateir | 90% o ofod llawr manwerthu newydd bwyd a heb fod yn swmpus i'w leoli mewn canol trefi/canolfannau lleol<br>*(2014-15: 0%)*<br>*(2015-16: 53.2%)*<br>(2016-17: 33%)<br>(2017-18 – 35.7%)<br>(2018-19 – 0%) | Mwy na 10% o ofod llawr manwerthu bwyd a heb fod yn swmpus newydd yn cael ei ddatblygu tu allan i ganol trefi/canolfannau lleol mewn unrhyw un flwyddyn. | **70.5% datblygiadau manwerthu wedi eu caniatáu mewn canol trefi/canolfannau lleol.**<br><br>**86 m sg wedi ei ganiatáu tu mewn i ganol trefi/canolfannau lleol tu allan i ganol trefi/canolfannau lleol.*** |
| 2. Canran o unedau gwag o fewn ardaloedd siopa canolog pob canol tref a chanolfan leol** | Dim cynnydd yn nifer yr unedau gwag: | Cyfradd unedau gwag mewn canol tref/canolfan leol yn cynyddu am 2 flwyddyn yn olynol | |
| | **a) Y Fenni**<br>*(2014: 5.1%)*<br>*(2015: 5.8%)* | | **6.6%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2016: 8.7%)*<br>*(2017: 6.3%)*<br>*(2018: 4.7%)* | | |
| | **b) Cil-y-coed**<br>*(2014: 9.2%)*<br>*(2015: 7.6%)*<br>*(2016: 10.1%)*<br>*(2017: 8.8%)*<br>*(2018: 10.6%)* | | **7.6%** |
| | **c) Cas-gwent**<br>*(2014: 9.0%)*<br>*(2015: 10%)*<br>*(2016: 7.1%)*<br>*(2017: 5.9%)*<br>*(2018: 11.8%)* | | **11.2%** |
| | **d) Trefynwy**<br>*(2014: 8.3%)*<br>*(2015: 7.9%)*<br>*(2016: 4.9%)*<br>*(2017: 10.1%)*<br>*(2018: 10.1%)* | | **14.4%** |
| | **e) Magwyr**<br>*(2014: 9.1%)*<br>*(2015: 0%)*<br>*(2016; 0%)*<br>*(2017: 9.1%)*<br>*(2018: 4.5%)* | | **13.6%** |
| | **f) Rhaglan**<br>*(2014: 0%)*<br>*(2015: 0%)*<br>*(2016: 0%)*<br>*(2017: 0%)*<br>*(2018: 9%)* | | **9%** |
| | **g) Brynbuga**<br>*(2014: 7.8%)*<br>*(2015: 11.1%)*<br>*(2016: 13.1%)*<br>*(2017: 9.7%)*<br>*(2018: 15.8%)* | | **15.3%** |
| 3. Canran defnyddiau A1 ym mhrif ffryntiadau siopa'r Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy*** | % o ddefnyddiau A yn ddim llai na'r trothwyon a ddynodwyd ar gyfer prif ffryntiadau siopa a ddiffiniwyd yng Nghanllawiau | % ffigurau ar gyfer prif ffryntiad siopa yn is na'r trothwy a osodwyd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynllunio Atodol Prif Fftryntiadau Siopa** | | |
| | **a) Y Fenni**<br>• PSF1 Stryd Groes, Stryd Fawr, Stryd Frogmore a 1 Stryd Nevill ***(Targed 75%)*** *(2014: 76%)* *(2015: 77%)* *(2016:76%)* *(2017: 75%)* *(2018: 75%)* | | • **74%** |
| | • PSF2 Rhodfa Cibi ***(Targed 100%)*** *(2014: 100%)* *(2015: 100%)* *(2016: 100%)* *(2017: 100%)* *(2018: 94%)* | | • **100%** |
| | • PSF3 Stryd Groes (51-60 a Neuadd y Dref) ***(Targed 55%)*** *(2014: 36%)* *(2015: 36%)* *(2016:36%)* *(2017: 36%)* *(2018: 36%)* | | • **36%** |
| | **b) Cil-y-coed**<br>• PSF4 Heol Casnewydd ***(Targed 65%)*** *(2014: 65%)* *(2015: 65%)* *(2016: 65%)* *(2017: 65%)* *(2018: 63%)* | | • **63%** |
| | • **Cas-gwent** PSF5 Stryd Fawr ***(Targed 75%)*** *(2014: 80%)* *(2015: 80%)* *(2016: 80%)* *(2017: 80%)* *(2018: 76%)* | | • **80%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • PSF6 Heol Santes Fair ***(Targed 65%)*** *(2014: 65%)* *(2015: 65%)* *(2016: 65%)* *(2017: 69%)* *(2018: 69%)* | | • **73%** |
| | **c) Trefynwy** • PSF7 Stryd Mynwy ***(Targed 75%)*** *(2014: 77%)* *(2015: 76%)* *(2016:72%)* *(2017: 74%)* *(2018:73%)* | | • **73%** |
| | • PSF8 Stryd yr Eglwys, Stryd Agincourt a Stryd Priordy (1-4 ***(Targed 65%)*** *(2014: 57%)* *(2015: 57%)* *(2016:62%)* *(2017: 65%)* *(2018: 67%)* | | • **67%** |

**Dadansoddiad**

1. Caniatawyd pedwar cais ar gyfer datblygiad manwerthu dros y cyfnod tri monitro, tri ohonynt ar gyfer defnydd manwerthu A1 mewn canol trefi (un yn Nhrefynwy ar gyfer newid defnydd llawr uchaf i ddarparu gofod llawr A1 ychwanegol [50 m sg], un yng Nghas-gwent ar gyfer newid defnydd o feithrinfa ddydd (D1) i ddefnydd B2/A1 cymysg [23 m sg]). Roedd y caniatâd arall ar gyfer lleoliad tu allan i'r canol, yng Ngwasanaethau Traffordd Magwyr [36 m sg].

Felly, cafodd 70.5% o'r holl ofod llawr manwerthu newydd ei ganiatáu mewn canol trefi/canolfannau lleol a 29.5% tu allan i ganol trefi, gan olygu y cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn.

Mae'r caniatâd tu allan i'r canol (DM/2018/01818) yn cyfeirio at giosg gyrru trwodd yng Ngwasanaethau Traffordd Magwyr. Mae safle'r ciosg o fewn y gwasanaethau traffordd presennol, lle mae cyfleusterau manwerthu ar gael. Ni chredir y bydd hyn yn cystadlu am gwsmeriaid yng nghanolfan siopa Magwyr gan mai'r cwsmeriaid fydd pobl sy'n teithio ar y drafford. Gan fod caffe eisoes yn bodoli ar y safle, bydd y cyfleuster gyrru trwodd yn cynnig dewis i'r rhai sydd eisoes yn ymweld â'r gwasanaethau. Oherwydd ei leoliad o fewn gorsaf bresennol gwasanaethau traffordd, ni fydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar

| |
|---|
| fasnach/trosiant, bywiogrwydd na hyfywedd ardal siopa ganolog Magwyr ac felly ni chredir fod y cynnig yn groes i amcanion Polisi RET4 y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>Ystyrir fod y datblygiad allan-o'r dref hwn yn addas o gofio am amgylchiadau'r cais a bod cyfiawnhad drosto o fewn cyd-destun fframwaith polisi cynllunio manwerthu y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>Ymhellach, mae'r ffaith y bu tri chaniatâd am ddefnydd manwerthu A1 o fewn 3 o ganol trefi'r Sir yn welliant ar berfformiad y llynedd pan na chofnodwyd unrhyw ganiatâd.<br><br>Oherwydd yr uchod, ni ystyrir fod unrhyw bryderon gyda gweithredu polisïau manwerthu y Cynllun Datblygu Lleol ac felly nad oes angen unrhyw ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg ar y mater mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd fframwaith polisi manwerthu'r Cynllun. |
| 2. Roedd y cyfraddau unedau gwag a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro** ym mhob un o ardaloedd siopa canolog y Sir, ac eithrio Trefynwy, Magwyr a Brynbuga, yn is na chyfradd unedau gwag Stryd Fawr Prydain Fawr (12.1% Rhagfyr 2019, Cwmni Data Lleol). Roedd cyfraddau defnydd manwerthu yng nghanol trefi'r Sir yn amrywio o 6.6% yn y Fenni i 15.3% ym Mrynbuga.<br><br>Dengys cymhariaeth gyda chyfraddau unedau gwag y llynedd y bu gostyngiad mewn cyfraddau gwag mewn 3 canolfan, er bod y cyfraddau yng Nghas-gwent a Brynbuga yn parhau'n uchel gyda Brynbuga yn neilltuol yn dal yn uwch na chyfartaledd Prydain Fawr - Cil-y-coed (10.6% i 7.6%), Cas-gwent (11.8% i 11.2%) a Brynbuga (15.8% i 15.3%). I'r gwrthwyneb, cofnododd 3 canolfan gynnydd mewn cyfraddau unedau gwag ers y cyfnod monitro blaenorol – y Fenni (4.7% i 6.6%), Trefynwy (10.1% i 14.4%), a Magwyr (4.5% i 13.6%). Yn achos Magwyr mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 1 uned wag i 3 uned wag ac oherwydd maint bach y ganolfan, mae hyn yn effeithio'n anghymesur ar lefel yr unedau gwag. Yn y Fenni bu cynnydd mewn cyfanswm cyfraddau unedau gwag mewn prif ffryntiadau a hefyd ffryntiadau eilaidd. Yn Nhrefynwy, fodd bynnag, er bod cyfraddau unedau gwag mewn prif ffryntiadau wedi codi, mae'r cynnydd mwyaf mewn cyfraddau unedau gwag mewn ffryntiadau eilaidd, o 12.3% yn y cyfnod monitro blaenorol i 22.8% yn y cyfnod monitro hwn ac mae hyn wedi effeithio ar gyfradd gyffredinol unedau gwag. Gan mai dyma'r gyfradd unedau gwag uchaf a gofnodwyd dros y 15 mlynedd flaenorol, bydd angen edrych ar hyn yn ofalus yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf.<br><br>Gan nad oes dim o ganolfannau'r Sir wedi gweld cynnydd mewn cyfraddau unedau gwag am 2 flynedd yn olynol, ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach a gan fod 4 o'r 7 canolfan yn is na chyfradd unedau gwag Stryd Fawr Prydain Fawr, mae hyn yn dangos fod canol trefi a chanolfannau lleol Sir Fynwy yn gweithredu'n effeithlon. Fodd bynnag, mae newidiadau diweddar i ardrethi busnes yn achos pryder. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro lefelau unedau gwag mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar dueddiadau. |

| | |
|---|---|
| 3. Roedd y canran o unedau manwerthu A1 o fewn prif ffryntiadau siopa y trefi a gofnodwyd y cyfnod monitro** yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r trothwyon a ddynodwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Prif Ffryntiadau Siopa.<br><br>Cafodd y trothwyon a ddynodwyd mewn dau o'r Ffryntiadau hyn eu gosod ar lefelau uwch na'r lefel bresennol o ddefnyddiau manwerthu heb fod yn A1 ar y pryd gan fod dymuniad i wella eu cynnig manwerthu h.y. Prif Ffryntiad Siopa Stryd Groes (51-60 a Neuadd y Dref) y Fenni a Phrif Ffryntiad Siopa 8 Stryd yr Eglwys, Sgwâr Agincourt a Stryd Priordy (1-4) Trefynwy. Er na fu unrhyw newid yn y gyfran o ddefnyddiau manwerthu o fewn PSF 3 ers dechrau monitro, bu cynnydd yn y gyfran o ddefnyddiau manwerthu A1 o fewn PSF 8 dros y cyfnodau monitro yn y gorffennol, o 57% yn 2015 i 67% yn 2018. Dros y cyfnod monitro presennol mae'r gyfran o ddefnyddiau A1 ar hyd y ffryntiad wedi parhau ar 67%, gan fod yn uwch na'r trothwy a ddynodwyd o fewn y ffryntiad hwn (65%). Er cyflawni'r trothwy a ddynodwyd o fewn PSF 8 mae'n dal yn bwysig cadw safiad polisi cryf ar gynigion ar gyfer newid defnydd i ddefnyddiau heblaw manwerthu yn y ddau ffryntiad hyn er mwyn gwella a diogelu eu cynnig manwerthu.<br><br>Dengys cymhariaeth gyda ffigurau'r llynedd fod y gyfran o ddefnyddiau A1 o fewn prif ffryntiadau siopa y trefi wedi gwella neu aros heb newid ac eithrio'r dilynol:<br>• Cofnododd PSF1 Stryd Groes, Stryd Fawr, Stryd Frogmore a 1 Stryd Nevill, Y Fenni ostyngiad bach, o 75% i 74%. Mae hyn oherwydd newid defnydd un uned o ddefnydd A1 i ddefnydd A3. Roedd yr uned yn flaenorol yn siop ddillad New Look ond caiff yn awr ei defnyddio gan Portico Lounge. Roedd y newid defnydd a gynigid angen cydbwyso'r holl ystyriaethau cynllunio sylweddol perthnasol yn ofalus yn ogystal â pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol. O arwyddocâd neilltuol oedd pwysigrwydd cadw bywiogrwydd y Prif Ffryntiad Siopa dynodedig. Cydnabuwyd y byddai cynnydd bach iawn uwch y trothwy o ddefnyddiau heblaw A1 ac na fu'r safle yn wag am 2 flynedd fel y nodir ym Mholisi RET1. Fodd bynnag, gwnaed ymdrechion gwirioneddol i farchnata'r defnydd presennol am bron flwyddyn a buont yn aflwyddiannus. Gan roi ystyriaeth i bolisïau perthnasol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn ogystal â pholisi cynllunio cenedlaethol PPW10, ystyriwyd y byddai'r defnydd arfaethedig yn cadw ffryntiad prysur yn ystod y dydd ac yn ategu'r amrywiaeth o ddefnyddiau a gwasanaethau o fewn canol tref y Fenni. Ystyriwyd felly fod y newid defnydd yn dderbyniol.<br><br>Drwyddi draw, ystyriwyd bod prif ffryntiadau siopa'r trefi yn hanfodol a hyfyw ac yn gweithredu'n dda ac nad oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd fframwaith polisi manwerthu'r Cynllun. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Rhoddwyd un caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad manwerthu dros y cyfnod monitro mewn lleoliadau allan o'r dref.

**Papur Cefndir Manwerthu Sir Fynwy  (Mawrth 2020). Dyddiad sylfaen Hydref 2019.
***Canllawiau Cynllunio Atodol Prif Ffryntiadau Siopa Sir Fynwy, Ebrill 2016

## Economi a Menter

**Nod/Deilliant Monitro:** Sicrhau cyflenwad digonol o dir cyflogaeth a diogelu tir cyflogaeth y Sir.

**Polisi Strategol:** S8 Menter ac Economi, S9 Darparu Safleoedd Cyflogaeth

**Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogwyd:** 7

**Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogwyd:** E1-E3, RE1, SAE1-SAE2

**Newidiadau Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destun sylweddol yn ymwneud â'r polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Profiad Blaenorol Adroddiad Monitro Blynyddol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| 1. Cyflenwad net/ datblygiad tir cyflogaeth♦ | Cadw digon o dir cyflogaeth i gyrraedd y gyfradd defnydd a ddynodwyd o 1.9 ha y flwyddyn *(2014-15: 46.8ha)* *(2015-16: 41.18ha)* *(2016-17: 40.76ha)* *(2017-18: 40.16ha)* *(2018-19: 40.16ha)* | Dim digon o dir cyflogaeth ar gael i gyrraedd y gyfradd defnydd a ddynodwyd o 1.9ha y flwyddyn | **40.16ha** |
| 2. Defnydd o dir cyflogaeth♦ | Cynnal digon o dir gyflogaeth i gyrraedd y gyfradd defnydd a ddynodwyd o 1.9 ha y flwyddyn *(2014-15: 0.38ha)* *(2015-16: 1.131ha)* *(2016-17: 3.21ha)* *(2017-18: 5.002ha)* *(2018-19: 0.873ha)* | Dim digon o dir cyflogaeth ar gael i gyrraedd y gyfradd defnydd a ddynodwyd o 1.9ha y flwyddyn | **3.74ha** |
| 3. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad (yn ôl math)ar safleoedd cyflogaeth a | Dim targed penodol *(2014-15: 0)* *(2015-16: 3)* *(2016-17: 2)* (2017-18:1) | Diffyg datblygiad ar safleoedd cyflogaeth strategol a ddynodwyd ym | **0 caniatâd cynllunio wedi ei roi** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ddyrannwyd fel y'u dynodir ym Mholisi SAE1♦ | (2018-19: 2) | Mholisi SAE1 erbyn diwedd 2017 | |
| 4. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth (dosbarthiadau defnydd B) yn ôl anheddiad♦♦ | Dim targed penodol | Dim | |
| | **Prif Drefi**<br>*(2014-15: 9.ha)*<br>*(2015-16: 0.95ha)*<br>*(2016-17: 0.52ha)*<br>*(2017-18: 0.784ha)*<br>*(2018-19: 4.37ha)* | | **0.11ha** |
| | **Aneddiadau Glannau Hafren**<br>*(2014-15: 0.39ha)*<br>*(2015-16: 2.83ha)*<br>*(2016-17: 0.17ha)*<br>*(2017-18: 2.124ha)*<br>*2018-19: 0.04ha)* | | **0.92ha** |
| | **Aneddiadau Gwledig Eilaidd**<br>*(2014-15: 0.3ha)*<br>*(2015-16: 0.48ha)*<br>*(2016-17: 0.01ha)*<br>*(2017-18: 0ha)*<br>*(2018-19: 0.005ha)* | | **0.01ha** |
| | **Gwledig Cyffredinol**<br>*(2014-15: 0.25ha)*<br>*(2015-16: 0.22ha)*<br>*(2016-17: 1.14ha)*<br>*(2017-18: 0.575ha)*<br>*2018-19: 0.454ha)* | | **0.096ha** |
| 5. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth (dosbarthiadau defnydd B ♦♦) yn ôl sector* | Dim targed penodol | Dim | |
| | Gweithgynhyrchu | | **0.15ha** |
| | Masnach cyfanwerthu a manwerthu; trwsio cerbydau modur a beiciau modur | | **0.96ha** |
| | Trafnidiaeth a storio; gwybodaeth a chyfathrebu | | **0.01ha** |
| | Gweithgareddau eiddo tiriog; proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, gweinyddol a chymorth busnes | | **0.02ha** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gweithgareddau llety a gwasanaeth bwyd | | **0ha** |
| 6. Faint o dir cyflogaeth a gollwyd i ddefnyddiau heblaw cyflogaeth (h.y. dim B1, B2, B8) | Gostwng colli tir cyflogaeth i ddefnyddiau dim B1, B2, B8<br>*(2014-15: 0.08ha)*<br>*(2015-16: 0.56ha)*<br>*(2016-17: 0.65ha)*<br>*(2017-18:0.12ha)*<br>*(2018-19: 0.105ha)* | Colli unrhyw dir cyflogaeth B1, B2 neu B8 mewn unrhyw 1 flwyddyn | **0ha** |
| 7. Cyfran o'r gweithlu preswyl yn gweithio o fewn Sir Fynwy | Cynyddu'r gyfran o weithlu preswylwyr sy'n gweithio yn Sir Fynwy<br>*(2014: 54.5%)*<br>*(2015: 58.3%)*<br>*(2016: 57.9%)*<br>*(2017: 58.1%)*<br>*(2018: 60.4%)* | Dim | **60.1%** |
| 8. Nifer y bobl yn teithio mewn i'r gwaith i Sir Fynwy♦♦♦ | Gostwng lefel y teithio mewn i'r gwaith dros gyfnod y cynllun<br>*(2014: 19,200)*<br>*(2015: 17,800)*<br>*(2016: 20,400)*<br>*(2017: 17,100)*<br>*(2018: 24,600)* | Dim | **18,900** |
| Nifer y bobl sy'n teithio allan o Sir Fynwy i'r gwaith ♦♦♦ | Gostwng y lefel sy'n teithio allan o'r sir i'r gwaith dros gyfnod y cynllun<br>*(2014: 19,600)*<br>*(2015: 18,700)*<br>*(2016: 18,700)*<br>*(2017: 18,500)*<br>*(2018: 17,400 )* | Dim | **17,700** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

| Dadansoddiad |
|---|
| 1. Ar hyn o bryd mae 40.1ha o dir cyflogaeth ar gael ar draws y Sir. Nid yw argaeledd tir cyflogaeth wedi newid ers ffigurau'r ddau Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol, sy'n adlewyrchu'r ffaith na fu unrhyw ddefnydd tir newydd ar safleoedd cyflogaeth strategol SAE1 yn ystod y cyfnod monitro cyfredol.<br><br>Felly cadwyd digon o dir cyflogaeth dros y cyfnod monitro gan roi cyfle i gyrraedd y gyfradd defnydd a ddynodwyd o 1.9ha y flwyddyn. Mae polisïau S8 a S9 yn gweithio'n effeithlon yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag bydd y Cyngor yn parhau yn ei ymdrechion drwy ei Gyfarwyddiaeth Menter i hyrwyddo cynlluniau sy'n anelu i gefnogi gweithgaredd economaidd yn y Sir. |
| 2. Roedd y gyfradd defnydd tir cyflogaeth (h.y. datblygiadau a gwblhawyd) yn gyfwerth â 3.74ha dros y cyfnod monitro, i gyd yn cyfeirio at y datblygiad ar safleoedd cyflogaeth a warchodwyd (SEA2) a gafodd ganiatâd mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd mwyafrif hyn yn cyfeirio at ddatblygiad ar Fferm Newhouse (SAE2k) (cyf: DM/2018/00731) yng Nghas-gwent (3.69ha) ar gyfer gweithdy (B2), swyddfa dau lawr (B1), ardal valet/paratoi ceir (Sui Generis) ac ardaloedd parcio ar gyfer storio ceir (B8). Bu hefyd ddefnydd 0.0244ha yn safle Lower Monk Street SAE2b, yn y Fenni, a 0.022ha yn safle Stad Ddiwydiannol Pont Hafren (SAE2p) yng Nghil-y-coed.<br><br>Mae'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach yn cyfeirio at gyfanswm y cyflenwad tai o Safleoedd Cyflogaeth Strategol SEA1 yn hytrach na chyfraddau defnydd, fodd bynnag cedwir golwg agos ar y dangosydd hwn yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i ddangos effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â thir cyflogaeth. |
| 3. Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio ar y safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn SAE1 yn ystod y cyfnod monitro. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol o gynnydd cyfyngedig ar y safleoedd SAE1 a ddynodwyd. Nodwyd y cafodd dau ganiatâd eu cymeradwyo yng nghyfnod monitro'r llynedd ar safle SAE1i - safle Parc Beaufort yng Nghas-gwent, ond roedd y rhain yn ymwneud â cheisiadau newid defnydd o B1 i ddefnydd manwerthu A1.<br><br>Er y bu rhywfaint o gynnydd ar gyflenwi'r safleoedd cyflogaeth strategol dros y cyfnod monitro, y sbardun ar gyfer y dangosydd yma yw diffyg datblygu ar ddyraniadau cyflogaeth SAE1 erbyn diwedd 2017. Cafodd cyfanswm o chwe caniatâd cynllunio eu rhoi mewn safleoedd SAE1 erbyn diwedd 2017 a chafodd dau ganiatâd arall eu rhoi ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (er mai ceisiadau newid defnydd yw'r ddau olaf hyn).<br><br>Cydnabyddir, fodd bynnag, mai cynnydd cyfyngedig a fu ar gyflenwi safleoedd cyflogaeth strategol dros y cyfnod monitro. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn ymwneud â chyflenwi safleoedd cyflogaeth strategol. Cynhelir adolygiad llawn o ddyraniadau SAE1 fel rhan o'r sylfaen tystiolaeth i lywio'r Cynllun |

| |
|---|
| Datblygu Lleol Newydd. Gwnaed cynnydd ar hyn gyda chwblhau'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth a'r Astudiaeth Cyflogaeth Mwy na Lleol (rhanbarthol). Mae asesiadau manwl o'r safleoedd cyflogaeth strategol yn mynd rhagddynt a byddant yn parhau i gael eu hadolygu wrth i'r Cynllun fynd yn ei flaen. |
| 4. Nod y dangosydd hwn yw monitro faint o ofod llawr cyflogaeth a ganiatawyd ar gyfer dosbarthiadau defnydd B yn ôl anheddiad yn Sir Fynwy. Cymeradwywyd 12 cais ar gyfer defnyddiau cyflogaeth o'r fath yn ystod y cyfnod monitro, yn gyfanswm o 1.14ha. Ohonynt, roedd pump caniatâd ar safleoedd cyflogaeth a warchodwyd (safleoedd SAE2) yn gyfanswm o 0.994 ha a roedd y saith caniatâd arall ar dir cyflogaeth na chafodd ei ddyrannu yn gyfanswm o 0.143ha.<br><br>Roedd y prif drefi yn cyfrif am 0.11ha o ofod llawr cyflogaeth defnydd B a gymeradwywyd. Roedd hyn yn ymwneud ag un cais (cyf: DM/2019/01174) yn safle gwarchodedig SAE2i yn Heol Bulwark, Cas-gwent ac yn cymeradwyo newid defnydd o ddefnydd manwerthu (gwerthu celfi) i weithgynhyrchu B1.<br><br>Ardal Glannau Hafren oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o gyflogaeth defnydd dosbarth B a gymeradwywyd, yn cyfrif am 0.92 ha o'r cyfanswm o 1.14ha. Cafodd chwe chaniatâd cynllunio eu cymeradwyo yn y rhan hon o'r Sir, pump ohonynt yn Magwyr. Roedd pedair ar y safle cyflogaeth gwarchodedig yn SAE2o – Bragdy Magwyr. Roedd y cais arall ym Magwyr yn ymwneud â newid defnydd pedwar bae o ddefnydd amaethyddol i newid defnydd uned gwyliau i ddefnydd swyddfa B1 yn Nhŷ Magwyr (DM/2019/01288). Roedd y chweched caniatâd ar gyfer estyniad uned bresennol atgyweirio cerbydau ym Mhorthysgewin.<br><br>Rhoddwyd un caniatâd yn Anheddiad Gwledig Eilaidd Brynbuga am newid defnydd meithrinfa ddydd i ddistyllfa jin (B2) a'r ardal blasu a siop A1). Roedd hyn yn cyfrif am 0.01 ha o'r cyfanswm.<br><br>Roedd pedwar caniatâd o fewn Ardaloedd Gwledig yn cyfrif am y 0.096ha arall o ofod cyflogaeth dosbarth B. Roedd hyn yn cynnwys newid defnydd o faeau amaethyddol i ddefnydd B"/B8 yn Whitehall (cyf: DM/2019/01694), defnydd storio B8 ym Melin Goed Magwyr (cyf: DM/2019/00038), storio B8 yn Fferm Tŷ Newydd, Bryngwyn (cyf: DM/2019/00383) a chyfleuster personoleiddio cerbydau yn Devauden (cyf: DM/2019/00191).<br><br>Er nad oes targed penodol ar gyfer y dangosydd hwn, mae'r Cyngor yn awyddus i fonitro caniatâd cyflogaeth ar gyfer defnydd B yn y Sir. Mae faint o ofod llawr cyflogaeth a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro hwn yn is nag a gofnodwyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol diwethaf (4.86ha). Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg ar y mater hwn mewn Adroddiadau yn y dyfodol ac yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Economi a Menter i fod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo cyfleoedd economaidd yn y Sir.<br><br>Er bod dangosyddion 4 a 5 o'r adran hon yn cyfeirio at ddosbarthiadau defnydd B, mae'n ddefnyddiol nodi y rhoddwyd caniatâd i nifer o ddefnyddiau eraill cynhyrchu cyflogaeth |

| |
|---|
| (h.y defnyddiau heblaw B) yn ystod y cyfnod monitro, yn neilltuol gynlluniau menter gwledig/arallgyfeirio fel y'u manylir yn y dadansoddiad ar gyfer Polisi S10.<br>Yn ychwanegol, fel y manylir yn y dadansoddiad ar gyfer Polisi S11 (Economi Ymwelwyr, cafodd 17 cais eu cymeradwyo ar gyfer defnydd twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro, i gyd ar gyfer cyfleusterau llety twristiaeth yn amrywio o lety gwyliau i unedau gwyliau a sefydliadau gwely a brecwast, i lety glampio mewn gwahanol aneddiadau ar draws y Sir. Bydd y rhain yn rhoi hwb pellach i'r economi ymwelwyr yn Sir Fynwy. |
| 5 Nod y dangosydd hwn yw monitro maint y gofod llawr cyflogaeth ar gyfer dosbarthiadau defnydd B a ganiatawyd gan y sector yn Sir Fynwy. Roedd dosbarth defnydd B1 yn cyfrif am 0.13ha o'r gofod llawr a gymeradwywyd drwy ddau gais cynllunio. Roedd dosbarth defnydd B2 yn cyfrif am 0.07ha, hefyd drwy ddau gais cynllunio. Roedd dosbarth defnydd B8 warysau a storio yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'r gofod llawr a gymeradwywyd ar 0.90ha. Cymeradwywyd hyn mewn chwe chaniatâd cynllunio. Cafodd 0.04ha arall ei gymeradwyo ar ddau gais cynllunio yn cynnwys cyfuniad o ddosbarthiadau defnydd B.<br><br>A throi'n fwy penodol i sectorau cyflogaeth, yn seiliedig ar Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) y Deyrnas Unedig 2007, roedd y caniatâd cynllunio ar gyfer dosbarthiadau defnydd B a gofnodwyd dros y cyfnod monitro yn y sectorau dilynol**:<br>• Masnach cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur/beiciau modur (0.96ha) – 7 caniatâd<br>• Trafnidiaeth a storio; gwybodaeth a chyfathrebu (0.01ha) – 1 caniatâd<br>• Gweithgynhyrchu (0.15ha) – 3 caniatâd<br>• Y celfyddydau, adloniant a hamdden; gweithgareddau gwasanaeth arall (0ha)<br>• Gweithgareddau eiddo tiriog; gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaeth cymorth (0.02) – 1 caniatâd<br>• Llety a gwasanaethau bwyd (0).<br><br>Er nad oes unrhyw dargedau penodol yn gysylltiedig â'r dangosydd hwn, mae'r Cyngor yn monitro sectorau cyflogaeth sy'n dod rhagddynt yn y Sir. Bydd hyn yn cynorthwyo wrth benderfynu os yw uchelgais y Cyngor am dyfu sectorau economaidd allweddol penodol yn cael ei gyflawni. Cynhelir adolygiad llawn o'r polisïau cyflogaeth presennol fel rhan o sylfaen tystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Cydnabyddir fod gan y Cynllun hwn rôl allweddol wrth gefnogi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer twf economaidd a bydd yn un o'r prif alluogwyr wrth gyflawni blaenoriaethau Sir Fynwy ar gyfer twf economaidd a gaiff eu nodi yn Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad Twf Economaidd ac Uchelgais. |
| 6. Ni chafodd unrhyw geisiadau newydd eu rhoi yn ystod y cyfnod monitro oedd yn cyfeirio at golled defnyddiau B ar safleoedd cyflogaeth.<br><br>Gan na fu unrhyw golled mewn cyflogaeth dosbarth defnydd B dros y cyfnod monitro, ni sbardunwyd gwyro o'r targed. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynigion o'r fath mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn. |

| |
|---|
| 7. Dengys Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2019 bod 60.1% o breswylwyr y Sir yn gweithio yn yr ardal. Mae hyn ychydig yn is na ffigur y llynedd o 60.4% ond mae'n dal i fod yn uwch na'r lefelau cyfartalog a gofnodwyd ers y dechreuwyd monitro'r Cynllun. Mae hyn yn parhau ar lefel is na chyfartaledd Cymru o 68.2%. Mae hyn yn awgrymu y bu cynnydd wrth gyflawni'r nod o gynyddu'r gyfran o weithlu preswyl sy'n gweithio o fewn sir Fynwy dros gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau i'r ffigurau hyn, gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach a felly mae angen gofal wrth eu trin. |
| 8. Yn ôl Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2019, mae gan Sir Fynwy fewnlif net o 1,200 o gymudwyr – gyda 18,900 yn cymudo i'r ardal i weithio a 17,700 yn cymudo allan. Roedd mewn-gymudo sylweddol o Flaenau Gwent (3,000), Casnewydd (2,900) a Thorfaen (2,700) ac o'r tu allan i Gymru (4,400). Y prif ardaloedd ar gyfer all-gymudo oedd Bryste (5,400), Casnewydd (4,000), Caerdydd (2,100) a Thorfaen (1,000) gyda 3,200 pellach yn cymudo i ardaloedd eraill y tu allan i Gymru Mae'r gyfran uchel o gymudo i/o ardaloedd y tu allan i Gymru yn amlwg yn dangos lleoliad Sir Fynwy ar y ffin.<br><br>Mae dyhead i ostwng lefelau cymudo i mewn a hefyd gymudo allan a gofnodwyd yn Sir Fynwy dros gyfnod y Cynllun. Er bod lefel all-gymudo wedi parhau'n weddol gyson dros gyfnod y Cynllun, mae lefel y mewn-gymudo wedi amrywio o 17,100 i uchafbwynt o 24,600 yn ystod y cyfnod monitro diwethaf. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau i'r ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach a felly mae angen gofal wrth eu trin.<br><br>Er y gall y Cyngor geisio annog datblygu economaidd a chymeradwyo ceisiadau cynllunio cysylltiedig, mae ffactorau ehangach megis cysylltiadau teuluol a phrisiau eiddo sydd tu allan i reolaeth y cynllun dylanwadu ar batrymau teithio i'r gwaith. |

| **Argymhelliad** | |
|---|---|
| 1. | Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. | Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. | Ystyried cynnydd safleoedd cyflogaeth fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| 4. | Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. | Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 6. | Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 7. | Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 8. | Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) y Deyrnas Unedig 2007. Dim ond yn cynnwys y sectorau hynny y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt dros y cyfnod monitro. Gweler SIC 2007 i gael rhestr lawn o sectorau.

** Diwygiwyd i gynnwys caniatâd a gollwyd yng nghyfnod monitro 2018 - 19 - DM/2018/00696 – Heol Crug, Porthysgewin – Caniatâd amlinellol ar gyfer 291 annedd a 0.73ha Cartref Gofal. Cymeradwywyd cartref gofal ar dir a ddyrannwyd ar gyfer defnydd B1 (SAH2).

♦Ffynhonnell Data: Papur Cefndir Tir Cyflogaeth Sir Fynwy ar gyfer y cyfnod Ebrill 2019-Mawrth 2020

♦♦Diwygiwyd i egluro mai dosbarthiadau defnydd B yn unig y mae'r dangosyddion hyn yn eu monitro.

♦♦♦Ffynhonnell Data: Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2019 (dyddiad cyhoeddi 31 Mawrth 2020)

## Mentrau Gwledig

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Annog arallgyfeirio'r economi gwledig |
| **Polisi Strategol:** | S10 Menter Wledig |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a Gefnogwyd:** | 1, 3, 5, 7 a 14 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a Gefnogwyd:** | RE1-RE6 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn cyd-destun yn gysylltiedig â'r polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| 9. Nifer cynlluniau* arallgyfeirio gwledig a mentrau gwledig a gymeradwywyd | Dim targed<br>*(2014-15: 7)*<br>*(2015-16: 10)*<br>*(2016-17: 6)*<br>*(2017-18: 8)*<br>*(2018-19: 7)* | Dim | **15** |

**Dadansoddiad**

Cymeradwywyd cyfanswm o 15 cais yn ymwneud â mentrau gwledig/arallgyfeirio yn ystod y cyfnod monitro. Cafodd 7 o'r ceisiadau eu cymeradwyo fel cynlluniau mentrau gwledig ac 8 cais fel arallgyfeirio gwledig ar ffermydd presennol.

O'r cynlluniau mentrau gwledig a gymeradwywyd, roedd dau yn gysylltiedig â busnesau oedd wedi sefydlu eisoes. Roedd hyn yn cynnwys: adeiladu cyfleuster newydd personoleiddio cerbydau yn Ysgubor Percus, Devauden; a chodi ardal dan orchudd gwydr i roi seddi ychwanegol mewn caffi presennol yn Emm Lee Bungalow yn Llandeilo Bertholau.

Cymeradwywyd pedwar cynllun menter newydd, yn cynnwys – dau safle newydd ar gyfer priodasau, un yn Woodback Llanhenwg a'r llall ym Marc Tredilion, y Fenni; safle aml-bwrpas ar gyfer ffilmio cegin ac ystafell goginio breswyl fach (gyda defnydd ychwanegol fel llety gwyliau) yn Weir House, Llandeilo Gresynni; a newid defnydd 3 ysgubor – un i fod yn gampfa, un i sui generis/B1 ac un i lety ategol i staff yn Court House, Llangatwg Lingoed.

| |
|---|
| Yn olaf, cymeradwywyd cais ôl-weithredol i barhau menter wledig bridio cŵn yn stablau Dan y Dderwen, Llanfable. Roedd bridio wedi digwydd yn y safle i wahanol raddau am dros 30 mlynedd, mae'r cais fodd bynnag yn rheoleiddio'r defnydd.<br><br>Mae'r cynlluniau arallgyfeirio yn ymwneud â busnesau fferm presennol, sy'n arallgyfeirio i helpu cefnogi eu hincwm amaethyddol presennol. Mae pedwar cynnig yn cyfeirio at newid defnydd i fusnesau marchogaeth/lifrai. Roedd y rhain yn Latimer Farm Earlswood; tir ger Sunnybank, Crug; Upper Farm Bungalow, Llanddewi Rhydderch; a Fferm Coed Poerth, Pen yr Heol.<br><br>Cafodd tair fferm ganiatâd i arallgyfeirio i gynlluniau busnes/menter, yn cynnwys 4 uned B2/B8 fach ar wahân yn Fferm Magor Pill; swyddfeydd A2 newydd yn Fferm Court, West End, Magwyr; a defnydd B8 Gwely a Brecwast yn Fferm High House, Bryngwn.<br><br>Mae'r cynllun arallgyfeirio terfynol yn cyfeirio at Fferm Llanvetherine Court, Llanwytherin, a gafodd ganiatâd am newid defnydd i ddigwyddiadau D2 (yn cynnwys digwyddiadau priodas).<br><br>Bu cynnydd yn nifer y cynlluniau arallgyfeirio gwledig a mentrau gwledig a gymeradwywyd dros y cyfnod monitro (15 cynllun) o gymharu gyda'r Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol. Mae nifer a chysondeb y cynlluniau arallgyfeirio gwledig a mentrau gwledig a gymeradwywyd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (cyfanswm o 53 cynllun) yn awgrymu bod Polisi Strategol S10 a'r polisïau rheoli datblygu atodol yn gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi hwn yng nghyswllt arallgyfeirio yr economi gwledig. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Nid yw'r Cynlluniau Mentrau Gwledig a restrir yma yn cynnwys y rhai sydd angen cyfiawnhad arbennig fel y diffiniwyd hynny gan y Nodiadau Cyngor Technegol.

## Economi Ymwelwyr

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Annog twristiaeth gynaliadwy ansawdd uchel |
| **Polisi Strategol:** | S11 Economi Ymwelwyr |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a Gefnogwyd:** | 1, 3, 5 & 7 |
| **Polisïau eraill y Cyfnod Datblygu Lleol a Gefnogwyd:** | T1-T3, RE6, SAT1 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn cyd-destun yn gysylltiedig â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Profiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| 10. Nifer cynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd *(yn cynnwys estyniadau/ addasiadau ac adeiladau newydd)* | Dim targed<br>*(2014-15: 17)*<br>*(2015-16: 10)*<br>*(2016-17: 24)*<br>(2017-18: 16 )<br>(2018-19: 22) | Dim | **Cymeradwyo 17 cynllun twristiaeth** |
| 11. Nifer cyfleusterau twristiaeth a gollwyd drwy ddatblygu, newid defnydd neu ddymchwel | Lleihau colli cyfleusterau twristiaeth<br>*(2014-15: 5)*<br>*(2015-16: 0)*<br>*(2016-17: 1)*<br>(2017-18: 3)<br>(2018-19 : 3) | Colli unrhyw 1 cyfleuster twristiaeth mewn unrhyw 1 flwyddyn | **Colli 7 cyfleuster twristiaeth** |

**Dadansoddiad**

1. Cafodd 17 cais eu cymeradwyo ar gyfer defnyddiau twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro, i gyd ar gyfer cyfleusterau llety twristiaeth. Roeddent yn cynnwys:

- 10 uned gwyliau (i gyd yn adeiladau wedi'u trawsnewid) mewn gwahanol aneddiadau*,
- Newid defnydd annedd yn westy 17 ystafell wely a safle priodasau yn Llandeilo Bertholau;

- 4 safle llety glampio (2 bod a 9 pod mewn safleoedd ar wahân yng Nglascoed, 5 pod mewn safle yn Stanton a gosod a thrawsnewid cerbyd rheilffordd yn yr Hendre);
- Newid defnydd tir ar gyfer carafanau teithio/maes gwersylla yn Llanwytherin ar gyfer hyd at 18 carafán (bu'r safle yn gweithredu fel safle carafanau teithio am 50 mlynedd, fodd bynnag mae'r caniatâd hwn yn ffurfioli'r defnydd ac yn caniatáu defnydd y safle drwy gydol y flwyddyn gyntaf, na chaniatawyd yn flaenorol);
- 8 gofod gwely ychwanegol mewn llety tŷ bynciau presennol yn Nhŷ'r Goetre, Pandy.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu 128 gofod gwely newydd a bydd yn hwb pellach i'r llety ymwelwyr sydd ar gael yn Sir Fynwy.

Mae nifer o gyfleusterau llety twristiaeth a gymeradwywyd dros y cyfnod monitro yn awgrymu fod polisïau perthnasol y Cynllun a'r Canllawiau Cynllunio Atodol Llety Twristiaeth Gynaliadwy' a fabwysiadwyd yn gweithredu'n effeithlon gan alluogi datblygiadau o'r fath i ddigwydd yn Sir Fynwy.

Mae cymharu gydag Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol yn dangos fod nifer y cynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro presennol yn parhau ar lefel gadarnhaol. Cymeradwywyd cyfanswm o 106 cynllun twristiaeth ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ym mis Chwefror 2014, sy'n arwydd pellach fod fframwaith polisi twristiaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn gweithredu'n effeithlon i alluogi datblygiadau o'r fath yn y Sir.

Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar geisiadau twristiaeth mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â darparu cyfleusterau twristiaeth.

2. Derbyniwyd 7 cais yn ystod y cyfnod monitro yn ymwneud â cholli cyfleusterau twristiaeth.

Roedd 5 o'r ceisiadau'n ymwneud â thynnu amodau unedau gwyliau i ddefnydd preswyl. Roedd dau o'r ceisiadau hyn yn Newcastle Trefynwy a Llanddewi Rhydderch a gafodd eu cyfiawnhau ar y sail fod tystiolaeth yn dangos mai defnydd isel oedd ar yr unedau ac nad oeddent yn ariannol hyfyw. Rhoddwyd caniatâd i'r tri chais arall yn Nhryleg, Llangofan a Drenewydd Gellifarch ar y sail bod newid i ddefnydd preswyl yn cydymffurfio gyda Pholisi H4 (newid i breswyl o fewn cefn gwlad) y Cynllun Datblygu Lleol.

Roedd cais pellach a ganiatawyd yn ymwneud â newid defnydd Gwely a Brecwast gyda 8 gofod gwely yng Nghaerwent i fod yn feithrinfa plant, oedd yn cydymffurfio gyda'r fframwaith polisi cynllunio a fabwysiadwyd. Roedd yr adeilad yn annedd cyn ei ddefnyddio fel safle Gwely a Brecwast.

| |
|---|
| Roedd y cais terfynol a ganiatawyd yn ymwneud â cholli Cwrt Llansantffraed, gwesty 21 ystafell wely yn Llanarth. Cafodd hyn ei gyfiawnhau ar y sail y cyflwynwyd tystiolaeth sylweddol i ddangos na fu'r gwesty yn ariannol hyfyw ers rhai blynyddoedd.<br><br>Er bod y data a gasglwyd yn dangos y collwyd peth llety ymwelwyr i ddefnyddiau eraill dros y cyfnod monitro ac felly y cyflawnwyd y sbardun ar gyfer y dangosydd, mae'r golled mewn niferoedd yn fach a chaiff ei gyfiawnhau o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynigion o'r fath mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn, o gofio am bwysigrwydd twristiaeth i economi'r Sir.<br><br>Dylid nodi y gwrthodwyd caniatâd cynllunio i 1 cyfleuster twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro presennol[5]. Oherwydd eu maint a'u nifer, ynghyd â'u graddfa o barhauster, ystyriwyd nadoedd y podiau glampio yn ffurf derbyniol o lety twristiaeth gynaliadwy ac yn groes i ofynion Polisi S11 a Pholisi LC1 y Cynllun Datblygu Lleol. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Llandeilo Gresynni, Llanfair Iscoed, Llandogo, Llangwm a Pandy.

[5] DM/2019/01296- 3 pod glampio, Lower Cwm Farm, Llandeilo Gresynni

## Defnydd Effeithiol o Adnoddau a Risg Llifogydd

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Sicrhau bod datblygiad yn cydymffurfio gydag egwyddorion datblygu cynaliadwy. |
| **Polisi Strategol:** | S12 Defnydd Effeithiol o Adnoddau a Risg Llifogydd |
| **Amcanion Datblygu y Cynllun Lleol a Gefnogwyd:** | 1, 8, 9, 10 & 11 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogwyd:** | SD1-SD4 |

**Newididau Cyd-destun**

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar newidiadau i TAN 15 - Datblygu a Risg Llifogydd rhwng 09 Hydref 2019 a 17 Ionawr 2020. Mae'r drafft TAN yn cynnwys nifer o newidiadau a gynigir a diweddariadau sy'n cynnwys gwybodaeth ffeithiol ar eirfa a chyfeiriadau, gan disodli'r Map Cyngor Datblygu gyda Map Llifogydd Cymru newydd i'w gynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru, polisi ar gyfer y parthau llifogydd newydd, ac yn diweddaru canllawiau ar erydiad arfordirol a nodir ar hyn o bryd yn TAN 14 ac yn ei integreiddio o fewn TAN 15. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i ganslo TAN 14.

Ym mis Mai 2019 cyhoeddodd Cyngor Sir Fynwy Ddatganiad Argyfwng sy'n anelu i ostwng ei allyriadau carbon i net sero yn unol â tharged Llywodraeth Cymru o 2030. Mae hyn yn gosod ymrwymiad polisi clir i'r cyngor:

- ymdrechu i ostwng ei allyriadau carbon ei hun i net sero yn unol â tharged Llywodraeth Cymru o 2030;
- annog a chefnogi preswylwyr a busnesau i gymryd eu camau gweithredu eu hunain i ostwng eu hallyriadau carbon;
- gweithio gyda phartneriaid ar draws y sir a chynghorau a sefydliadau eraill i helpu datblygu gweithredu dulliau arfer gorau wrth gyfyngu twymo byd-eang i lai na 1.5 °C

Yn ystod haf 2019 datblygodd y Cyngor gynllun gweithredu a strategaeth i nodi sut y cyflawnir hyn. Cafodd y cynllun gweithredu ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Hydref 2019 ac mae'n canolbwyntio ar ynni, trafnidiaeth, gofodau gwyrdd, gwastraff a chaffael. Rhoddir adroddiad ar y cynnydd ar y cynllun gweithredu mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| 12. Cyfran datblygu ar dir llwyd fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir *(yn cynnwys newid defnydd tir) (yn eithrio deiliaid tai, addasiadau a thir amaethyddol)* | Cynyddu cyfran datblygu ar dir llwyd:<br>*(2014-15: 28% /17.3ha)*<br>*(2015-2016: 16.8%/10.51ha)*<br>*(2016-17: 51.2% /18.6ha)*<br>*(2017-18 40.18%/ 21.58ha)*<br>*(2018-19 12.7% / 3.7ha)* | Dim cynnydd yn y gyfran datblygu ar dir llwyd am 2 flwyddyn yn olynol | **21%/5.3ha** |
| 13. Faint o ddatblygiad (yn ôl categori TAN 15) a ganiateir yn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 heb fod yn ateb holl brofion TAN15 | Pob datblygiad i gydymffurfio gyda gofynion TAN15<br>*(2014-15: 1)*<br>*(2015-16: 0)*<br>*(2016-17: 0)*<br>(2017-18: 1 )<br>(2018-19:1) | Caniatâd cynllunio wedi ei roi yn groes i ofynion TAN15 | **0 cais wedi'i roi ym Mharth C2** |
| 14. Nifer datblygiadau newydd a ganiatawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle* | Cynnydd yn nifer y datblygiadau newydd a ganiateir yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy:<br>*(2014-15: 2)*<br>*(2015-16: 9)*<br>*(2016-17: 5)*<br>(2017-18: 1)<br>(2018-19: 3) | Dim cynnydd blynyddol | **6** |
| 15. Nifer datblygiadau newydd a gwblhawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle | Cynnydd yn nifer y datblygiadau newydd a gafodd eu cwblhau yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy | Dim cynnydd blynyddol | **1** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2014-2015: N/A)*<br>*(2015-2016: 4)*<br>*(2016-2017: 3)*<br>(2017-2018:2)<br>(2018-19: 1) | | |

**Dadansoddiad**

1. Cafodd cyfanswm o 25.03ha o ddatblygiad ei ganiatáu dros y cyfnod monitro, tra mai dim ond 5.3ha oedd wedi'i leoli ar safleoedd tir llwyd. Roedd hyn yn gyfartal â 21% o'r holl ddatblygiad (ac eithrio deiliaid tai, addasu adeiladau ac adeiladau amaethyddol) a ganiatawyd ar dir llwyd.

Datblygu preswyl oedd mwyafrif y tir llwyd a ganiatawyd (2.32ha /44%). Roedd hyn yn cynnwys: adran o'r safle garej a ddyrannwyd yn Cross Ash ( SAH11) (i)(b) lle'r oedd ardal 0.03ha ar dir llwyd; codi 12 annedd ar dir yn hen Fferm Ifton Manor, Rogiet (0.49ha); 2 annedd breswyl newydd yn hen ysgol gynradd Llan-ffwyst (0.16); a dau ailddatblygiad bloc garej yng Nghas-gwent – un yn Heol Pembroke am 9 annedd (0.3a) a'r llall yn Western Avenue ar gyfer 8 tŷ un ystafell (0.2). Roedd 1.3ha o dir llwyd arall yn gysylltiedig â lleiniau mewnlif tai o fewn libart/gerddi preswyl presennol.

Yn ystod y cyfnod monitro hwn roedd datblygiad cyflogaeth yn gyfran fawr o ddatblygiad tir llwyd ar 40% (2.08ha). Roedd hyn yn ymwneud â gwahanol estyniadau ym Mragdy Magwyr (cyfuniad o 0.35ha); ciosg gyrru trwodd yng ngwasanaethau Magwyr (1.11ha); ymestyn uned yn Stad Ddiwydiannol Pont Hafren ar gyfer uned atgyweirio ceir (0.016ha); estyniad bach i Felin Goed Magwyr (0.006ha); ymestyn maes parcio Neuadd y Sir Brynbuga (0.5 ha); bloc toiledau ar gyfer safle masnachol yng Nghrug (0.006ha); ac estyniad i gaffe - Emm Lee Bungalow, Llandeilo Bertholau (0.027ha) .

Roedd gweddill cyfran datblygu ar dir llwyd yn gysylltiedig â chyfleusterau cymunedol ar 16%/ 0.87ha. Mae hyn yn ymwneud ag unedau dros dro yn Ysgol Gymraeg y Fenni (0.635ha) ac Ysgol Gynradd y Dell (0.006ha); unedau dros dro yng ngorsaf dân y Fenni (0.2ha); a Phafiliwn Glanyrafon ym maes parcio Castell Cas-gwent (0.025ha).

Ar wahân i'r cyfnod monitro diwethaf 2018-19 (12.7%/ 3.7ha), roedd y canran o ddatblygiad a ganiatawyd ar safleoedd tir llwyd a'r nifer o hectarau a ganiatawyd yn is nag a gofnodwyd yng nghyfnodau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol.

Fel y llynedd, mae hyn yn awgrymu bod y tir llwyd sydd ar gael o fewn y Sir ar gyfer ei ddatblygu yn gyfyngedig. Cafodd safleoedd tir llwyd strategol a ddyrannwyd, sef Fairfield Mabey a Melin Bapur Sudbrook, eu cynnwys mewn cyfnodau monitro blaenorol ac nid oes unrhyw safleoedd tir llwyd strategol wedi eu dyrannu ar gyfer datblygiad preswyl yn y Cynllun presennol. Cafodd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach ei gyrraedd ac chaiff y potensial ar gyfer datblygu pellach ar dir llwyd ei ystyried fel rhan o broses ddiwygio'r Cynllun Datblygu Lleol.

| |
|---|
| 2. Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw geisiadau yn groes i ofynion TAN15 naill ai yng ngorlifdir Parth C1 na C2 dros y cyfnod monitro. Fel canlyniad mae polisi S12 yn gweithredu'n effeithlon yn y cyswllt hwn. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yng nghyswllt y mater yma. |
| 3. Cafodd chwe chais eu cymeradwyo ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle yn ystod y cyfnod monitro, yn gysylltiedig ag ynni solar, biomas a phympiau gwres o'r ddaear.<br><br>Roedd tri chynnig yn ymwneud â phaneli solar ar doeau mewn cynigion tai graddfa fach ar gyfer Cymdeithas Tir Fynwy oedd yn cynnwys gosod paneli solar ar y toeau o'r dechrau cyntaf. Roedd y rhain yn ymwneud â 9 annedd yn Heol Penfro, Cas-gwent; 8 annedd rhes yn Western Avenue, Cas-gwent a diwygiad heb fod yn sylweddol ar gyfer cynllun a gymeradwywyd yn ddiweddar (Chwefror 2019) ar gyfer lleiniau 7-9 Heol Tŷ'r Orsaf, Llanddingad.<br><br>Cofnodwyd dau gais yng nghyswllt ynni adnewyddadwy biomas. Roedd un, cais ôl-weithredol, yn ymwneud â chadw boeler biomas sglodion pren 110kw yn Mill Farm, Llanddingad. Roedd hyn angen caniatâd cynllunio gan bod angen caniatâd ar gyfer y ffliw gysylltiedig ar gyfer y boeler. Mae'r ail yn gynllun amnewid (yng nghyswllt caniatâd cynharach yn 2014) ar gyfer ailddatblygu Fferm Pentwyn, Llanarth i unedau gwyliau a gofod safle aml-swyddogaeth. Cyflwynodd y cynllun amnewid foeler biomas i'r datblygiad arfaethedig.<br><br>Roedd y cais terfynol yn gysylltiedig â phwmp gwres o'r ddaear 180kw yn fflatiau gwyliau (hen glwb golff) Alice Springs (hen glwb golff). Roedd angen caniatâd cynllunio ar gyfer y pwmp oherwydd ei gapasiti cynhyrchu gwres mwy o 180kw.<br><br>Fel gyda chyfnodau monitro blynyddol, caniatawyd nifer gyfyngedig o gynlluniau ynni adnewyddadwy ar y safle, yn arbennig baneli solar wedi'u gosod ar y ddaear, y credir sy'n ganlyniad gostyngiad yng nghynlluniau cymhelliant y Llywodraeth (Tariff Cyflenwi). Mae'n amlwg fodd bynnag fod cynlluniau'n cynnwys dyluniad adnewyddadwy o'r dechrau cyntaf yn cael eu cynnig, tebyg i baneli solar ar doeau cynlluniau cymdeithasau tai. Ymhellach, ystyrir fod y rhan fwyaf o gynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa lai yn dod dan ddatblygiad a ganiateir, ac felly nad ydynt yn cael eu codi gan y system cynllunio, er enghraifft dim ond oherwydd y gofyniad am ffliw yr oedd y cynllun boeler biomas angen caniatâd cynllunio.<br><br>Er y cafodd y sbardun ei gyrraedd, mae'n bwysig nodi y cafodd cyfanswm o 26 cynllun yn cynnwys ynni adnewyddadwy ar y safle eu caniatáu ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2014 sy'n awgrymu fod Polisi Strategol S12 a'i bolisïau atodol yn gweithredu'n effeithlon yng nghyswllt darparu ynni adnewyddadwy.<br><br>Serch hynny bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â defnydd effeithiol o adnoddau. |

| |
|---|
| 4. Dim ond un cynllun yn cynnwys ynni adnewyddadwy ar y safle a gafodd ei gwblhau, sy’n ymwneud â chais ôl-weithredol (sydd eisoes wedi ei gwblhau ar y cam cais) am foeler sglodion pren 110KW yn Mill Farm, Llanddingad).<br><br>Er y bu gostyngiad yn nifer y cynlluniau a gwblhawyd o gymharu â blynyddoedd blaenorol ac felly y cyrhaeddwyd y sbardun, ers mabwysiadu’r Cynllun yn 2014 dylid nodi y cafodd cyfanswm o 11 cynllun yn cynnig ynni adnewyddadwy ar y safle eu cwblhau a’u bod yn gweithredu. Mae hyn yn dangos ymhellach fod Polisi Strategol S12 a’i bolisïau ategol yn gweithredu’n effeithlon yng nghyswllt y ddarpariaeth a chwblhau cynlluniau ynni adnewyddadwy ar y safle.<br><br>Serch hynny bydd y Cyngor i fonitro’r mater hwn yn ofalus mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu effeithlonrwydd y fframwaith polisi yng nghyswllt defnydd effeithiol o adnoddau. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Dim angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 4. Dim angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Cynhwysir dangosydd monitro ychwanegol yn y fframwaith monitro er mwyn dynodi cynlluniau yn 4.

**Seiliedig ar geisiadau a gafodd caniatâd ar gyfer ynni adnewyddadwy ar y safle ers mabwysiadu’r Cynllun Datblygu Lleol.

## Tirlun, Amgylchedd Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Diogelu gofod gwyrdd a safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth natur a thirlun |
| **Polisi Strategol:** | S13 Tirlun, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a Gefnogwyd:** | 8 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogwyd:** | LC1-LC6, GI1 & NE1 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newid cyd-destun .

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol))* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| 1. Faint o dir glas a gollwyd i ddatblygiad na chafodd ei ddyrannu yn y cynllun datblygu (*yn cynnwys datblygu adeiladu newydd – tai, cyflogaeth ond yn eithrio adeiladau amaethyddol)* | Lleihau colled tir glas na chafodd ei ddyrannu *(2014-15: 26 ha)* *(2015-16: 44.6 ha)* *(2016-17: 16.5 ha)* (2017-18 : 8.98ha) (2018-19: 9.71ha) | Unrhyw dir glas a gollwyd na chafodd ei ddyrannu mewn unrhyw 1 flwyddyn | **18.27ha*** |
| 2. Faint o ofod agored cyhoeddus/caeau chwarae a gollwyd i ddatblygiad na chafodd ei ddyrannu yn y cynllun datblygu | Lleihau'r golled o ofod agored/caeau chwarae i ddatblygiad na chafodd ei ddyrannu yn y cynllun datblygu *(2014-15: 1.47ha)* *(2015-16: 0.76ha)* *(2016-17: 0)* (2017-18:0) (2018-19 :1.74ha) | Unrhyw ofod agored a gollwyd oherwydd datblygu, heb ei ddyrannu yn y cynllun datblygu am unrhyw 1 flwyddyn | **0.1ha** |
| 3. Datblygiadau a ganiatawyd/ | Heb effeithio'n niweidiol ar unrhyw un | Difrod a gofnodwyd neu ddarnio safleoedd/ | **3** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gwblhawyd sydd o fewn ardaloedd cadwraeth natur rhyngwladol/cenedlaethol bwysig ** | *(2014-15: N/A)*<br>*(2015-16: 0)*<br>*(2016-17: 0)*<br>(2017-18:0)<br>(2018-19:1) | cynefinoedd dynodedig | |
| 4. Datblygiadau y rhoddwyd caniatâd iddynt sy'n niweidio gwerth cadwraeth natur cyffredinol safleoedd a ddyrannwyd yn lleol | Lleihau datblygiadau a fyddai'n achosi niwed i werth cadwraeth natur cyffredinol safleoedd a ddynodwyd yn lleol.<br>*(2014 -15:N/A)*<br>*(2015-16:1)*<br>*(2016-17: 1)*<br>*(2017-18:1)*<br>*(2018 – 19: 2)* | 1 neu 2 ddatblygiad yn arwain at niwed cyffredinol am 2 flwyddyn yn olynol neu 3 neu fwy o ddatblygiadau yn arwain at niwed mewn unrhyw 1 flwyddyn | **2** |
| 5. Nifer datblygiadau newydd yn darparu creu ac adfer cynefin | Cynyddu nifer y datblygiadau newydd yn darparu creu/adfer cynefin<br>(2014-15: 1)<br>(2015-16: 1)<br>(2016-17: 0)<br>(2017-18:2)<br>(2018-19 :1) | Dim | **0** |

**Dadansoddiad**

1. Yn ystod y cyfnod monitro presennol rhoddwyd 34 caniatâd ar dir glas na chafodd ei ddyrannu ar gyfer datblygiad yn y Cynllun Datblygu Lleol, yn gyfanswm o 18.27ha. Mae hyn yn uwch na chyfnodau monitro diweddar (16.5ha yn 2016-17; 8.98ha yn 2017-18; 9.71ha yn 2018-19), ond nid mor uchel â chyfnodau cynharach yn yr adolygiad (44.6ha yn 2015-16 a 26ha yn 2014-15). Roedd y ffigur uchel a gofnodwyd yn 2015-16 yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa fawr (araeau PV solar), cynlluniau a ganiatawyd yr oedd cyfiawnhad drostynt o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi'r Cynllun a pholisi cynllunio cenedlaethol, ni chafodd unrhyw gynlluniau ynni adnewyddadwy o'r fath eu caniatáu yn y cyfnod monitro presennol.

Eto, fel yn y cyfnodau monitro mwyaf diweddar, roedd datblygiadau preswyl yn cyfrif am fwyafrif y tir glas heb ei ddyrannu a ganiatawyd yn ystod y cyfnod presennol, ar 7.11 ha (38.9%). Y prif gyfrannydd at ddatblygiad preswyl oedd safle amrywiad 'Tir i'r dwyrain o Heol yr Eglwys yng Nghil-y-coed, oedd yn caniatau hyd at 130 annedd, gyda'r ardal o dir y

gellid ei ddatblygu ar gyfer defnydd preswyl yn cyfrif am 6ha. Cafodd hyn ei gyfiawnhau ar sail yr angen i fynd i'r afael â'r diffyg yng nghyflenwad tai pum mlynedd Sir Fynwy, gan y rhoddwyd y caniatâd cyn diddymu TAN1.

Roedd cyfraniadau preswyl eraill yn cynnwys: newid defnydd tir yn Crug i ddarparu ar gyfer 2 gartref parc a hyd at 4 carafán deithiol ar gyfer anghenion teithwyr (0.23ha); annedd menter wledig yn Blossom Park a maes gwersyll, Llandeilo Bertholau yn lle cartref warden symudol (0.15ha); annedd newydd yn lle carafán gyfreithiol a fu ar y safle am fwy na 10 mlynedd yn Llanllywel (0.022ha); llain mewnlenwi ar gyfer 2 annedd breswyl yng Nghas-gwent (0.065ha); ac adran o dir glas yn hen safle ysgol Llan-ffwyst (0.04ha)( er mwyn darparu ar gyfer datblygiad preswyl.

Cafodd gweddill y caniatâd preswyl eu rhoi ar gyfer newid defnydd o dir amaethyddol i estyniadau libart preswyl graddfa fach i ardaloedd gardd presennol (6 caniatâd yn gyfanswm o 0.6ha), y gwnaeth y cyfan ohonynt gyflawni ystyriaethau amwynder gweledol y Cynllun Datblygu Lleol.

Roedd y gyfran ail uchaf o dir glas nas dyrannwyd a ganiatawyd yn gysylltiedig â darpariaeth cyfleusterau cymunedol a hamdden yn cyfrif am 23.6% (4.32ha). Yn yr un modd â'r categori preswyl, roedd hyn yn bennaf oherwydd y safle amrywiad 'Tir i ddwyrain Heol yr Eglwys, Cil-y-coed, lle fel rhan o'r cynllun a gymeradwywyd caniatawyd parc cymunedol a choetir 4ha ar gyfer defnydd gan y gymuned ehangach i gyd-fynd â'r ardal datblygu preswyl 6ha. Cafodd mwy o dir glas ei golli i roi traciau, llwybrau a champfa awyr agored yng nghanolfan hamdden Porthysgewin a Sudbrook (0.18ha) a dwy ystafell ddosbarth dros dro yn Ysgol Gymraeg y Fenni oedd yn rhannol yn dir glas ar dir amwynder a ddynodwyd (0.065ha)/rhan ddatblygiad tir llwyd. Rhoddwyd caniatâd i ddefnyddio adran fechan o goetir (0.012ha) ar gyfer dibenion saethyddiaeth yn Llandeilo Bertholau; a chollwyd ardal fach o dir ar lan yr afon (0.25ha) i gynorthwyo darpariaeth Pafiliwn Glanyrafon ym maes parcio Castell Cas-gwent.

Roedd gweithgareddau yn ymwneud â marchogaeth yn cyfrif am 17.9% o'r holl ganiatâd a roddwyd ar dir glas heb ei ddyrannu. Rhoddwyd cyfanswm o 10 caniatâd (3.27ha) yn cynnwys safleoedd marchogaeth a stablau dros y cyfnod monitro. Ystyriwyd bod y rhain yn ddefnydd priodol o dir mewn ardaloedd gwledig a'u bod yn cydymffurfio gyda fframwaith polisi'r Cynllun Datblygu Lleol.

Roedd twristiaeth yn cyfrif am 16.4% (3.26ha) o ganiatâd a roddwyd ar dir glas heb ei ddyrannu yn y cyfnod monitro hwn. Mae'r 4 caniatâd a roddwyd oll yn ymwneud â newid defnydd tir ar gyfer defnyddiau glampio a lleoli unedau cynaliadwy megis 'podiau' a hen gerbyd rheilffordd yn yr Hendre. Ystyrir y gellir priodoli'r cynnydd hwn mewn defnyddiau twristiaeth o fewn cyfnodau monitro diweddar yn rhannol i weithrediad effeithlon Canllawiau Cynllunio Atodol Llety Twristiaeth Gynaliadwy (Tachwedd 2017) sy'n caniatáu dulliau cynaliadwy, heb fod yn barhaol o ddefnydd twristiaeth, megis glampio.

Dim ond 3.2% (0.59ha) o ganiatâd ar safleoedd heb ei ddyrannu ar dir glas oedd wedi ei gyfrif am ddefnyddiau cyflogaeth. Roedd dau ganiatâd a roddwyd yn gysylltiedig ag ehangu meysydd parcio cyflogaeth bresennol yn Stad Ddiwydiannol Newhouse (0.14ha) a Brook

| |
|---|
| Farm Holdings, ger Rhaglan (0.26ha). Rhoddwyd 0.14ha arall ar gyfer busnes lifrai yn Fferm Latimer Earlswood, a chaniatawyd cyfleuster newydd personoleiddio cerbydau yn Ysgubor Percus, Devauden (0.05ha).<br><br>Ni roddwyd unrhyw ganiatâd oedd yn ymwneud â cholli tir glas i ynni adnewyddadwy (0%/0ha) yn ystod y cyfnod monitro presennol.<br><br>Er bod y data monitro yn dangos y bu colled o dir glas heb ei ddyrannu dros y cyfnod monitro oherwydd y caniatâd a nodir uchod (er yn llai na'r hyn a gofnodwyd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol) ac fel canlyniad cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn ei gyrraedd, caiff y golled ei gyfiawnhau o fewn y cyd-destun a gofyniad y fframwaith polisi Cynllun Datblygu Lleol adeg gwneud penderfyniad. Cafodd colli tir glas ar gyfer datblygiadau preswyl graddfa fawr yng nghyfnod monitro eleni ei gyfiawnhau fel dull gweithredu polisi cadarnhaol i ystyried safleoedd heb eu dyrannu er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg yn y cyflenwad tir tai. Roedd hyn cyn diddymu TAN1 ym mis Mawrth 2000.<br><br>Felly, nid yw colli tir glas heb ei ddyrannu yn dangos unrhyw broblem gyda gweithredu polisïau Cynllun Datblygu Lleol ac felly nid oes angen unrhyw ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynigion o'r fath mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yng nghyswllt y mater. |
| 2. Cafodd dau gais eu caniatáu o fewn ardal o ofod agored amwynder, a arweiniodd at golli 0.1ha o ofod amwynder cyhoeddus. Mae hyn yn cyfeirio at ran fach o ofod amwynder DES2 yn Ysgol Gymraeg y Fenni (0.065ha) ar gyfer ystafelloedd dosbarth dros dro; a cholli gofod amwynder yn hen ysgol Llan-ffwyst (0.04ha) ar gyfer unedau preswyl. Cafodd y ddau gais eu cyfiawnhau ar y sail fod mwyafrif yr ardaloedd datblygu a gynigiwyd ar dir llwyd a ddatblygwyd yn flaenorol ac roedd colli'r ardal amwynder yn atodol ac yn golled fach iawn yng nghyd-destun cyfanswm arwynebedd y safle(oedd). Yn achos safle Llan-ffwyst, cyfiawnhawyd hefyd y cafodd y rhan o'r tir amwynder a ddatblygid ei ddefnyddio'n hanesyddol ar gyfer ystafelloedd dosbarth dros dro ac y byddai'r cynllun yn rhoi mynediad i ardal ehangach DES2 oedd yn flaenorol wedi ei chau i ffwrdd.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol faint o ofod agored cyhoeddus heb ei ddyrannu a gollwyd i ddatblygiad er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn. |
| 3. Cafodd tri chais eu caniatáu o fewn ardal cadwraeth natur genedlaethol bwysig yn ystod y cyfnod monitro. Roedd y rhain yn ymwneud â chynnig am garej o fewn Pond Cottage Mynyddbach sy'n rhan o Ardal Diddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Ystlum Pedol Lleiaf Mwyngloddfa, adeiladu garej a stablau yn Tregeirog House sy'n rhan o safle SSSI Ystlum Pedol Lleiaf Dyffryn Gwy; a chynnig am glwyd mynedfa (llwybr cyflenwi a chynnal a chadw ar gyfer safle tyrbin gwynt presennol a gafodd ganiatâd cynllunio gan Gyngor Dinas Casnewydd ym mis Ionawr 2019) o fewn SSSI Gwastatir Gwent. |

| |
|---|
| Ym mhob achos cafodd y datblygiadau eu cyfiawnhau ar y sail y cynhaliwyd Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ac arolygon manwl i lywio'r asesiad ar effeithiau'r cynllun, y lliniarwyd yn eu herbyn yn llawn ac ar amodau'r caniatâd a roddwyd.<br><br>Dengys hyn bod y fframwaith polisi yn gysylltiedig â chadwraeth natur yn gweithredu'n effeithlon wrth ddiogelu safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol/cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro caniatâd a chwblhau o fewn y safleoedd cadwraeth natur hyn i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater. |
| 4. Rhoddwyd caniatâd i ddau gais dros y cyfnod monitro yr ystyriwyd eu bod yn achosi niwed i safleoedd a ddynodwyd yn lleol. Roedd y cyntaf yn cyfeirio at sied newydd yn The Patch, Heol Elms, Rhaglan, sydd o fewn Safle Pwysigrwydd Cadwraeth Natur dynodedig, a elwir yn Ddol Cuckoos Row (rhoddwyd caniatâd i gadw'r safle hwn fel llain hamdden ym mis Mai 2018).<br><br>Mae'r ail yn ymwneud â chyfleuster newydd personoleiddio cerbydau o fewn Safle Pwysigrwydd Cadwraeth Natur Coetir Percus, Devauden, a arweiniodd at golled barhaol o goetir hynafol (roedd coed wedi eu clirio'n flaenorol o safle'r cais ymgeisiol).<br><br>Er yr ystyriwyd bod y ddau ganiatâd yn achosi niwed i'r Safleoedd Pwysigrwydd Cadwraeth Natur a ddynodwyd, yn y ddau achos rhoddwyd amodau ar y datblygiadau i sicrhau cynlluniau rheoli manwl ar sut y caiff y Safleoedd eu rheoli yn y dyfodol, gan felly sicrhau eu rheolaeth hirdymor, a ystyriwyd i fod o fudd net i'r ecoleg. Dangosodd y broses cais cynllunio y cafodd niwed i'r Safleoedd ei ystyried a'i gyfiawnhau o fewn cyd-destun a gofynion Polisi NE1 fframwaith polisi'r Cynllun Datblygu Lleol fel y dangosir uchod. Dengys hyn fod y fframwaith polisi yn ymwneud â chadwraeth natur yn gweithredu'n effeithlon wrth ddiogelu gwerth natur safleoedd a ddynodwyd yn lleol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro caniatâd a chwblhau o fewn y safleoedd cadwraeth natur hyn i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi ynghylch y mater hwn. |
| 5. Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau yn yn benodol i ddarparu creu ac adfer cynefinoedd yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Er na roddwyd caniatâd i unrhyw gais i gyflenwi creu ac adfer cynefinoedd, mae'n debygol y bydd cynlluniau eraill a gymeradwywyd dros y cyfnod monitro yn helpu i adfer cynefinoedd drwy wella rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd. Er nad oes sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach yng nghyswllt y dangosydd hwn, bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yng nghyswllt y Tirlun, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol. |
| **Argymhellion** |
| 1. Dim angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Dim angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 4. Dim angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

| |
|---|
| 5. Dim angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Mae 1.41ha ychwanegol o dir glas yn cyfeirio at safleoedd a ddyrannwyd SAH11 (ii) (Devauden) a SAH11(i) (b) (Garej Cross Ash) a chaiff felly ei eithrio.

**Cafodd y dangosydd ei ddiwygio yn unol â dangosydd SA ar gyfer hwyluso casglu data.

## Gwastraff

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Cyflawni cyfraniad y Sir at gyfleusterau gwastraff lleol |
| **Polisi Strategol:** | S14 Gwastraff |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogwyd:** | 12 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogwyd:** | W1-W6, SAW1 |

**Newidiadau cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destun sylweddol yn gysylltiedig â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| Capasiti rheoli gwastraff a ganiateir a fynegwyd fel canran o'r cyfanswm capasiti sydd ei angen fel y'i dynodwyd yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol | Anelu i ddarparu rhwng 2.2 a 5.6 hectar ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd mewn adeilad ar safleoedd cyflogaeth B2 priodol yn ystod cyfnod y cynllun. *(2014-15: 1.49ha wedi ei ganiatáu; 32.5ha safleoedd posibl rheoli gwastraff)* *(2015-16: 0.24ha wedi ei ganiatáu; 26.86ha safleoedd posibl rheoli gwastraff)* *(2016-17: 0ha wedi ei ganiatáu; 26.26ha safleoedd posibl rheoli gwastraff)* *(2017-18: 0ha wedi ei ganiatáu; 26.26ha safleoedd posibl rheoli gwastraff)* *(2018-19: 0ha wedi ei ganiatáu 26.26ha* | Cyfanswm tir cyflogaeth B2 yn disgyn dan 5.6 ha | **Capasiti gwastraff a ganiatawyd 0ha**<br><br>**Safleoedd posibl rheoli gwastraff 26.26ha** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *safleoedd posibl rheoli gwastraff)* | | |

| **Dadansoddiad** |
|---|
| 1. Nid oedd unrhyw ganiatâd ar gyfer capasiti rheoli gwastraff yn ystod y cyfnod monitro. Yn ychwanegol nid oedd unrhyw ddefnydd o dir B2 dros y cyfnod monitro, mae faint o dir sydd ar gael ar gyfer safleoedd posibl rheoli gwastraff (h.y. safle cyflogaeth B2 a safleoedd gwaredu neu reoli gwastraff presennol) yn parhau'r un fath â'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol ar 26.26ha. Felly, mae digonedd o dir yn parhau i fod ar gael ar gyfer safleoedd posibl rheoli gwastraff yng nghyswllt yr uchafswm gofyniad o 5.6ha. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

## Mwynau

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Diogelu ardaloedd o adnoddau agregau |
| **Polisi Strategol:** | S15 Mwynau |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a Gefnogwyd:** | 12 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a Gefnogwyd:** | M1-M3 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destun sylweddol yn gysylltiedig â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| 1. Faint o adnoddau agregau ar dir sylfaenol fel canran o'r cyfanswm capasiti a ddynodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol | Cynnal cronfa dir o leiaf 10 mlynedd *(2014-15: 0)* *(2015-16: 0)* *(2016-17: 0)* *(2017-18: 0)* *(2018-9: 0)* | Cronfa dir 10 mlynedd heb gael ei chynnal | **0** |
| 2. Nifer datblygiadau parhaol heb fod yn fwynau a ganiatawyd a safleoedd a warchodir nad ydynt yn cydymffurfio gyda Pholisi M2* | Lleihau nifer y datblygiadau parhaol heb fod yn fwynau ar safleoedd a warchodir: *(2014-15: 0)* *(2015-16: 0)* *(2016-17: 0)* *(2017-18: 0)* *(2018-19: 0)* | Os caniateir unrhyw ddatblygiadau o'r fath | **0** |

| **Dadansoddiad** |
|---|
| 1. Ni fu unrhyw gloddio mwynau seiliedig ar dir yn y Sir yn ystod y cyfnod monitro. Felly, ni fu unrhyw ostyngiad yn y gronfa dir, sy'n dibynnu ar y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael o chwarel Ifton, Rogiet. Ni fu unrhyw waith yn y chwarel ers peth amser ond mae ganddi fudd caniatâd cynllunio presennol. Oherwydd pwysigrwydd cadw cronfa dir 10 mlynedd bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol. |

| |
|---|
| 2. Nid oedd unrhyw ganiatâd ar gyfer datblygiadau parhaol heb fod yn fwynau ar safleoedd a warchodir nad ydynt yn cydymffurfio gyda Pholisi M2 yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Dengys hyn fod Polisi M2 yn cael ei weithredu'n effeithlon ac nad oes angen unrhyw ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg ar y mater hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Diwygiwyd y dangosydd i gynnwys cyfeiriad at Bolisi M2 er eglurder.

## Trafnidiaeth

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Cynyddu dulliau cynaliadwy o drafnidiaeth a sicrhau fod pob datblygiad yn cyflawni egwyddorion cynllunio trafnidiaeth gynaliadwy |
| **Polisi Strategol:** | S16 Trafnidiaeth |
| **Amcanion y Polisi Datblygu Lleol a Gefnogwyd:** | 1-6, 9 & 13 |
| **Polisïau eraill Polisi Datblygu Lleol a Gefnogwyd:** | MV1-MV10 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Yn ystod y cyfnod monitro presennol, yn dilyn cwblhau ymchwiliad cyhoeddus i'r prosiect a chyhoeddi Adroddiad yr Arolwg, cyhoeddodd y Llywodraeth Cymru na fyddai Ffordd Liniaru M4 yn symud ymlaen. Rhoddir manylion pellach a'r goblygiadau ar gyfer Sir Fynwy yn y dadansoddiad islaw.

| **Dangosydd** | **Targed** *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol)* | **Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach** | **Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020** |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer gwelliannau i drafnidiaeth a sicrhawyd drwy gytundebau A106 | Dim targed<br>*(2014-15: 3)*<br>*(2015-16: 3)*<br>*(2016-17: 2)*<br>*(2017-18: 4)*<br>*(2018-19: 3)* | Dim | **1 cytundeb A106 yn sicrhau gwelliannau trafnidiaeth** |
| 2. Cynnydd cynlluniau Cynllun Trafnidiaeth Lleol* a fanylwyd ym Mholisi MV10 yn unol ag amserlen cyflenwi'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol | Cynigion y Cynllun Trafnidiaeth Lleol a weithredwyd yn unol ag amserlen cyflenwi'r Cynllun | Cynigion y Cynllun Trafnidiaeth Leol a fanylir ym Mholisi MV10 ddim yn cael eu gweithredu yn unol ag amserlen cyflenwi'r Cynllun | **Manylir cynnydd yn y dadansoddiad islaw** |

**Dadansoddiad**

1. Cafodd y gwelliannau trafnidiaeth a cherddwyr dilynol eu sicrhau drwy gytundeb A106 yn ystod y cyfnod monitro presennol:

- Heol yr Eglwys, Cil-y-coed (DM/2019/0161)

  Taliad wedi ei fynegeio fel cyfraniad tuag at gynlluniau trafnidiaeth gynaliadwy a gwelliannau priffyrdd yng Nghil-y-coed (£130,000).

Fel y nodwyd uchod, cafodd un cytundeb A106 ei lofnodi yn ystod y cyfnod monitro fydd yn arwain at welliannau i drafnidiaeth a cherddwyr. Mae hyn yn ymwneud â safle heb ei ddyrannu a gafodd ganiatâd yng nghyswllt penderfyniad y Cyngor ar 20 Medi 2018 i roi ‘pwysau priodol’ i ddiffyg cyflenwad pum mlynedd o dir tai. Yn unol â fframwaith polisi trafnidiaeth y Cynllun Datblygu Lleol, mae’r gwelliannau yn mynd ati i annog dulliau cynaliadwy o drafnidiaeth a sicrhau bod y datblygiad yn cyflawni egwyddorion cynllunio trafnidiaeth gynaliadwy.

Er nad oes targed penodol ar gyfer y dangosydd hwn, mae gan y Cyngor ddiddordeb mewn monitro faint o welliannau trafnidiaeth a sicrhawyd drwy gytundebau A106. Yn ôl y disgwyl, oherwydd bod cynnydd gyda nifer o safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn arafach na’r disgwyl, nifer cymharol fach o welliannau trafnidiaeth a sicrhawyd drwy gytundebau A106 yng nghyswllt y safleoedd hyn yn rhan gynnar cyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, rhyngddynt, yn y 6 mlynedd hyd yma, o’r 16 cytundeb A106 a arweiniodd at welliannau trafnidiaeth, mae 9 yn gysylltiedig â safleoedd a ddyrannwyd Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro’r mater hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

2. Mae cynnydd cynlluniau Cynllun Trafnidiaeth Lleol* a fanylir ym Mholisi MV10 yn unol ag amserlen y Cynllun Trafnidiaeth Lleol fel sy’n dilyn:

**Cynlluniau Ffordd Llywodraeth Cymru:**

**Cynllun gwella coridor M4 Magwyr i Gas-bach:** (darn yn Sir Fynwy i’w ddiogelu wedi ei nodi ar y Map Cynigion). Penderfynodd Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2019 i beidio symud ymlaen gyda phrosiect gwella coridor yr M4. Ar yr un pryd sefydlodd Llywodraeth Cymru Gomisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru i “ystyried y problemau, cyfleoedd, heriau ac amcanion ar gyfer mynd i’r afael â thagfeydd ar yr M4 yn ne ddwyrain Cymru, a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfres o ddatrysiadau amgen”. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymgysylltu gyda’r Comisiwn ac yn awr yn disgwyl ei adroddiad.

**Cynlluniau Ffyrdd Cyngor Sir Fynwy:**

**B4245 Ffordd Osgoi Magwyr/Gwndy:** (darn i’w ddiogelu wedi ei ddangos ar y Map Cynigion), gweler uchod. Byddai prosiect gwella coridor yr M4 wedi rhoi ffordd osgoi ar gyfer Magwyr/Gwndy. Unwaith y bydd adroddiad y comisiwn ac ateb Llywodraeth Cymru i’r adroddiad yn hysbys, bydd Cyngor Sir Fynwy yn gwneud y penderfyniad ar y cynnig am ffordd osgoi Magwyr/Gwndy.

**B4245/M48 Ffordd Gyswllt a B4245/Ffordd Gyswllt Cyffordd Twnnel Hafren:** Ystyriwyd bod y prosiectau hyn yn hanfodol ar gyfer estyniad mawr yng ngorsaf Cyffordd Twnnel Hafren (ochr ogleddol). Roedd yr estyniad a gynigiwyd i’r maes parcio yn anfforddiadwy ac ni fedrid ei gyflwyno. Yn dilyn ailadeiladu’r bont draffordd yng ngorsaf Cyffordd Twnnel Hafren fel rhan o’r gwaith trydaneiddio rheilffyrdd, cafodd cynlluniau eu paratoi ar gyfer estyniad maes parcio llai ar ochr ddeheuol y Cyffordd y gellir ei gyflenwi heb y cynlluniau ffyrdd hyn, a disgwylir y caiff y rhain eu cyflenwi dros y ddwy flynedd nesaf. Ynghyd â

Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a phartneriaid eraill, mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnal astudiaeth cam 2 WelTAG Trafnidiaeth Cas-gwent (Achos Busnes Amlinellol, h.y. dichonolrwydd, dyluniad amlinellol, cost/buddion), sy'n cynnwys edrych ar gyffordd bosibl newydd i'r A48/M48 i ogledd ddwyrain Cil-y-coed.

**A48 Ffordd Osgoi Allanol Cas-gwent:** Un o'r materion allweddol i gael ei drin gan astudiaeth cam 2 WelTAG Trafnidiaeth Cas-gwent a nodir uchod yw lliniaru traffig Cas-gwent, ac felly mae'n cynnwys edrych ar ffordd newydd bosibl yn galluogi traffig i osgoi canol tref Cas-gwent.

**A472 Ffordd Osgoi Brynbuga:** Dim cynnydd.

**Cynlluniau Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus:**

**Cyfnewidfa Gorsaf Reilffordd y Fenni:** swm darpariaethol o £1.75m, a fydd yn amodol ar gymeradwyo achos busnes Trafnidiaeth Cymru, a ddyrannwyd i sicrhau gwelliannau i gyfleusterau trafnidiaeth integredig a chyfleusterau'r orsaf. Mae hyn yn cynnwys:

- Pont droed newydd hygyrch (yn defnyddio cyllid presennol Mynediad i Bawb os ydynt ar gael oedd wedi eu clustnodi ar gyfer y Fenni neu drwy bartneriaeth gyda Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru).
- Maes parcio Parcio-a-Theithio newydd ar dir Network Rail rhwng y rheilffordd a'r A465, yn defnyddio'r Opsiwn 3 a ffafrir o Astudiaeth Gorsaf y Fenni 2013 a gynhaliwyd gan y Cyngor.
- Cyfnewidfa bws newydd i alluogi TrawsCymru a gwasanaethau bws eraill i alw yn yr orsaf.
- Ehangiad sylweddol mewn cyfleusterau ansawdd uwch i storio beiciau, gydag o leiaf 48 gofod dan gysgod i feiciau, a gaiff ei fonitro gan deledu cylch cyfyng.
- Caiff yr orsaf hefyd ei chynnig fel 'model' ar gyfer gwaith gydag Anabledd Cymru i beilota datrysiadau y medrid eu defnyddio ar draws Cymru sydd hefyd yn gymwys am fwy o gyllid (Mân Weithiau) ar gyfer gwelliannau dylunio cynhwysol gyda ffocws ar anabledd.

Gwelliannau gorsaf bws y Fenni: Dim gwaith pellach. Disgwylir y bydd gwelliannau i lochesi ac arddangosiadau gwybodaeth yn ystod 2020/21, y datrysiad tymor canol yw symud yr orsaf bysus i'r orsaf rheilffordd.

**Gorsaf Reilffordd a Chyfnewidfa Gorsaf Bws Cas-gwent:** Mae Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru a Chyngor Sir Fynwy wedi ymrwymo i ddarparu cyllid ar y cyd i ddatblygu a gweithredu (KA – £300,000)

- Gwneud yr orsaf yn hollol hygyrch i deithwyr gyda phroblemau symudedd
- Adeiladu maes parcio Teithio a Pharcio newydd
- Creu cyfnewidfa bysus newydd o flaen yr orsaf.

Caiff datblygiad yr orsaf a gwasanaethau ychwanegol posibl hefyd eu hadolygu fel rhan o Astudiaeth Trafnidiaeth Cas-gwent a nodir uchod. Yn ystod 2020/21 bydd Trafnidiaeth Cymru hefyd yn cynnal asesiad o goridor Casnewydd – Cas-gwent fel rhan o'i raglen Fframwaith Gwella Metro.

**Parcio a Theithio Cas-gwent:** Caiff opsiynau ar gyfer y cyfleuster parcio a theithio hefyd eu hadolygu fel rhan o Astudiaeth Trafnidiaeth Cas-gwent y sonnir amdani uchod.

**Cyfnewidfa Cyffordd Twnnel Hafren:** Cafodd yr uwchraddiad arfaethedig i Gyffordd Twnnel Hafren ei dderbyn mewn egwyddor fel prosiect 'Metro Plus' gan Gyd-Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru. Mae'r eitemau dilynol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd:

- Ymestyn Maes Parcio – Adeiladu maes parcio newydd gyda lle i 150 o geir i dde'r orsaf bresennol, erbyn 2021.
- Ymestyn Pont Droed – Ymestyn pont droed bresennol yr orsaf i'r estyniad maes parcio newydd (yn amodol ar ddichonolrwydd).
- Gwella mynediad Teithio Llesol o Rogiet – Llwybr troed newydd ar draws maes parcio presennol yr orsaf ac ar hyd Ffordd Dynesu'r Orsaf erbyn 2021, cafodd llwybr troed ar hyd Heol yr Orsaf/Seaview Terrace ei gyflawni eisoes.
- Gwella mynediad Teithio Llesol o Fagwyr – Llwybr troed/beiciau cyfunol newydd ar hyd y B4245 rhwng Rogiet a Gwndy (amodol ar ddichonolrwydd).
- Cyfyngiadau parcio ar draws Rogiet – I atal cymudwyr rhag parcio eu cerbydau yn strydoedd Rogiet, erbyn 2021.
- Adfer maes parcio'r Parc Gwledig - yn cynnwys cyfyngiadau parcio newydd i atal cymudwyr rhag parcio eu cerbyd ym maes parcio'r Parc Gwledig ac atal ei ddefnydd gan ymwelwyr, erbyn 2021.
- Gwella mynediad Teithio Llesol o Gil-y-coed – uwchraddio'r llwybr llaid presennol rhwng mynedfa'r orsaf a Chil-y-coed (amodol ar gyllid).
- Gwella cyfleusterau'r orsaf – mannau cadw ychwanegol ar gyfer beiciau, swyddfa docynnau bosibl, ystafell aros, caffe, paneli solar, cyfnewidfa bysus (amodol ar ddichonolrwydd a chyllid).

**Parcio a Theithio Trefynwy:** Dim cynnydd.

**Gwelliannau i orsaf bws Trefynwy:** Dim gwaith pellach yn 2019/20. Disgwylir y bydd gwelliannau i lochesi ac arddangosiadau gwybodaeth yn ystod 2020/21.

**Cynlluniau Cerdded a Seiclo**

**Links Connect 2 Trefynwy:** Cafodd gweddill rhaglen Links Connect 2 Trefynwy ei ddisodli gan Fapiau Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol Trefynwy. Roedd gwaith yn Nhrefynwy yn 2018/19 yn canolbwyntio ar fwy o waith ar y cynnig am Groesiad Teithio Llesol Trefynwy Gwy.

**Rhwydwaith cerdded a seiclo y Fenni:** Cafodd camau pellach o gynllun parth cyhoeddus canol tref y Fenni ei gwblhau yn 2019/10, gan yn awr ymestyn i ben Stryd Frogmore.

**Croesiad afon cerdded a seiclo Llan-ffwyst –** Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn 2018/19, fodd bynnag gwrthododd Cyfoeth Naturiol Cymru roi Caniatâd Gweithgaredd Risg Llifogydd. Gwrthodwyd apêl Cyngor Sir Fynwy. Mae'r Cyngor wrthi'n edrych ar opsiynau i

| |
|---|
| ostwng y risg llifogydd fel y gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi Caniatâd Gweithgaredd Risg Llifogydd.<br><br>**Mynediad cerddwyr a seiclo Cyffordd Twnnel Hafren:** Gweler uchod<br><br>Bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol yn sôn am gynnydd pellach ar gynlluniau'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol.<br><br>Er na chafodd hynny ei ddynodi'n benodol ym Mholisi MV10, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn dynodi nifer o gynlluniau trafnidiaeth ychwanegol yn Sir Fynwy sydd ar y rhaglen i gael eu cyflenwi yng nghyfnod 2015-2020 a chânt hefyd eu monitro drwy broses yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Un cynllun o'r fath yw gorsaf reilffordd llwybr cerdded newydd Magwyr a Gwndy. Dywedodd Adran Trafnidiaeth Cyngor Sir Fynwy fod gwaith wedi dechrau ar Brosiectau Buddsoddiad Llywodraethiant ar gyfer Rheilffyrdd Network Rail yng nghyswllt yr orsaf arfaethedig, gyda GRIP1 (diffinio allbwn) a GRIP2 (dichonolrwydd) wedi ei gwblhau gyda'r gwaith yn mynd rhagddo ar GRIP 3 (Dewis Opsiynau). Mae'r amserlenni presennol yn rhagweld y caiff y cynllun ei gyflenwi erbyn 2022/23.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r cynnydd ar y cynlluniau uchod mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu os ydynt yn cael eu gweithredu yn unol ag amserlen cyflenwi y Cynllun Trafnidiaeth Lleol. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol Sir Fynwy 2015 wedi disodli Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru 2020. Cafodd y cynlluniau trafnidiaeth a ddynodwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol eu cario ymlaen i'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol – felly cafodd geiriad y dangosydd ei ddiwygio i adlewyrchu hyn.

## Creu Lleoedd a Dylunio

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Diogelu safleoedd ac adeiladau o werth adeiledig a hanesyddol cydnabyddedig. |
| **Polisi Strategol:** | S17 Creu a Dylunio Lleoedd |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a Gefnogwyd:** | 14 & 15 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a Gefnogwyd:** | DES1-4, HE1-4 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destun sylweddol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| 3. Nifer adeiladau rhestredig a safleoedd hanesyddol | Dim ceisiadau i arwain at golli adeiladau rhestredig | Colli mwy nag 1 adeilad rhestredig bob blwyddyn am 3 neu fwy o flynyddoedd olynol* | **Gweler dadansoddiad (1) islaw** |
| 4. Nifer ardaloedd cadwraeth gyda gwerthusiad cymeriad cyfredol | 100% o ddrafft Werthusiadau Ardal Cadwraeth erbyn 2016** | Targed heb ei gyrraedd | **19 wedi eu cwblhau (100%) Gweler dadansoddiad (2) islaw** |
| 5. Sampl o geisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau gyda photensial am oblygiadau dylunio/amgylcheddol sylweddol | Pob datblygiad i gyfrannu at greu amgylchedd ansawdd uchel wedi'i ddylunio'n dda | Canlyniadau monitro yn negyddol | **Gweler dadansoddiad (3) islaw)** |
| 6. Sampl ceisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau gyda'r potensial am effaith sylweddol ar | Dim effaith niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol | Unrhyw ddatblygiad yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol | **Gweler dadansoddiad (4) islaw** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| adeiladau o ddiddordeb hanesyddol/ archeolegol, henebion cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth | | | |
| 7. Achlysuron pan fyddai datblygiad a ganiatawyd wedi cael effaith niweidiol ar adeilad rhestredig, ardal gadwraeth, safle o arwyddocâd archeolegol, neu barc tirlun hanesyddol neu eu gosodiadau | Cynigion datblygu ddim yn cael effaith niweidiol ar adeiladau ac ardaloedd o ddiddordeb adeiledig neu hanesyddol neu eu gosodiad<br>*(2014-15: dim)*<br>*(2015-16: dim)*<br>*(2016-17: dim)*<br>*(2017-18: dim)*<br>*(2018-19:dim)* | Rhoi 1 neu fwy caniatâd cynllunio wedi eu rhoi lle mae gwrthwynebiadau'n dal i fod gan Dîm Cadwraeth y Cyngor, CADW neu GGAT | **Dim wedi eu cofnodi** |

**Dadansoddiad**

3. Nifer adeiladau rhestredig a safleoedd hanesyddol:

| | Dyddiad Sylfaen Cynllun Datblygu Lleol 2011 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adeiladau Rhestredig** | 2146 | 2153 | 2153 | 2152 | 2151 | 2149 |
| **Henebion Cofrestredig** | 169 | 164 | 164 | 164 | 164 | 164 |
| **Parciau a Gerddi Hanesyddol** | 44 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 |
| **Ardaloedd Archeolegol Sensitif** | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| **Tirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |

Cafodd dau Adeilad Rhestredig eu dadrestru dros y cyfnod monitro gan mynd â'r cyfanswm ar draws Sir Fynwy i 2149. Ni fu unrhyw newidiadau yng nghyswllt Henebion Cofrestredig, Paciau Hanesyddol a Gerddi, Ardaloedd Archeolegol Sensitif neu Dirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol.

Ni chyrhaeddwyd y sbardun er y collwyd 2 adeilad rhestredig yn ystod y cyfnod monitro . Cafodd 4 adeilad eu dadrestru ers dechrau monitro yn 2015. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro nifer yr adeiladau rhestredig a safleoedd hanesyddol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn.

4. Yn yr un modd â'r cyfnod monitro blaenorol, ni chafodd unrhyw werthusiadau Ardal Cadwraeth pellach eu mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol yn ystod y cyfnod monitro. Fodd bynnag cafodd cyfanswm o 19 gwerthusiad Ardal Cadwraeth eu mabwysiadu

| |
|---|
| ac felly cyrhaeddwyd y targed o 100% o ddrafft Werthusiadau Ardal Cadwraeth a ddynodwyd erbyn 2016 yng nghyfnod monitro 2015-2016. Caiff y 12 gwerthusiad Ardal Cadwraeth eu datblygu yn y dyfodol os oes adnoddau ar gael. |
| 5. Yn anffodus ni chynhaliwyd taith dylunio Aelodau Pwyllgor Cynllunio 2019-2020 yn ystod y cyfnod monitro hwn oherwydd effaith Covid-19 ddechrau 2020. |
| 6. Mae Tîm Treftadaeth y Cyngor wedi dynodi tri chais sydd â'r potensial am effaith sylweddol ar amgylchedd hanesyddol Sir Fynwy, sef:<br><br>• Tŷ Caerwent, safle a drafodwyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2018-19, adeilad rhestredig mewn risg o fewn Ardal Gadwraeth Caerwent ac ar ffin Heneb Gofrestredig Tref Rufeinig Caerwent. Dechreuodd gwaith ar y safle yn ystod 2019-2020 gyda gwaith strwythurol ar yr adeilad yn mynd rhagddo, a chofnodi ac ymchwiliad yr adeilad i ddeall datblygiad y tŷ yn llawn. Cafodd llawer o'r ffabrig modern ei dynnu er mwyn adfer cymeriad yr adeilad mewn modd cydnaws.<br><br>• White Hart Inn, Brynbuga – rhoddwyd Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer newidiadau i'r adeilad i'w defnyddio fel distyllfa a bar. Bu hyn yn gadarnhaol gan y bu'r adeilad yn wag am gyfnod sylweddol heb ddefnydd. Mae'r gwaith a'r defnydd wedi sicrhau y cafodd adeilad rhestredig ddefnydd cynaliadwy, cafodd achos gorfodaeth hanesyddol ei gau ac mae wedi gwella cymeriad y stryd fawr a'r ardal cadwraeth<br><br>• Banc Lloyds, Trefynwy – rhoddwyd Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer ffurfio mynedfa i'r anabl i'r adeilad. Mae'r safle yn anodd oherwydd agosatrwydd at y Stryd Fawr a'r ffordd, ond hefyd gyfyngiadau'r safle ei hun. Mae'r caniatâd a roddwyd wedi rhoi mynediad i bawb ddod i mewn i'r adeilad, rhoi defnydd parhaus ar gyfer adeilad rhestredig, atal colli banc pwysig ar y stryd fawr, a dyma'r dyluniad sy'n cadw orau gymeriad, ymddangosiad a ffabrig mynedfa adeilad rhestredig amlwg.<br><br>Gan fod yr effeithiau sylweddol a ddynodwyd yn effeithiau cadarnhaol dan yr amgylchedd hanesyddol, ni chafodd y sbardun ei ysgogi ac ystyrir bod polisi 'datblygu mewn Ardaloedd Cadwraeth' cyfredol y Cynllun Datblygu Lleol (HE1) yn gweithio'n effeithlon, fodd bynnag byddwn yn parhau i fonitro datblygiad yn agos o fewn ardaloedd hanesyddol sensitif. |
| 5. Dim ond un caniatâd cynllunio a roddwyd dros y cyfnod monitro gyda gwrthwynebiad yn dal i fod gan Dîm Rheoli Treftadaeth y Cyngor, CADW neu GGAT. Roedd hyn yn ymwneud â newid mewn deunydd o do teils carreg i do llechi naturiol yn Eglwys Sant Pedr Dixton, adeilad rhestredig gradd II*. Asesodd y tîm treftadaeth fod y teils carreg yn rhan sylweddol o bwysigrwydd cyffredinol yr eglwys a'i chymeriad pensaernïol a hanesyddol. Fodd bynnag cafodd y cais ei gymeradwyo gan o bwyso a mesur popeth yr ystyriwyd fod y newid mewn deunydd o fudd i gymuned fel y gallent barhau i ddefnyddio'r eglwys ar gyfer defnydd cymunedol. Drwyddi draw, er y cais uchod, a ystyriwyd o gymharu ag ystyriaethau polisi eraill y Cynllun Datblygu Lleol, mae Polisi S17 yn gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cyngor yn |

| |
|---|
| parhau i fonitro nifer yr adeiladau rhestredig a safleoedd hanesyddol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Diwygio geiriad sbardun i egluro fod y sbardun yn cyfeirio at golli mwy na 1 adeilad rhestredig bob blwyddyn am 3 neu fwy o flynyddoedd yn olynol.

**Diwygio geiriad targed er eglurhad, cyfeirio at y 18 drafft Gwerthusiad Ardal Cadwraeth oedd yn mynd rhagddynt yn y cyfnod yn arwain at fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.

# 6 Fframwaith Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd

**Methodoleg**

6.1 Mae monitro’r Arfarniad o gynaliadwyedd yn ehangu’r asesiad o berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol o gymharu ag Amcanion Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae’r data a gasglwyd yn cynnwys cyfuniad o ddata ansoddol a meintiol gyda sylwebaeth yn y golofn olaf i ddisgrifio’r cynnydd a rhoi argymhelliad. Ni chaiff yr holl ddangosyddion a restrwyd yn wreiddiol yn fframwaith monitro’r Arfarniad eu cynnwys, dim ond ar gyfer y dangosyddion hynny lle mae data ar gael y rhoddir gwybodaeth.

6.2 Mae peth gorgyffwrdd gyda rhai dangosyddion o’r Cynllun Datblygu Lleol, caiff y dangosyddion hyn eu dangos mewn teip trwm gwyrdd er eglurder. Bwriedir i hyn ddangos y cysylltiad rhwng monitro’r Cynllun Datblygu Lleol a monitro’r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Rhoddir sylwebaeth fer er y dylid cyfeirio at Adran 5 Dadansoddiad Polisi y Cynllun Datblygu Lleol i gael gwybodaeth ychwanegol.

6.3 Mae nifer o ddangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd lle na chaiff gwybodaeth ei chyhoeddi’n flynyddol, er enghraifft rai sy’n seiliedig ar y Cyfrifiad. Diben y fframwaith monitro yw adolygu newidiadau yn flynyddol, fel canlyniad ni fydd y rhain o reidrwydd yn ddefnyddiol yn y dyfodol o ran monitro. Cawsant eu cadw er mwyn rhoi llinell sylfaen, gwnaed gwaith i geisio canfod ffynonellau eraill o wybodaeth fodd bynnag ymddengys nad oes dim ar gael.

6.4 Ni aethpwyd â’r system sgorio goleuadau traffig a ddefnyddiwyd ar gyfer Dangosyddion Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol i’w defnyddio gyda monitro’r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Nod yw llawer o ‘r amcanion hyn. Yn ychwanegol, ni fyddai’r Cynllun Datblygu Lleol ar ei ben ei hun yr unig ffactor fyddai angen ei ystyried wrth gyflawni’r nodau hyn. Nid yw monitro’r Arfarniad yn cynnwys targedau o’r fath, yn wahanol i fonitro’r Cynllun Datblygu Lleol, byddai felly’n anodd dehongli’r sylwebaeth yn sgôr goleuadau traffig. Mae’r symbolau sy’n gysylltiedig gyda rhai dangosyddion yn dynodi’r newid cyfeiriad a ddymunir. Mae’r symbolau yn cyfeirio at; (+) cynnydd neu fwy, (-) gostyngiad, llai neu ddim a; (nc) dim newid. Gan fod hyn yn cyfeirio at y chweched tro i’r Arfarniad gael ei fonitro ers mabwysiadu’r Cynllun Datblygu Lleol caiff ei gymharu gyda’r pump Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol gan alluogi tueddiadau i ddod i’r amlwg. Felly, cyferir at y cyfeiriad newid fel sy’n berthnasol yn yr adran sylwebaeth. Defnyddir hyn i asesu cynnydd y Cynllun Datblygu Lleol tuag at gyrraedd y dangosyddion datblygu cynaliadwy a ddynodwyd.

6.5 Mae gwybodaeth a gynhwysir yn fframwaith monitro’r Arfarniad yn bennaf yn cyfeirio at ystod eang o ddata a gynhyrchir yn fewnol, gan wahanol adrannau o’r Cyngor ac yn allanol gan gyrff eraill. Rhoddir troednodyn mewn data allanol i’w dynodi’n rhwydd.

**Monitro’r Arfarniad o Gynaliadwyedd**

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| Hygyrchedd | Rhoi mynediad teg i bob swydd, gwasanaeth a chyfleusterau maent eu hangen, mewn ffordd sy'n gostwng dibyniaeth ar ddefnydd car | **1.** Pellter cyfartalog teithio i'r gwaith (-)<br>**2.** Cyfran o bobl yn teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu seiclo (+).<br>**3. Cyfran y gweithlu sy'n aros yn eu hardaloedd eu hunain ar gyfer gwaith, yn ôl ystadegau teithio i'r gwaith (+).**<br>**4. Cyfran o ddatblygiadau tai a gwblhawyd o fewn neu yn agos at y prif drefi, Aneddiadau Glannau Hafren, Aneddiadau Eilaidd Gwledig a Gwledig Cyffredinol, fel y'u dynodir ym Mholisi S1.**<br>**5.** Canran datblygiadau newydd mawr* o fewn 10 munud ar droed o wasanaeth bws aml a chyson (=) (yn cynnwys | **1.** 21.9km**<br>**2.** 16.7%**<br>**3.** 60.1%*****<br>**4.** Prif Drefi: 60.11%, Glannau Hafren: 24.43%, Aneddiadau Gwledig Eilaidd: 3.65%, Gwledig Cyffredinol: 11.79%<br>**5.** 66.6% | **1 – 2.** Cofnododd Cyfrifiad 2011 fod 16.7% o bobl yn teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu seiclo. Pellter cyfartalog teithio i'r gwaith yw 21.9km. Ni chyhoeddir data tan y Cyfrifiad nesaf yn 2021, ac fel canlyniad ni fedrir cael cymhariaeth ystyrlon tan yr amser hwnnw. Fel y canlyniad bydd y data yn parhau'r un fath mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.<br><br>**3.** Mae ystadegau teithio i'r gwaith Llywodraeth Cymru yn dynodi fod 60.1% o weithlu Sir Fynwy yn aros yn eu hardal eu hunain ar gyfer gwaith. Bu gostyngiad o 0.3% yn y ffigur hwn ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau i'r ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach ac felly mae angen gofal wrth ei drin.<br><br>**4.** Yn y Prif Drefi y cafodd y gyfran fwyaf o anheddau eu cwblhau yn y cyfnod monitro, sef 60.11% o'r cyfanswm (356). Roedd Aneddiadau Glannau Hafren yn cyfrif am gyfanswm o 24.43% gan arwain at gynnydd pellach o gymharu gyda'r cyfnod monitro blaenorol o 16.9%. Roedd 3.65% yn yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd a 11.79% yn Gwledig Cyffredinol sy'n cynnwys ffigurau o'r Prif Bentrefi. Mae'r Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 ar y Strategaeth Ofodol yn rhoi dadansoddiad llawn o'r dangosydd.<br><br>**5.** Roedd pob un o'r 3 cynllun perthnasol yn ymwneud â defnyddiau preswyl. Roedd 2 o'r 3 cynllun o fewn 10 munud ar droed o wasanaeth bws aml a chyson tra bod y cynllun preswyl yn Heol yr Eglwys, Cil-y-coed y tu allan i hynny. Fodd bynnag, mae swyddogion yn nodi fod cynllun Heol yr Eglwys yn cydymffurfio gyda'r Hierarchaeth |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | preswyl, cyflogaeth, manwerthu a chaniatâd hamdden yn unig)' ' | | Trafnidiaeth Gynaliadwy a bod cysylltiadau i gerddwyr ledled y safle yn annog cerdded i Ganol Tref Cil-y-coed lle gellir cael mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus. Cofnododd yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol 100%. Bydd y dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |
| Tai | Darparu ystod o mathau a daliadaethau tai sy'n galluogi pobl i gyflawni eu hanghenion tai | **1.** Pobl mewn angen tai (-)<br>**2. Nifer tai fforddiadwy a gwblhawyd (+)**<br>**3. Nifer tai marchnad gyffredinol a gwblhawyd**<br>**4. Lefel bresennol nifer tai a gwblhawyd wedi ei fonitro o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog*********<br>***5.* Cyfanswm cronnus nifer anheddau a gwblhawyd wedi'i fonitro o gymharu â'r gofyniad cronnus (*Gofyniad Blynyddol Cyfartalog Cronnus)*********<br>**6.** ***Dwysedd anheddau a ganiateir ar safleoedd a*** | **1.** 474 y flwyddyn dros gyfnod 5 mlynedd (dyddiad sylfaen 2017)<br>**2.** 82<br>**3.** 274<br>**4.** -94 uned<br>**5.** -1469 uned<br>**6.** Dyfarnu materion a gadwyd i 2, dwyseddau o 30 a 39<br>**7.** 616 annedd wedi ei caniatau, 219 annedd wedi eu cwblhau<br>**8.** Cwblhau 4 | **1.** Mae Asesiad o'r Farchnad Tai Leol 2017-2022 (Gorffennaf 2018) yn defnyddio dull wahanol i'r un i roi tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Ni fedrir felly gymharu'r canlyniadau yn uniongyrchol. Ni ddylid cymryd y ffigur 474 fel targed ar gyfer darparu tai fforddiadwy gan mai nid cartrefi adeiladu newydd yw'r unig gyflenwad o dai fforddiadwy yn Sir Fynwy. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda landlordiaid preifat i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi preifat ac i ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd. Mae'r ffigurau a'r dadansoddiad o ddaliadaethau yr un fath ag yn Adroddiadau Monitro Blynyddol 2017-2018 a 2018-2019. Mae'r angen rhent cymdeithasol yn 104.83 y flwyddyn, Perchnogaeth Cartrefi Cost Isel (LCHO) yn 237.20 y flwyddyn a'r Rhent Canolraddol yn 96.73 y flwyddyn. Bydd angen i'r angen am berchnogaeth cartrefi cost isel gael ei drin mewn amrywiaeth o ffyrdd yn ogystal ag adeiladau newydd a negodwyd gan y Cyngor. Bydd gan gynlluniau Cymorth i Rhentu a Rhentu i Brynu y Llywodraeth yn ogystal ag ailwerthu cartrefi LCHO rôl sylweddol. Fel y nodir uchod ni ddylid cymryd y ffigur hwn fel targed blynyddol, fodd bynnag mae'n rhoi arwydd o'r amcanestyniad presennol o angen am dai fforddiadwy o fewn y Sir ac yn gosod meincnod y gall y Cyngor weithio ato.<br>**2 – 3.** Cafodd 82 o dai fforddiadwy a 274 o anheddau marchnad eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | *ddyrannwyd (SAH1 – SAH10)*<br>**7.** Nifer yr anheddau a ganiatawyd ac a gafodd eu cwblhau ar safleoedd strategol fel y dynodir ym mholisi S3.<br>**8.** Nifer yr anheddau fforddiadwy a adeiladwyd drwy gynlluniau eithriad gwledig.<br>**9.** Nifer anheddau a ddarparwyd yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi S2. | **9.** Gweler y tabl yn yr adran sylwebaeth | **4 - 5** Yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r ffordd y caiff darpariaeth tai ei fonitro. Mae'r newidiadau yn dileu'r polisi pum mlynedd o gyflenwad tir ac yn lle hynny yn cyflwyno datganiad polisi yn egluro mai'r trywydd tai, fel y'i nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ac a gytunwyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai, fydd y sail ar gyfer monitro cyflenwi gofynion tai y cynllun datblygu fel rhan o Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol. Cafodd dau ddangosydd newydd eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn, sy'n disodli'r dangosydd blaenorol oedd yn mesur y cyflenwad pum mlynedd o dir tai. Mae'r cyntaf o'r dangosyddion hyn yn mesur lefel flynyddol nifer yr anheddau a gwblhawyd wedi'i fonitro o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Roedd y ffigur hwn yn -94 annedd (-20.9%) yn 2019-20. Mae'r ail o'r mesurau dangosydd hyn yn mesur cyfanswm cronnus yr anheddau a gwblhawyd wedi'i fonitro o gymharu â'r gofyniad cronnus (Gofyniad Blynyddol Cyfartalog Cronnus). Yn 2019-2020 roedd y ffigur hwn yn -1469 annedd (-36.3%). Mae'r Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn ymwneud â Darpariaeth Tai yn rhoi dadansoddiad llawn o'r dangosyddion newydd.<br><br>**6.** Ni roddwyd caniatâd i unrhyw safleoedd ychwanegol yn ystod y cyfnod monitro presennol, fodd bynnag roedd dau safle y cyfeiriwyd atynt mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol yn destun caniatâd materion a gadwyd sydd wedi effeithio ar nifer yr unedau i gael eu cyflenwi ar y ddau safle ac felly ddwysedd. Cafodd safle Heol Crug SAH1 ym Mhorthysgewin gymeradwyaeth materion a gadwyd ar gyfer 269 annedd, gan arwain at ddwysedd o 30dpha (anheddau fesul hectar). Cafodd safle Fairfield Mabey SAH3 yng Nghas-gwent |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gymeradwyaeth materion a gadwyd ar gyfer 347 annedd yn gyfwerth â 39dpha. Mae'r Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn ymwneud â darpariaeth tai yn rhoi dadansoddiad llawn o'r dangosydd yma.<br><br>**7.** Bu cynnydd bach yn nifer yr anheddau a gafodd eu cwblhau ar safleoedd strategol dros y cyfnod monitro (cwblhau 219 yn 2019-2020) o gymharu â'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol (cwblhau 210 annedd 2018-2019). Mae'r rhan fwyaf o'r anheddau a gwblhawyd ar safleoedd strategol (74) yn ymwneud â safle SAH4 Heol Wonastow, a'r gweddill yn ymwneud â safle SAH1 Fferm Deri (68), safle SAH7 Melin Bapur Sudbrook (61) a safle SAH5 Fferm Rockfield, Gwndy (16).<br><br>**8.** Cafodd 4 annedd eu cwblhau yn gysylltiedig â chynlluniau eithriad gwledig dros y cyfnod monitro. Cafodd y cartrefi eu cyflenwi ar safle eithriad gwledig yn Llandeilo Gresynni. Mae'r safle yn safle 100% tai fforddiadwy, a gyflenwyd gan Gymdeithas Tai Sir Fynwy.<br><br>**9.** Mae'r tabl islaw'n rhoi dadansoddiad o'r 356 annedd a gwblhawyd, o gymharu â'r hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi S2. Mae'r dadansoddiad polisi yn Adran 5 yng nghyswllt y Strategaeth Ofodol yn rhoi dadansoddiad llawn o'r dangosydd hwn. |

| | 2019 – 2020 | Targed |
|---|---|---|
| **Prif Drefi** | 60.11% | *41%* |
| **Glannau Hafren** | 24.43% | *33%* |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Gwledig Eilaidd** 3.65% *10%*<br>**Gwledig Cyffredinol** 11.79% *16%*<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |
| Iechyd, diogelwch a sicrwydd | Gwella iechyd a llesiant drwy annog ffyrdd o fyw mwy iach, a gwarchod pobl rhag risg a all effeithio ar eu hiechyd a/neu ddiogelwch | **1.** Faint o ofod agored a gafodd ei greu fel canlyniad i ganiatâd cynllunio | **1.** 12.7 ha. | **1.** Cafodd 12.7ha o ofod agored ychwanegol ei gymeradwyo fel canlyniad i ganiatâd cynllunio dros y cyfnod monitro. Caiff y data hwn ei gasglu o ffurflenni statudol Rheol Datblygu ac mae'n eithrio unrhyw gais amlinellol neu gais sy'n disgwyl llofnodi cytundebau A106. Mae hyn yn dangos bod datblygiadau a ganiateir drwy'r broses cynllunio yn llwyddiannus wrth hwyluso darpariaeth gofodau agored newydd.<br>**Parhau i fonitro amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |
| Cymuned | Cefnogi a hyrwyddo cymeriad neilltuol cymunedau lleol a chydlyniaeth gymunedol | **1. Nifer y cyfleusterau cymunedol a hamdden a gafodd ganiatâd cynllunio (+)**<br>**2. Faint o gyfleusterau cymunedol a hamdden a gollwyd i ddefnyddiau eraill.**<br>**3. Faint o ofod agored cyhoeddus/caeau chwarae a gollwyd i ddatblygiad heb ei ddyrannu yn y cynllun datblygu** | **1.** 12<br>**2.** 4<br>**3.** 0.1ha | **1.** Cafodd deuddeg cais cynllunio ganiatâd cynllunio ar gyfer defnyddiau cymunedol a hamdden dros y cyfnod monitro. Mae pump o'r deuddeg cais yn cyfeirio at ddefnyddiau hamdden a saith at ddefnyddiau cymunedol. Mae hyn yn gynnydd yn nifer y cyfleusterau cymunedol/hamdden a roddwyd yn y ddau Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol (2018-2019; 8, 2017-2018; 10) ac mae felly'n cyrraedd y cyfeiriad newid a ddymunir. I gael manylion pellach gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn ymwneud â Chyfleusterau Cymunedol a Hamdden.<br><br>**2.** Collwyd pedwar cyfleuster cymunedol dros y cyfnod monitro. Er bod y data a gasglwyd yn dangos y cafodd pedwar cyfleuster cymunedol eu colli i ddefnyddiau eraill dros y cyfnod monitro ac wedyn y cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer y dangosydd, mae cyfiawnhad am eu |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | | | colled o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol. I gael manylion pellach gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn ymwneud â Chyfleusterau Cymunedol a Hamdden.<br><br>**3.** Rhoddwyd 2 ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro ar ardaloedd o ofod agored nad oedd wedi eu dyrannu ar gyfer datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol yn gyfanswm o 0.1 hectar. Roedd cyfiawnhad am y ddau gais ar y sail fod mwyafrif yr ardaloedd datblygu a gynigiwyd ar dir llwyd oedd wedi ei ddatblygu'n flaenorol a bod colled yr ardal amwynder yn sgil-effaith ac yn golled fach iawn yng nghyd-destun cyfanswm arwynebedd y safleoedd. I gael manylion pellach gweler t Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn cyfeirio at Tirlun, Seilwedd Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |
| Bioamrywiaeth | Diogelu, gwerthfawrogi, rheoli a gwella ecosystemau iach, cynefinoedd ac amrywiaeth rhywogaethau naturiol, gan werthfawrogi buddiannau cadwraeth natur ym mhob man y'i gwelir. | **1. Datblygiadau a ganiatawyd sy'n niweidio gwerth cyffredinol dadwraeth natur safleoedd a ddyrannwyd yn lleol (-)**<br>**2. Nifer datblygiadau newydd yn cyflenwi creu ac adfer cynefinoedd**<br>**3.** Hectarau o goetiroedd hynafol a gollir i ddatblygiad (-) | **1.** 2 gais<br>**2.** 0<br>**3.** Gallai 0.05ha o goetir hynafol fod wedi ei golli i ddatblygiad<br>**4.** 3 | **1.** Caniatawyd dau gais dros y cyfnod monitro fydd yn niweidio gwerth cadwraeth natur cyffredinol safleoedd a ddynodwyd yn lleol. Mae'r cyntaf yn ymwneud ag amnewid sied o fewn Safle Pwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC) Dôl Cuckoos Row. Bydd yr ail gais yn arwain at golli coetir hynafol o fewn ffin SINC Coedwig Percus oherwydd adeiladu cyfleuster newydd personoleiddio cerbyd. I gael manylion pellach gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5, yn cyfeirio at Dirlun, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol .<br>**2.** Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau yn benodol ar gyfer creu ac adfer cynefinoedd yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>**3.** Gellid colli cyfran fach iawn o goetir hynafol fel canlyniad i un cais a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro a allai arwain at golli 0.05ha |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | **4. Datblygiad a ganiateir o fewn ardaloedd cadwraeth natur sy'n bwysig yn rhyngwladol/ cenedlaethol** | | o goetir hynafol. Nodwyd colled 0.0125ha yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol sy'n is na'r cyfnod monitro presennol, felly ni chyflawnwyd y cyfeiriad newid a ddymunid. Bydd y dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro'n agos yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf.<br><br>**4.** Caniatawyd 3 datblygiad o fewn ardaloedd cadwraeth natur rhyngwladol/cenedlaethol bwysig yn ystod y cyfnod monitro, i gyd o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI). I gael manylion pellach gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn ymwneud â Tirlun, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |
| Tirlun | Cynnal a gwella ansawdd a chymeriad y tirlun, yn cynnwys ei gyfraniad i osodiad a chymeriad aneddiadau | **1.** Nifer y coed a ddiogelwyd gan Orchymyn Cadwraeth Coed a gollwyd i ddatblygiad (-) | **1.** 0 coeden a ddiogelwyd gan Orchymyn Cadwraeth Coed wedi'u colli | **1.** Ni chollwyd unrhyw goed Gorchymyn Cadwraeth Coed i ddatblygiad yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu gyda'r Adroddiad Monitro Blynyddol (3 coeden), felly cafodd y cyfeiriad newid a ddymunid ei gyflawni.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |
| Amgylchedd Adeiledig | Cynnal a gwella'r amgylchedd adeiledig ar gyfer ei gymeriad gweledol a | **1. Rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy a carbon isel.** | **1.** 6<br>**2.** 1<br>**3.** N/A | **1.** Cymeradwywyd chwe chais ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle yn ystod y cyfnod monitro. Roedd tri o'r ceisiadau hyn ar gyfer datblygiad graddfa fach o baneli solar, roedd dau gais yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy biomas a'r olaf am bwmp gwres o'r ddaear. Mae hyn yn cymharu gyda chyfanswm o dri chynllun yn yr Adroddiad |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | neilltuolrwydd a chreu amgylchedd byw gwell | **2. Nifer datblygiadau newydd a gwblhawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle (h.y. caniatâd yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol a gwblhawyd yn ystod cyfnod monitro 2019-2020)**<br>**3. Sampl o geisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau gyda'r potensial am oblygiadau dylunio/ amgylcheddol sylweddol** | | Monitro Blynyddol blaenorol. I gael manylion pellach gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 ar Ddefnydd Effeithiol o Adnoddau a Risg Llifogydd.<br><br>**2.** Cafodd un cynllun yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle ei gwblhau dros y cyfnod monitro, sef boeler sglodion pren 110KW yn Mill Farm Llandingad. Roedd hwn yn gais ôl-weithredol ac felly ystyrir bod y cynllun wedi ei gwblhau.<br><br>**3.** Yn anffodus ni chynhaliwyd taith dylunio 2019-2020 Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn ystod y cyfnod monitro hwn oherwydd effaith Covid-19 ddechrau 2020.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr Asesiad Cynaliadwyaeth.** |
| Treftadaeth hanesyddol | Deall, gwerthfawrogi, diogelu ac adfer, lle mae angen, dreftadaeth ddiwylliannol hanesyddol yr ardal, yn cynnwys nodweddion o'r amgylchedd | **1. Nifer adeiladau rhestredig a safleoedd hanesyddol (-)**<br>**2. Sampl o geisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau gyda'r potensial am effaith sylweddol ar adeiladau o** | **1.** Adeiladau Rhestredig: 2149, Henebion Cofrestredig: 164, Parciau a Gerddi Hanesyddol: 45, Ardaloedd | **1.** Cafodd dau adeilad rhestredig eu dadrestru gan CADW dros y cyfnod monitro. Nid oedd unrhyw newidiadau eraill yng nghyswllt Henebion Cofrestredig, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Ardaloedd Archeolegol Sensitif neu Dirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol dros y cyfnod monitro. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | adeiledig a lled-naturiol | **ddiddordeb hanesyddol/ archeolegol, henebion cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth y cafodd datblygu effaith niweidiol arnynt.**<br>**3.** **Nifer ardaloedd cadwraeth gyda gwerthusiad cymeriad cyfredol.** | **2.** Archeolegol Sensitif: 10 a Thirluniau o Bwysigrwydd Hanesyddol: 3<br>**3.** N/A<br>**4.** 19 arfarniad cymeriad Ardal Cadwraeth cyfredol. | **2.** Yn anffodus ni chynhaliwyd taith dylunio 2019-2020 Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn ystod y cyfnod monitro hwn oherwydd effaith Covid-19 ddechrau 2020.<br><br>**3.** Cafodd cyfanswm o 19 Gwerthusiad Ardal Cadwraeth eu cynhyrchu a'u mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Gweler y Dadansoddiad o Bolisi Creu Lleoedd a Dylunio yn Adran 5 i gael manylion pellach.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |
| Aer | Gostwng pob math o halogiad aer er budd ansawdd aer lleol ac ansawdd yr awyrgylch i ddiogelu rhag newid hinsawdd | **1.** Nifer lleoliadau lle mae ansawdd aer yn uwch na lefelau'r amcan fesul blwyddyn (-)<br>**2.** Canran pobl a gyflogwyd yn defnyddio eu car/fan fel eu prif ffordd o deithio i ac o'r gwaith naill ai drwy yrru neu fel teithiwr (-)<br>**3.** Cyfran pobl a gyflogwyd yn teithio i'r gwaith gan drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu seiclo (+) | **1.** 1 lleoliad yng Nghas-gwent<br>**2.** 81.4%**<br>**3.** 16.7%** | **1.** Dim ond un lleoliad aeth dros lefel blynyddol yr amcan o nitrogen deuocsid yn 2019, sef Rhiw Hardwick yng Nghas-gwent, yr un lleoliad ag yn y pedair blynedd blaenorol. Am y bedwaredd blwyddyn yn olynol ni thorrwyd yr amcan ym Mrynbuga. Er na fu unrhyw welliant, mae'n galonogol nad oes unrhyw leoliadau ychwanegol sy'n torri lefel amcan ansawdd aer. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.<br><br>**2 – 3.** Cofnododd Cyfrifiad 2011 fod 16.7% o bobl yn teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu seiclo. Daw ystadegau y dull cymudo hefyd o Gyfrifiad 2011 a ddynododd fod 81.4% o bobl a gyflogwyd yn defnyddio eu car/fan fel eu prif ddull o deithio i ac o'r gwaith. Ni chyhoeddir data tan y Cyfrifiad nesaf yn 2021, ac fel canlyniad ni fedrir cael cymhariaeth ystyrlon tan hynny. Bydd y data hwn felly'n aros yr un fath yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Parhau i fonitro amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |
| Ansawdd dŵr | Cynnal a gwella ansawdd dŵr daear, dŵr wyneb a dŵr arfordirol | **1.** % afonydd yn cyrraedd statws ansawdd dŵr 'da' (+)<br>**2.** Cyfran o'r safleoedd a ddyrannwyd a phob datblygiad arall dros 10 annedd /1ha sy'n cynnwys SUDS (+) | **1.** 32%***<br>**2.** 4 o 10 | **1.** Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyfuno statws ecolegol a chemegol yn ei adroddiadau, bydd angen i'r corff dŵr wyneb gyrraedd statws da yn y ddwy elfen er mwyn cyrraedd 'statws da' cyffredinol. Yn Nosbarthiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2018 (interim) diweddaraf, mae gan 32% o afonydd Si Fynwy statws Da.<br><br>**3.** Mae pob un o'r deg cais cymwys a ganiatawyd yn gysylltiedig â chynlluniau preswyl. Roedd pedwar o'r cynlluniau preswyl yn cynnwys SuDS yn amrywio o ddefnydd pantiau a phyllau i gasgenni dŵr ar gyfer lleiniau unigol. Nid oedd gweddill y cynlluniau yn cynnwys unrhyw gynigion i gynnwys SuDS, er y nodir fod gan ddau o'r cynlluniau preswyl arall ganiatâd i wanhau cyrsiau dŵr presennol, tra cafodd y 4 cais arall eu cyflwyno a'u dilysu cyn i'r Rheoliadau Draeniad Cynaliadwy ddod i rym. Er nad oedd SuDS wedi eu hymgorffori'n llawn yn yr holl ddatblygiadau mawr dros y cyfnod monitro, ymddengys fod cyfiawnhad am ddiffyg SuDS mewn llawer o'r achosion a chaiff y rhesymu tu ôl i ddiffyg SuDS ei gydnabod o fewn rhai o fanylion y cais ac adroddiadau swyddogion. Mae nifer y datblygiadau mawr a ganiatawyd wedi gostwng ers y cyfnod monitro blaenorol pan ganiatawyd 7 cynllun o'r fath. Cafodd y gyfran o gynlluniau sy'n cynnwys SuDS ei gynyddu i 40% o gymharu â'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol a gofnododd 23% (2018-2019). Mae'n debyg fod y cynnydd hwn oherwydd y rheoliadau newydd a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2019. Caiff y dangosydd hwn ei fonitro'n agos yn yr Adroddiad Monitro Blaenorol nesaf. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Parhau i fonitro amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |
| Cyflenwad dŵr | Cynnal ansawdd y dŵr sydd ar gael yn cynnwys cyflenwadau dŵr yfed, a lefelau dŵr daear ac afonydd | **1.** Cyfran cyrff dŵr daear yn cyrraedd statws ansawdd 'da' (+) | **1.** 100%*** | **1.** Mae Sir Fynwy o fewn tri chorff dŵr daear, Hen Dywodfaen Coch Defonaidd a Chalchfaen Carbonifferaidd deheuol Wysg a Gwy. Mae gan bob un o'r tri chorff dŵr daear statws da am ansawdd yng nghyfnod monitro 2015. Erbyn hyn nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynhyrchu dosbarthiad blynyddol ac fel canlyniad mae'r ffigurau yn aros yr un fath ag ar gyfer y pedwar cyfnod monitro blaenorol. Serch hynny cynhyrchir y dosbarthiad nesaf ar gyfer y Canllawiau Rheoli Basin Afonydd diweddaraf a dylent fod wedi eu paratoi'n mewn pryd ar gyfer yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |
| Risg llifogydd | Sicrhau y caiff datblygiad newydd ei gynllunio a'i leoli i osgoi risg llifogydd, a sicrhau na chaiff risg llifogydd ei godi mewn man arall | **1. Nifer caniatâd ar gyfer datblygu ym Mharthau Llifogydd C1 a C2 heb fod yn cyrraedd holl brofion TAN 15(-)**<br>**2.** Canran y safleoedd a ddyrannwyd a'r holl ddatblygiadau eraill dros 10 annedd/1ha sy'n cynnwys SUDS (+)<br>**3.** Achosion lle bu llif isel mewn afonydd yn ystod yr haf (-) | **1.** 0<br>**2.** 4 o 10<br>**3.** 3*** | **1.** Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw geisiadau yn groes i ofynion TAN15 yng ngorlifdir naill ai Parth C1 na C2 dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn atgynhyrchu canlyniadau'r cyfnod monitro blaenorol.<br><br>**2.** Mae pob un o'r deg cais cymwys a ganiatawyd yn gysylltiedig â chynlluniau preswyl. Roedd pedwar o'r cynlluniau preswyl yn cynnwys SuDS yn amrywio o ddefnydd pantiau a phyllau i gasgenni dŵr ar gyfer lleiniau unigol. Nid oedd gweddill y cynlluniau yn cynnwys unrhyw gynigion i gynnwys SuDS, er y nodir fod gan ddau o'r cynlluniau preswyl arall ganiatâd i wanhau cyrsiau dŵr presennol, tra cafodd y 4 cais arall eu cyflwyno a'u dilysu cyn i'r Rheoliadau Draeniad Cynaliadwy ddod i rym. Er nad oedd SuDS wedi eu hymgorffori'n llawn yn yr holl ddatblygiadau mawr dros y cyfnod monitro, ymddengys fod cyfiawnhad am ddiffyg SuDS mewn llawer o'r achosion a chaiff y rhesymu tu ôl i ddiffyg SuDS ei gydnabod o fewn rhai o fanylion y cais ac adroddiadau swyddogion. Mae nifer y datblygiadau mawr a |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ganiatawyd wedi gostwng ers y cyfnod monitro blaenorol pan ganiatawyd 7 cynllun o'r fath. Cafodd y gyfran o gynlluniau sy'n cynnwys SuDS ei gynyddu i 40% o gymharu â'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol a gofnododd 23% (2018-2019). Mae'n debyg fod y cynnydd hwn oherwydd y rheoliadau newydd a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2019. Caiff y dangosydd hwn ei fonitro'n agos yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf.<br><br>**3.** Mae tair gorsaf allweddol monitro afonydd yn Sir Fynwy ar yr Afon Wysg, yr Afon Gwy a'r Afon Mynwy. Mae data'r llif yn seiliedig ar y dyddiau lle buont yn is na llif Q95 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Q95 yw'r 95ed canradd, sy'n golygu fod llif yn fwy na hyn am 95% o'r amser ac yn is na hyn am 5% o'r amser. Ar gyfartaledd mae llif dan C95 am tua 18 diwrnod y flwyddyn. Caiff yn aml ei ddefnyddio fel dangosydd nodweddiadol o lif isel yr haf. Yn y cyfnod monitro diwethaf cofnododd pob un o'r tair gorsaf monitro lif o fwy na Q95. Er i bob un o'r tair gorsaf monitro gofnodi llif oedd wedi parhau yn uwch na Q95, roedd llif yn y brif Afon Wysg ar eu huchaf rhwng 17 Mai a 12 Mehefin 2019 oherwydd i Dŵr Cymru ryddhau dŵr yn ôl y rheoliad o Gronfa Ddŵr Wysg. Mae hyn yn gyson gydag Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol heblaw am Adroddiad 2018-19 lle cofnododd pob un o'r tair gorsaf monitro llif dan Q95 am fwy na 18 diwrnod.<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |
| Mwynau a gwastraff | Sicrhau y caiff deunyddiau a mwynau sylfaenol | **1. Nifer datblygiadau parhaol an-fwynol a ganiateir ar safleoedd a** | **1.** 0<br>**2.** 61.60%**** | **1.** Ni chytunwyd i unrhyw geisiadau ar gyfer datblygiadau an-fwynol parhaol ar safleoedd a ddiogelir nad oedd yn cydymffurfio â Pholisi M2 |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy drwy ddiogelu ardaloedd mwynau, annog ail-ddefnydd ac ailgylchu ac osgoi gwarediad terfynol adnoddau | **ddiogelir nad ydynt yn cydymffurfio gyda Pholisi M2(-)**<br>**2.** Cyfran casgliadau gwastraff cartrefi Sir Fynwy a gaiff eu hailgylchu a'u compostio (+)<br>**3. Faint o gapasiti rheoli dŵr a ganiateir a fynegir fel canran o'r cyfanswm capasiti gofynnol fel y'i dynodir yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol**<br>**4. Faint o adnoddau agregau sylfaenol ar dir fel canran o'r cyfanswm capasiti a ddynodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol** | **3.** 0ha wedi ei ganiatau<br>**4.** 0 | yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn debyg i'r cyfnod monitro blaenorol .<br><br>**2**. Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer cyfnod 2018-2019 sy'n awgrymu fod 61.60% o gyfanswm gwastraff cartrefi Sir Fynwy yn cael ei ailgylchu neu ei gompostio (yn seiliedig ar wastraff bwrdeisiol a gasglwyd/gynhyrchwyd yn unol â'r dangosydd). Bu gostyngiad bach yn hyn ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol dilynol oedd yn dangos y cafodd 6241% ei ailgylchu neu ei gompostio. Byddir yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.<br><br>**3**. Ni roddwyd unrhyw ganiatâd ar gyfer capasiti rheoli gwastraff yn ystod y cyfnod monitro. I gael mwy o wybodaeth gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn ymwneud â Gwastraff.<br><br>**4.** Ni chafodd unrhyw agregau sylfaenol ar dir eu cloddio yn ystod y cyfnod monitro. Ni fu felly unrhyw ostyngiad yn y gronfa dir yn Sir Fynwy. I gael mwy o wybodaeth gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn ymwneud â Mwynau.<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |
| Tir/pridd | Defnyddio tir yn effeithol drwy flaenoriaethu datblygu ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol lle'n | **1. Cyfran datblygiad a ganiateir ar dir glas fel canran o'r holl ddatblygiad, ac eithrio deiliaid tai, addasiadau** | **1.** 79.1%<br>**2.** 18.27ha<br>**3.** 27.84dpha<br>**4.** 7.3ha (a gollwyd o bosibl) | **1**. Caniatawyd i gyfanswm o 25.03 hectar o ddatblygiad dros y cyfnod monitro, 19.79ha ohono ar safleoedd tir glas Roedd hyn yn gyfwerth â 79.1% o bob datblygiad (ac eithrio deiliaid tai, addasiadau ac adeiladau amaethyddol) yn cael eu caniatáu ar dir glas. Mae gan y safle yn Heol yr Eglwys gymeradwyaeth materion a gadwyd ar gyfer 130 annedd ac mae'r safle hwn (10.09ha) ynghyd â safle Well Lane yn Devauden |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | bosibl, a defnyddio tir presennol yn effeithiol drwy fynd i'r afael â halogi a diogelu pridd amaethyddol gradd uwch | **ac adeiladau amaethyddol (nc neu -)**<br>**2. Faint o dir glas a gollwyd i ddatblygiad na chafodd ei ddyrannu yn y cynllun datblygu**<br>**3.** Dwyseddau cyfartalog blynyddol o ddatblygiadau tai newydd (+)<br>**4.** Hectarau o dir amaethyddol Gradd 3a a gwell a gollwyd i ddatblygiad mawr* (ac eithrio dyraniadau yn y Cynllun Datblygu Lleol a datblygu amaethyddol) | | (SAH11 (ii)) (1.34ha) yn cyfrif am 11.43ha (57.8%) o ddatblygiad tir glas. Mae faint o dir glas a ganiateir ar gyfer datblygu yn is na'r ddau gyfnod monitro blaenorol (2018-2019; 25.27ha, 2017-2018; 32.12ha).<br><br>**2.** Dros y cyfnod monitro rhoddwyd 34 caniatâd ar dir glas heb ei ddyrannu ar gyfer datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol, yn gyfanswm o 18.27 hectar. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar yr Adroddiad Monitro Blynyddol diwethaf (9.71ha) a hwn yw'r swm trydydd uchaf o dir glas heb ei ddyrannu a ganiatawyd. (2014-15 – 26ha, 2015-16 – 44.6ha, 2016-17 – 16.5ha, 2017-18 – 8.98ha). I gael manylion pellach gweler y Dadansoddiad Polisi Tirlun, Seilwaith Gwyrdd ac Amgylchedd Naturiol yn Adran 5.<br><br>**3.** Mae'r dwysedd cyfartalog blynyddol ar gyfer pob datblygiad ai newydd yn gyfwerth â 23.65 annedd fesul hectar. Mae'r ffigur hwn yn is na'r Adroddiad Monitro Blynyddol diwethaf (27.95) ac Adroddiad 2017-2018 (29.1). Fodd bynnag, mae ychydig yn uwch na'r tri Adroddiad cyntaf a gofnododd 23.5 (2016-2017) 22 (2015-2016) a 21 (2014 - 2015) annedd fesul hectar, gan ddangos enilliad yn y cyfnod ers hynny gyda felly gynnydd cadarnhaol. Ymhellach, er fod y ffigur yn is na tharged y Cynllun Datblygu Lleol o 30 annedd fesul hectar, dim ond 7 cais ar gyfer safleoedd o dros 10 dros y cyfnod monitro.<br><br>**4.** Gallai tua 7.3ha o dir amaethyddol Gradd 3a ac uwch fod wedi ei golli i ddatblygiad mawr dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn cyfeirio at safle Heol yr Eglwys yng Nghil-y-coed sydd â chaniatâd cynllunio materion a gadwyd ar gyfer 130 annedd. Cymeradwyodd y Pwyllgor Cynllunio y cais cynllunio amlinellol ym mis Ebrill 2019 ac ers hynny cafodd |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gymeradwyaeth materion a gadwyd ym mis Mawrth 2020. Cynhaliwyd asesiad o dir amaethyddol ar gyfer y safle sy'n dweud y caiff y safle ei ddosbarthu fel 'gorau a mwyaf hyblyg' fodd bynnag mae'r asesiad yn nodi fod y safle ar ben isaf y raddfa hon ac nad yw'n addas yn ymarferol ar gyfer defnydd amaethyddol helaeth.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |
| Ynni | Sicrhau gwelliannau effeithiolrwydd ynni ym mhob adeilad newydd ac annog cynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy | **1. Nifer datblygiadau a newydd a gwblhawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle (h.y. caniatâd yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol a gwblhawyd dros gyfnod monitro 2019-2020)** | **1.** 1 | **1.** Cafodd un cynllun yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle ei gwblhau dros y cyfnod monitro; sef boeler sglodion coed 110KW yn Mill Farm Llanddingad ac roedd yn gais ôl-weithredol ac felly ystyrir fod y cynllun hwn wedi ei gwblhau.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |
| Cyflogaeth | Darparu ystod o swyddi o fewn Sir Fynwy sy'n helpu i ddiwallu anghenion y gweithlu preswyl | **1. Cyflenwad net tir cyflogaeth/datblygiad a defnydd tir cyflogaeth (+)**<br>**2. Faint o dir cyflogaeth a gollwyd i ddefnyddiau heblaw cyflogaeth** | **1.** Cyflenwad<br>**2.** 40.16ha, Defnydd 3.7364ha<br>**3.** 0ha<br>**4.** 60.1%*****<br>**5.** 21.9km**<br>**6.** Y Fenni: 6.6%, | **1.** Dynododd y Papur Cefndir Tir Cyflogaeth fod 40.16ha o dir cyflogaeth ar gael ar draws y Sir (mae'r cyflenwad yn cyfeirio at SAE1 Safleoedd Diwydiannol a Busnes a ddynodwyd yn unig) gan olygu fod digonedd o dir cyflogaeth yn parhau i fod ar gael. Mae cyfradd defnydd cyflogaeth yn 3.7364ha dros y cyfnod monitro. Mae'r defnydd[6] yn uwch nag yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol diwethaf (0.873ha). I gael mwy o wybodaeth gweler y Dadansoddiad Polisi Economi a Menter yn Adran 5. |

[6] Mae'r defnydd o dir cyflogaeth yn cyfeirio at SAE1 Safleoedd Diwydiannol a Busnes a Ddynodwyd, SAE2 Safleoedd Cyflogaeth a Warchodir a Safleoedd Defnydd Cymysg

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | **3. Cyfran y gweithlu preswyl sy'n gweithio yn Sir Fynwy (+)**<br>**4.** Pellter cyfartalog teithio i'r gwaith (-)<br>**5. Canran unedau gwag o fewn pob canol tref a chanolfan leol** | Cil-y-coed: 7.6%, Cas-gwent: 11.2%, Trefynwy: 14.4%, Magwyr: 13.6%, Rhaglan: 9%, Brynbuga 15.3% | **2.** Ni roddwyd unrhyw geisiadau newydd yn y cyfnod monitro oedd yn ymwneud â cholli defnyddiau B ar safleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, cafodd materion a godwyd ar gyfer datblygu cartref gofal fel rhan o SAH2 – safle a gafodd ei ddyrannu yn Heol Crug, Porthysgewin. Er nad mewn gwirionedd yn gyflogaeth B1 mae cartref gofal yn cynrychioli math gwahanol o gyflogaeth a byddai'n arwain at greu swyddi ar y safle. I gael mwy o wybodaeth gweler y Dadansoddiad Polisi Economi a Menter yn Adran 5.<br><br>3.Mae ystadegau teithio i'r gwaith Llywodraeth Cymru yn dynodi fod 60.1% o weithlu Sir Fynwy yn aros yn eu hardal eu hunain ar gyfer gwaith. Bu gostyngiad o 0.3% yn y ffigur hwn ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau i'r ffigurau gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach ac felly dylid bod yn ofalus wrth ei drin.<br><br>**5.** Mae pellter cyfartalog teithio i'r gwaith yn 21.9km. Ni chaiff data ei gyhoeddi tan y Cyfrifiad nesaf yn 2021, fel canlyniad ni fyddir yn medru cael cymhariaeth ystyrlon tan hynny. Felly bydd y data hwn yn parhau'r un fath mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.<br><br>5. Roedd y cyfraddau unedau gwag yn yr Ardaloedd Siopa Canolog ar gyfer holl ganol trefi a chanolfannau lleol y Sir, ac eithrio Trefynwy (14.4%), Magwyr (13.6%) a Brynbuga (15.3%) islaw cyfradd unedau gwag stryd fawr y Deyrnas Unedig (12.1% Rhagfyr 2019, Cwmni Data Lleol). I gael manylion llawn gweler y Dadansoddiad Polisi Manwerthu yn Adran 5. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Parhau i fonitro amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |
| Creu cyfoeth | Codi ffyniant ac ansawdd bywyd ar gyfer datblygu economi lleol mwy hunangynhaliol gan annog twf cynhenid | **1.** Ystod o safleoedd SAE1/SAE2/Safle Defnydd Cymysg a ddynodwyd ar gael, dosbarthiad a maint<br>**2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth yn ôl anheddiad**<br>**3. Caniatâd cyflogaeth a roddwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth yn ôl sector**<br>**4. Cyfran o'r gweithlu preswyl yn gweithio yn Sir Fynwy (+)**<br>**5. Nifer pobl yn teithio i Sir Fynwy i weithio**<br>**6. Nifer pobl yn teithio allan o Sir i weithio**<br>**7.** Gwariant twristiaeth (+)<br>**8. Nifer cynlluniau arallgyfeirio gwledig/ menter a gymeradwywyd.** | **1.** Gweler y tabl yn yr adran sylwebaeth<br>**2.** Prif Drefi: 0.11ha, Glannau Hafren: 0.92ha, Aneddiadau Gwledig Eilaidd: 0.01ha, Gwledig Cyffredinol: 0.096ha<br>**3.** Gweler y tabl yn yr adran sylwebaeth.<br>**4.** 60.1%*****<br>**5.** 18,900*****<br>**6.** 17,700*****<br>**7.** £244.99 miliwn ******<br>**8.** 15<br>**9.** 17<br>**10.** 7 | **1.** Mae'r tabl islaw yn dynodi'r ystod o safleoedd cyflogaeth ar draws y Sir yn ôl lleoliad ynghyd â maint y safleoedd sydd ar gael. Er bod cyfran fawr o dir ym Magwyr, mae dosbarthiad ar draws y Prif Drefi a rhai o'r Aneddiadau Gwledig Eilaidd. |

| Cyfeirnod Safle | Enw/Lleoliad Safle | Dosbarth Defnydd Safle | Tir gweddilliol ar gael) |
|---|---|---|---|
| SAE1a | Wales One, Magwyr (gorllewin) | B1 | 4.0 |
| SAE1b | Quay Point, Magwyr | B1/B2/B8 | 13.76 |
| SAE1c | Gwent Europark, Magwyr | B8 | 13.3 |
| SAE1d | Westgate, Llan-ffwyst | B1/B2 | 1.3 |
| SAE1e | Heol Rhosan, Y Fenni | B1/B2 | 1.5 |
| SAE1f | Fferm Newhouse, Cas-gwent | B2/B8 | 4.0 |
| SAE1g | South Woodside, Brynbuga | B1 | 1.3 |
| SAE1h | Pill Row, Cil-y-coed | B1/B8 | 1.0 |
| SAE2w | Wales One, Magwyr | B1/B2/B8 | 0.57 |
| SAH2 | Heol Crug, Porthysgewin | B1 | 1.0 |
| SAH3 | Fairfield Mabey, Cas-gwent | B1 | 0.65 |

<table>
<tr><th>Pennawd</th><th>Amcan</th><th>Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd</th><th>Data</th><th>Sylwebaeth</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>9. Nifer cynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd.<br>10. Nifer cyfleusterau twristiaeth a gollwyd drwy ddatblygu, newid defnydd neu ddymchwel.</td><td></td><td>
<table>
<tr><td>SAH4</td><td>Heol Wonastow, Trefynwy</td><td>B1</td><td>2.78</td></tr>
<tr><td>SAH5</td><td>Fferm Rockfield, Gwndy</td><td>B1</td><td>2.0</td></tr>
</table>
2.Yn ardal Glannau Hafren roedd mwyafrif y caniatâd cyflogaeth yn ystod y cyfnod monitro, gyda 0.92ha. Y Prif Drefi oedd yn dilyn gyda 0.11ha. Roedd nifer lai yn yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd (0.01ha) a Gwledig Cyfrifol (0.066ha). I gael mwy o wybodaeth gweler y Dadansoddiad Polisi Economi a Menter yn Adran 5.<br>
3.Dim ond y sectorau hynny lle rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddiau cyflogaeth yn ystod y cyfnod monitro y mae’r tabl islaw yn ei ddynodi. Roedd cyfran fwyaf gofod llawr cyflogaeth ar gyfer dosbarthiadau defnydd B a ganiatawyd yn ymwneud â chyfanwerthu a manwerthu, atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur. Mae rhestr lawr o’r sectorau a gwybodaeth ychwanegol ar gael yn y Dadansoddiad o Bolisi Economi a Menter yn Adran 5.
<table>
<tr><th>Sector</th><th>Maint (ha)</th></tr>
<tr><td>Gweithgynhyrchu</td><td>0.15ha</td></tr>
<tr><td>Cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur</td><td>0.96ha</td></tr>
<tr><td>Trafnidiaeth a storio; gwybodaeth a chyfathrebu</td><td>0.01ha</td></tr>
<tr><td>Gweithgareddau eiddo tiriog; gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth</td><td>0.02ha</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 4.Dengys ystadegau teithio i'r gwaith Llywodraeth Cymru fod 60.1% o weithlu Sir Fynwy yn aros yn eu hardaloedd eu hunain ar gyfer gwaith. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng gan 0.3% ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau i'r ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach ac y dylid felly ei drin yn ofalus.<br>**5– 6.** Dynododd Ystadegau Cymudo 2019 Llywodraeth Cymru fod cyfanswm o 18,500 yn cymudo i Sir Fynwy a 17,700 allan o Sir Fynwy. Mae lefel mewn-gymudo wedi gostwng yn sylweddol ers y cyfnod monitro blaenorol (2018-2019 24,600) gyda lefel all-gymudo wedi cynyddu (2018-2019 17,400), gan arwain at fewnlif net o gymudwyr. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau ar y ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach ac y dylid felly ei drin yn ofalus. Mae'r Dadansoddiad Polisi Economi a Menter yn Adran 5 yn rhoi dadansoddiad pellach o'r wybodaeth hon.<br>**7.** Dynododd adroddiad STEAM Sir Fynwy (2019) fod cyfanswm blynyddol gwariant twristiaeth yn £244.99 miliwn dros gyfnod 2019. Roedd hyn yn cymharu gyda £218.93 miliwn dros gyfnod 2018, sef cynnydd o 11.9%.<br>**8.** Cymeradwywyd cyfanswm o 15 cais yn ymwneud ag arallgyfeirio/menter gwledig yn ystod y cyfnod monitro. Cafodd 7 o'r ceisiadau eu cymeradwyo fel cynlluniau menter gwledig ac 8 cais fel arallgyfeirio ar ffermydd presennol. Mae manylion llawn ar gael yn y Dadansoddiad Polisi Menter Gwledig yn Adran 5.<br>**9 – 10.** Cymeradwywyd cyfanswm o 17 cynllun twristiaeth dros y cyfnod monitro y mwyafrif ohonynt yn unedau gwyliau (i gyd yn adeiladau wedi eu haddasu). Roedd hefyd newid defnydd annedd yn westy, newid defnydd mewn safle carafanau yn ffurfioli ei ddefnydd a |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd | Data | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | | | chymeradwywyd pedwar safle glampio. Cymeradwywyd gofodau gwely ychwanegol hefyd mewn tŷ bynciau yn y Goetre.<br>Cymeradwywyd saith caniatâd cynllunio oedd yn cynnwys colli cyfleusterau twristiaeth dros y cyfnod monitro. Roedd pump o'r ceisiadau'n ymwneud â thynnu amodau unedau gwyliau. Roedd un o'r ceisiadau ar gyfer newid defnydd Gwely a Brecwast i feithrinfa plant tra mai'r olaf oedd colli Llansantffraed Court oherwydd hyfywedd ariannol. Roedd cyfiawnhad am bob un o'r saith cais o fewn fframwaith polisi cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Dadansoddiad Polisi Economi Ymwelwyr yn Adran 5 yn rhoi manylion llawn y math o gyfleusterau twristiaeth a eilliwyd yn ystod y cyfnod monitro.<br>**Parhau i fonitro amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** |

*Datblygiad mawr - datblygiad yn ymwneud ag un neu fwy o'r dilynol: datblygiadau o 10 neu fwy o anheddau o 0.5ha neu fwy ar gyfer ceisiadau amlinellol a llawn; datblygu adeiladu lle mae'r gofod llawr a gaiff ei greu yn 1000m$^2$ neu fwy; datblygiadau ar safle gydag arwynebedd o 1ha neu fwy; ennill neu weithio mwynhau, neu ddefnyddio'r tir ar gyfer adneuon gweithio mwynau; neu, datblygu gwastraff.

**Ffigur o Gyfrifiad 2011

*** Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl

**** Llywodraeth Cymru Ystadegau Cymru

*****Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru (2019)

******Adroddiad STEAM Sir Fynwy (2019)

******* Mae hwn yn un o ddau ddangosydd newydd a gafodd eu hychwanegu i gymryd lle dangosydd blaenorol cyflenwad pum mlynedd o dir tai, i adlewyrchu gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 20020) yn dilyn diddymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Ionawr 2015)

## 7 Casgliadau ac Argymhellion

7.1 Hwn yw'r chweched Adroddiad Monitro Blynyddol i gael ei baratoi ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy. Gan y bu'r Cynllun hwnnw yn weithredol am chwe blynedd, mae tueddiadau wedi dod i'r amlwg drwy'r broses monitro am ba bolisïau sy'n perfformio fel y bwriadwyd iddynt a pha rai sydd ddim. Mae'r Adroddiad yn dangos fod cynnydd da yn cael ei wneud wrth gyflawni llawer o bolisïau'r Cynllun gyda thargedau a ddynodwyd yn cael eu cyflawni a bod strategaeth y Cynllun yn parhau'n gadarn. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad hefyd yn dangos bod rhai o elfennau'r Cynllun yn dal heb fod yn datblygu fel y bwriadwyd iddynt.

7.2 Mae Adran 5 yn rhoi asesiad manwl o sut mae polisïau strategol y Cynllun a'r polisïau cefnogi cysylltiedig yn perfformio o gymharu â'r targedau a deiliannau monitro allweddol a ddynodwyd ac os yw strategaeth ac amcanion y Cynllun yn cael eu cyflawni. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i ffurfio barn wybodus am gynnydd y Cynllun wrth gyflawni'r targedau/deiliannau monitro a pholisïau yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r tabl islaw yn rhoi trosolwg rhithiol o effeithlonrwydd polisïau'r Cynllun yn ystod y cyfnod monitro presennol yn seiliedig ar sgôr goleuadau traffig a ddefnyddiwyd yn yr asesiad. Cofnodwyd llai o sgorau 'coch' yn ystod y cyfnod monitro presennol, o gymharu ag Adroddiad 2018-19 (3 sgôr coch). Mae hyn oherwydd gwella perfformiad yn gysylltiedig â datblygiadau a ganiatawyd ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol o gymharu â'r llynedd a chynnydd gyda'r safle Tai Strategol yn Rhiw Finegr, Gwndy.

| | |
|---|---|
| Targedau/deilliannau monitro* yn cael eu cyflawni | **59** |
| Targedau/deilliannau monitro* ddim yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd ond nid oes unrhyw bryderon am weithrediad y polisi | **27** |
| Targedau/deilliannau monitro* ddim yn cael eu cyflawni gyda phryderon dilynol am weithredu'r polisi | **1** |
| Ni ellir rhoi casgliad oherwydd mai data cyfyngedig sydd ar gael neu nad oes unrhyw ddata perthnasol | **4** |

*Ar gyfer y dangosyddion hynny heb unrhyw darged/sbardun, caiff y deilliannau monitro eu hasesu a'u sgorio yn unol â hynny

### Canfyddiadau Allweddol

7.3 Dengys gwybodaeth a gasglwyd drwy'r broses monitro y caiff mwyafrif y targedau dangosydd a deilliannau monitro eu cyflawni (sgôr golau traffig gwyrdd), gan ddangos fod polisïau perthnasol y Cynllun yn cyflawni fel y bwriadwyd. Mae'r pethau mwyaf sylweddol a gyflawnwyd yn cynnwys y dilynol:

**Strategaeth a Thai**

- Mae cynnydd yn parhau i gael ei gwneud tuag at weithredu'r strategaeth ofodol, gyda 71% o'r anheddau a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd. Safleoedd bach oedd y 29% arall.
- Cafodd 356 annedd eu hadeiladu yn ystod y cyfnod monitro (274 marchnad gyffredinol a 82 fforddiadwy). Er nad yw nifer yr anheddau a gafodd eu cwblhau mor uchel ag yn y cyfnod monitro blaenorol maent yn parhau'n sylweddol uwch na'r cyfnodau monitro blaenorol ac yn dangos y cynnydd a wneir ar ddod â'r safleoedd strategol ymlaen.
- Cafodd y targed polisi o 35% o dai fforddiadwy mewn Prif Drefi ac Aneddiadau Gwledig Eilaidd fwy na'i gyrraedd eleni a 100%, er y cydnabyddir fod hyn yn seiliedig ar ddim ond dau gais yng Nghas-gwent a gyflwynwyd gan Gymdeithas Tai Sir Fynwy. Serch hynny, bydd y cynlluniau yn gwneud cyfraniad pwysig i dai fforddiadwy yng Nghas-gwent.
- Cafodd chwech o'r safle tai strategol a ddyrannwyd ganiatâd ers mabwysiadu'r Cynllun. Cafodd dau safle tai strategol gymeradwyaeth materion a gadwyd a chafodd dau safle Prif Bentrefi ganiatâd cynllunio i symud ymlaen â'u cyflenwi:
    - Tir yn Heol Crug, Porthysgewin (SAH2) 269 annedd yn cynnwys 68 cartref fforddiadwy (25%);
    - Fairfield Mabey, Cas-gwent (SAH3) 347 annedd marchnad agored. Bydd tir a ddynodwyd ar gyfer tai fforddiadwy neu dir cyflogaeth fel rhan o gymeradwyaeth amlinellol (DC/2014/01290), yn destun ceisiadau ar wahân.
    - Cafodd dau safle Prif Bentref yn Well Lane, Devauden (SAH11(ii)) a Garej Cross Ash (SAH11(i)(b) ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer cyfanswm o 21 uned rhyngddynt (12 marchnad agored, 9 fforddiadwy dros y ddwy safle).
- Rhagorwyd ar y dwyseddau targed ar y materion a gadwyd a gymeradwywyd ar y Safleoedd Tai Strategol yn Heol Crug, Porthysgewin (SAH2) a Fairfield Mabey, Cas-gwent (SAH3).
- Mae targedau polisi tai fforddiadwy a nodir ym Mholisi S4 yn cael eu cyrraedd yn gyffredinol yng nghyswllt caniatâd cynllunio a roddwyd yn y Prif Drefi, Aneddiadau Gwledig Eilaidd ac aneddiadau Glannau Hafren.

**Economi a Menter**

- Mae gan y Sir gyfanswm o 40.16 hectar o dir cyflogaeth ar gael, yn arwydd y cafodd digonedd o dir cyflogaeth ei gynnal i ateb y gyfradd defnydd a ddynodwyd.
- Bu cynnydd o ran caniatâd cyflogaeth o fewn y Sir, gyda chaniatâd wedi ei roi ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau cyflogaeth dosbarth B ar safleoedd cyflogaeth a warchodir (SAE2). Cafodd nifer o gynlluniau arallgyfeirio gwledig a chynlluniau menter gwledig hefyd eu cymeradwyo (15), gan roi cyfleoedd cyflogaeth ledled y Sir.
- Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw geisiadau newydd yn ystod y cyfnod monitro oedd yn ymwneud â cholli defnyddiau B ar safleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, dylid nodi y cafodd materion a gadwyd eu cymeradwyo ar gyfer datblygu cartref gofal fel rhan o'r safle SAH2 a ddyrannwyd yn Heol Crug, Porthysgewin.

Mae polisi SAH2 yn dyrannu 1 hectar o dir B1 ar gyfer cartref gofal. Cafodd derbyn y golled hon ei gyfiawnhau'n flaenorol yng nghyswllt y caniatâd amlinellol a gymeradwywyd mewn cyfnod monitro cynharach ac felly ni chafodd ei gyfrif ddwywaith yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn.

- Cymeradwyodd y Cyngor gynigion ar gyfer 17 cais cysylltiedig â thwristiaeth, yn amrywio o unedau gwyliau a gwestai i gyfleusterau glampio. Dengys cymhariaeth gydag Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol fod nifer y cynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro presennol yn parhau ar lefel gadarnhaol. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Llety Twristiaeth Gynaliadwy (Tachwedd 2017) wedi helpu i egluro ein cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y sector pwysig hwn o'n heconomi.

**Manwerthu a Chyfleusterau Cymunedol**

- Rhoddwyd caniatâd i 70.5% o'r holl ofod llawr manwerthu newydd mewn canol trefi/canolfannau lleol. Caniatawyd y 29.5% arall allan o'r sir, gan gyfeirio at un caniatâd cynllunio ar gyfer ciosg gyrru trwodd yng Ngwasanaethau Traffordd Magwyr, a ystyrir yn briodol o gofio am gyd-destun y cynnig a'i gyfiawnhau o fewn cyd-destun fframwaith polisi cynllunio manwerthu y Cynllun Datblygu Lleol.
- Mae cyfraddau unedau gwag yng nghanol trefi Cil-y-coed, Cas-gwent a Brynbuga wedi gostwng ers y cyfnod monitro blaenorol, gyda Rhaglan yn parhau ar yr un lefel.
- Mae'r gyfran o ddefnyddiau manwerthu A1 o fewn Prif Ffryntiadau Siopa'r trefi yn gyffredinol yn cydymffurfio gyda'r trothwyon a ddynodwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Prif Ffryntiadau Siopa.
- Cafodd cyfanswm o 12 cyfleuster cymunedol a hamdden ganiatâd cynllunio, y nifer uchaf a gymeradwywyd yn ystod cyfnod y Cynllun.

**Amgylchedd**

- Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw gais yn groes i ofynion TAN15 yn naill ai orlifdir Parth C1 neu C2 yn ystod y cyfnod monitro.
- Bu cynnydd yn nifer y datblygiadau newydd a ganiatawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle. Roedd tri chynnig yn ymwneud â phaneli solar a osodwyd ar y to mewn cynigion tai raddfa fach ar gyfer Cymdeithas Tai Sir Fynwy sy'n cynnwys paneli solar ar y toeau o'r dechrau cyntaf.
- Mae tir digonol yn parhau ar gael ar gyfer safleoedd posibl ar gyfer rheoli gwastraff ac ni fu unrhyw ostyngiad yn y gronfa tir mwynau.
- Nid oedd unrhyw geisiadau a arweiniodd at golli adeiladau rhestredig neu safleoedd hanesyddol ac ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol.

7.4 Dengys hyn fod llawer o'r fframwaith polisi yn gweithredu'n effeithlon gan alluogi datblygiad addas a gwnaed cynnydd da wrth weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol.

7.5 Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos nad oes gwahanol ddangosyddion polisi yn cael eu cyflawni ond nad oes unrhyw bryderon cyfatebol am weithredu polisi (sgôr golau

traffig oren). Penderfynodd ymchwiliad pellach fod cyfiawnhad am y rhesymau am y perfformiad a gofnodwyd ac nid yw hyn yn dangos fod unrhyw broblem sylfaenol gyda gweithredu'r fframwaith polisi na'r strategaeth ar hyn o bryd. Felly y canfyddiadau mwyaf arwyddocaol yng nghyswllt hyn yw:

**Tai**

- Mae nifer yr anheddau newydd a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro yn amlwg is na'r ddwy flynedd flaenorol, o 1238 yn 2017-2018, 598 yn 2018-2019 i 251 yn 2019-2020. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad hwn yn bennaf oherwydd fod gan fwyafrif y safleoedd a ddyrannwyd ganiatâd cynllunio eisoes a bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cyrraedd camau olaf ei gyfnod. Mae hefyd yn werth nodi y cafodd nifer o geisiadau materion a gadwyd eu cymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro hwn ar safleoedd strategol a safleoedd 'heb eu dyrannu'. Ni chafodd y rhain eu cynnwys yn ffigurau eleni osgoi cyfrif rhifau ddwywaith a gynhwyswyd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol o'r ceisiadau cynllunio amlinellol.
- Ni chafodd y safle tai strategol arall a ddyrannwyd yn Rhiw Finegr, Gwndy ganiatâd cynllunio hyd yma. Fodd bynnag, er y bu cynnydd dechreuol yn araf, cyflwynodd y datblygwr (Bovis) gais hybrid (DM/2019/01937) yn ystod y cyfnod monitro presennol (Tachwedd 2019). Mae'r cais ar gyfer 155 annedd, 72 annedd fel cais llawn a 83 annedd fel cais amlinellol. Mae'r Trywydd Tai a gafodd ei baratoi mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn rhagweld y bydd y safle yn dechrau yn y cyfnod monitro nesaf gydag anheddau yn cael eu cwblhau yn 2021/22.
- Roedd y gyfran o ganiatâd preswyl newydd yn y Prif Drefi yn is na'r targed a ddynodwyd. Mae hyn oherwydd i'r safleoedd strategol a ddyrannwyd yn y Fenni, Trefynwy a Cas-gwent gael caniatâd cynllunio mewn adroddiadau monitro blaenorol. I'r gwrthwyneb, roedd cyfran caniatâd preswyl newydd yn Ardal Glannau Hafren yn uwch na'r targed a ddynodwyd, a gellir priodoli hynny i'r safle heb ei dyrannu yn Heol yr Eglwys, Cil-y-coed yn cael cymeradwyaeth amlinellol ar gyfer 130 uned.
- Roedd y gyfran o anheddau a gwblhawyd yn y Prif Drefi yn uwch na'r targed a ddynodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol. Fodd bynnag, medrir priodoli hyn yn bennaf i gyflenwi safleoedd a ddyrannwyd. Daeth cyfraniadau amlwg o safle Heol Wonastow (SAH4) yn Nhrefynwy a safleoedd Fferm Deri (SAH1) a Coed Glas (SAH9) yn y Fenni. Fodd bynnag, roedd yr anheddau a gwblhawyd o fewn ardal Glannau Hafren, Aneddiadau Gwledig Eilaidd a Gwledig Cyffredinol i gyd o fewn yr ystod dderbyniol dan awgrymu fod tai yn gyffredinol yn cael eu cyflenwi yn unol â'r strategaeth ofodol.
- Er y bu peth cynnydd gyda dyraniadau Prif Bentrefi (cyfanswm o 44 caniatâd anheddau fforddiadwy a 12 annedd fforddiadwy wedi eu cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun), ni chyflawnwyd y targed i'r safleoedd hyn gyda'i gilydd gyflenwi 20 annedd fforddiadwy bob blwyddyn. Fodd bynnag, cafodd dau safle Prif Bentrefi ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro – (Garej Cross Ash - SAH11(i)b a Well Lane, Devauden- SAH11(ii)).

**Economi a Menter**

- Er fod digon o dir cyflogaeth ar gael ar draws y Sir, ni chafodd unrhyw ganiatâd cynllunio newydd ei gymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro ar Safleoedd Cyflogaeth Strategol SAE1.
- Cafodd saith cais eu caniatáu yn ystod y cyfnod monitro yn ymwneud â cholli cyfleusterau twristiaeth, pump ohonynt yn ymwneud â thynnu amodau unedau gwyliau i ddefnydd preswyl. Fodd bynnag, ystyriwyd bod cyfiawnhad dros yr holl gynigion o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol.

**Manwerthu a Chyfleusterau Cymunedol**

- Mae cyfraddau unedau gwag yn ardaloedd siopa canolog y Fenni, Trefynwy a Magwyr wedi codi. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd yn achosi unrhyw bryderon ar hyn o bryd am fywiogrwydd a hyfywedd canol y trefi hyn.
- Collwyd pedwar cyfleuster cymunedol i ddefnyddiau eraill. Fodd bynnag, roedd cyfiawnhad dros y golled ym mhob achos o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi'r Cynllun Datblygu Lleol.

**Amgylchedd**

- Bu cynnydd mewn datblygu a ganiatawyd ar dir glas heb ei ddyrannu ar 18.27ha, fodd bynnag ym mhob achos ystyriwyd fod cyfiawnhad am y golled o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol adeg gwneud penderfyniad. Datblygiad preswyl oedd mwyafrif y tir glas heb ei ddyrannu a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro, ar 7.11 ha (38.9%). Y prif gyfrannwr at ddatblygu preswyl oedd safle amrywiad 'Tir i ddwyrain Heol yr Eglwys' yng Nghil-y-coed, gyda chaniatâd ar gyfer hyd at 130 annedd, gyda'r ardal o dir y gellir ei ddatblygu ar gyfer defnydd preswyl yn cyfrif am 6ha.
- Caniatawyd cyfanswm o 25.03ha o ddatblygiad dros y cyfnod monitro, gyda 5.3ha o hynny ar safleoedd tir llwyd. Roedd hyn yn gyfartal â 21% o'r holl ddatblygiad (ac eithrio deiliaid tai, addasu adeiladau ac adeiladau amaethyddol). Mae hyn yn is na'r lefel a gofnodwyd yng nghyfnodau Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol, ond mae'n gynnydd ar ffigur y llynedd o 12.7%/3.7ha. Mae hyn yn dangos y tir llwyd cyfyngedig sydd ar gael o fewn y Sir i gael ei ddatblygu.
- Caniatawyd dau gais o fewn ardal o ofod agored amwynder. Cafodd y ddau gais eu cyfiawnhau ar y sail fod rhan fwyaf yr ardal datblygu arfaethedig ar dir llwyd a ddatblygwyd yn flaenorol (0.065ha allan o safle 0/7ha a 0.04ha allan o safle 0.2ha) ac roedd colli'r ardal amwynder yn sgil–effaith ac yn golled fach iawn yng nghyd-destun cyfanswm arwynebedd yr ardaloedd.

7.6 Serch yr uchod, mae'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r broses monitro wedi dynodi targed dangosydd polisi allweddol nad yw'n datblygu fel y bwriadwyd iddo (sgôr golau traffig coch). Mae hyn yn cyfeirio at gyfanswm ffigurau anheddau a gwblhawyd:

**Strategaeth a Thai**

- Mae cyfraddau cwblhau anheddau yn dan-gyflawniad o -1,469 uned (36.3%) ar gyfer cyfnod y Cynllun o'i fesur o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog cronnus sydd newydd ei gyflwyno.

7.7 Fel y trafodwyd yn yr adran dadansoddi polisi, yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r ffordd y caiff cyflenwi anheddau ei fonitro. Mae'r newidiadau yn dileu'r polisi pum mlynedd o gyflenwad tir tai ac yn cyflwyno datganiad polisi yn ei le sy'n ei gwneud yn glir mai'r trywydd tai, fel y nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ac a gytunwyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai, fydd y sail ar gyfer monitro cyflenwi'r gofynion tai fel rhan o Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff y ffordd y dylid gwneud hyn ei nodi yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Rhifyn 3) (Mawrth 2020).

7.8 Cafodd dau ddangosydd newydd eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn sy'n cymryd lle'r dangosydd blaenorol oedd yn mesur y cyflenwad pum mlynedd o dir tai. Mae'r cyntaf o'r dangosyddion hyn yn mesur lefel flynyddol yr anheddau a gafodd eu cwblhau a fonitrwyd o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Er bod y Cynllun wedi tangyflawni yn ei flynyddoedd cynnar, yn y cyfnodau monitro mwyaf diweddar bu nifer yr anheddau a gwblhawyd yn llawer nes at y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog, -7 uned (-1.6%) yn 2018/19 a -94 uned (-20.9%) yn 2019/20. Mae hyn yn bennaf oherwydd pa mor gyflym y daeth y safleoedd strategol ymlaen. O'r 7 safle strategol, mae gan 6 yn awr ganiatâd cynllunio, felly mae'n debygol y bydd y nifer a gaiff eu cwblhau yn nes at y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol yn y dyfodol. Fodd bynnag, cafodd y sbardun ar gyfer adolygu'r Cynllun ei gyflawni mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol ac mae'r gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd wedi dechrau.

7.9 Mae'r ail o'r dangosyddion hyn yn mesur cyfanswm cronnus yr anheddau a gafodd eu cwblhau o gymharu gyda'r gofyniad cronnus (Gofyniad Blynyddol Cyfartalog cronnus) Bu tangyflawni yn y cyfanswm cronnus o anheddau a gwblhawyd ers dechrau cyfnod y Cynllun o -1,469 uned ac felly cyrhaeddwyd y sbardun. Fodd bynnag, mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol mwy diweddar, mae'r % o dangyflawni wedi gostwng yn gyson wrth i safleoedd strategol ddod yn eu blaen. Medrir priodoli'r diffyg hwn i raddau helaeth i gyfnod arweiniol y safleoedd tai strategol. Mae'r dadansoddiad a drafodir yng nghyswllt Polisi S2 – Darpariaeth Tai a S3 – Safleoedd Tai Strategol yn dangos ym mlynyddoedd cynnar y Cynllun Datblygu Lleol fod mwyafrif yr anheddau a gwblhawyd yn dod o ymrwymiadau presennol o'r Cynllun blaenorol. Mewn blynyddoedd diweddar, fodd bynnag, wrth i Safleoedd Strategol gael caniatâd mae eu cyfraniad i gyfanswm yr anheddau a gwblhawyd wedi cynyddu, ac felly disgwylir y byddant yn cyrraedd neu'n uwch na'r gofyniad cyfartalog blynyddol dros y 5 mlynedd nesaf wrth i weddill y safleoedd, gan ostwng y bwlch.

7.10 Roedd saith safle tai strategol y Cynllun Datblygu Lleol i fod i gyflenwi tua 2,020 uned allan o'r cyfanswm angen o 4,500 uned gyda'r gweddill yn cael eu darparu drwy safleoedd trefol a ddyrannwyd (SAH8 Heol Tudor, Wyesham a SAH9 Coed Glas, y

Fenni), safleoedd anheddiad gwledig eilaidd SAH10, safleoedd prif bentrefi SAH11 a hapsafleoedd eraill. Mae'r trywydd a gytunwyd yn dangos diffyg yng nghyfnod y Cynllun (hyd at ddiwedd 2021) o 1,172 annedd o safleoedd Strategol. Er y bu cynnydd pellach dros y cyfnod monitro hwn gyda dau safle Strategol yn cael caniatâd cynllunio materion a gadwyd ac adeiladu wedi dechrau ar ddau safle Strategol arall, fydd yn cyfrannu at ostwng y diffyg cyffredinol, mae bwlch sylweddol yn dal i fod ar gyflenwi anheddau ar safleoedd Strategol yn ystod cyfnod y Cynllun.

7.11 Fodd bynnag, fe y dangosir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol, gwneir cynnydd ar fynd â'r safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol ymlaen, gyda chwech o'r saith safle strategol yn awr â chaniatâd cynllunio a chais wedi ei gyflwyno ar gyfer y seithfed yn Rhiw Finegr, Gwndy. Mae hyn yn dangos y medrir cyflawni'r safleoedd strategol, fodd bynnag mae gan y gyfradd cyflenwi arafach na'r disgwyl oblygiadau amlwg ar gyfer cyflenwi'r gofyniad tai ac yn atgyfnerthu'r angen i symud ymlaen gyda'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

7.12 O gofio am y pwysigrwydd a roddwyd i'r cyflenwad o dir tai, dechreuodd adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2017 a daeth i ben gyda chyhoeddi'r Adroddiad Adolygu Terfynol ym mis Mawrth 2018, y rhoddwyd adroddiad arno yn y cyfnod monitro diwethaf. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylid diwygio'r Cynllun Datblygu Lleol a dylai hon fod ar wedd gweithdrefn adolygu lawn, h.y. Cynllun Datblygu Lleol newydd. Caiff y sefyllfa ddiweddaraf ar y Cynllun hwn ei drafod islaw yn yr adroddiad argymhellion.

**Canllawiau Cynllunio Atodol**

7.13 Bydd y gwaith o baratoi/mabwysiadu Canllawiau yn parhau yn y cyfnod monitro nesaf fel sy'n briodol. Fodd bynnag, caiff adnoddau eu canolbwyntio ar y Cynllun Newydd.

**Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd**

7.14 Mae Adran 6 yn ehangu'r asesiad o berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol o gymharu ag amcanion monitro y Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae gorgyffwrdd rhwng rhai o ddangosyddion y Cynllun a'r Arfarniad gan helpu i ddangos y cysylltiad rhwng monitro'r Cynllun Datblygu Lleol a monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

7.15 Mae rhai o ganfyddiadau amlycaf penodol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol yn cynnwys:

- Mae dau o'r tri datblygiad mawr newydd[7] a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro o fewn 10 munud ar droed o wasanaeth bws aml a rheolaidd.
- Ni chollwyd unrhyw goed gyda Gorchymyn Cadwraeth Coed i ddatblygiad dros y cyfnod monitro hwn. Mae hyn yn ostyngiad yn nifer y coed Gorchymyn Cadwraeth

[7] Diffinnir datblygiad mawr fel datblygiad yn cynnwys un neu fwy o'r dilynol: datblygiadau o 10 annedd neu fwy neu 0.5ha neu fwy; datblygu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr a gaiff ei greu yn 1000m2 neu fwy; datblygiadau ar safle gydag arwynebedd o 1ha neu fwy; ennill neu weithio mwynau; neu ddefnyddio'r tir ar gyfer adneuon gwaith mwynol; neu ddatblygu gwastraff.

Coed a gollwyd dros y cyfnod monitro o gymharu â’r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol (3 coeden).

- Dim ond mewn un lleoliad oedd y lefelau amcan blynyddol o nitrogen deuocsid yn uwch na’r targed (Rhiw Hardwick, Cas-gwent). Dyma'r un lleoliad â’r 4 Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol.
- Roedd pedwar o’r deg cynnig a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol a safleoedd o dros 10 annedd/1ha yn cynnwys Systemau Draeniad Trefol Cynaliadwy (SUDS)[8] yn y cynllun. Mae hyn yn gynnydd ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol lle’r oedd tri o’r 13 cynllun yn cynnwys SUDS.
- Fe wnaeth pob un o’r tair gorsaf monitro llif dŵr o amgylch y Sir yn yr Afon Wysg, Afon Gwy ac Afon Mynwy barhau’n uwch na lefel llif isel yr haf.
- Cafodd 61.60% o gyfanswm gwastraff aelwydydd Sir Fynwy ei ailgylchu neu ei gompostio. Mae hyn ychydig yn is na’r Adroddiad Monitro Blynyddol a ddangosodd fod 62.41% yn gael ei ailgylchu neu ei gompostio.
- Cafodd 7.3ha o dir amaethyddol Gradd 3a ac uwch ei gymeradwyo ar gyfer datblygu mawr (ac eithrio dyraniadau’r Cynllun Datblygu Lleol) dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn cyfeirio at safle Heol yr Eglwys yng Nghil-y-coed ar gyfer 130 annedd. Mae asesiad tir amaethyddol a gynhaliwyd ar gyfer y safle yn dweud y caiff y safle ei ddosbarthu fel ‘gorau a mwyaf hyblyg’ fodd bynnag mae’r safle ar ben isaf y raddfa hon ac nid yw’n ymarferol addas ar gyfer defnydd amaethyddol trwm.
- Cynnydd o 11.9% mewn gwariant twristiaeth, £244.99 miliwn o gymharu â £218.93 miliwn dros y cyfnod 2018 blaenorol..

**Argymhellion**

7.16 Mae llythyr a gyhoeddwyd ar 7 Gorffennaf 2020 gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn dileu’r gofyniad i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol y mis Hydref hwn oherwydd Covid-19, ond yn annog yn gryf fod awdurdodau cynllunio lleol yn parhau i gasglu data i helpu llunio a llywio datblygiad polisïau a chynlluniau. Fodd bynnag, ystyriodd Sir Fynwy y byddai’n werth chweil parhau i baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol a chynnal y dadansoddiad polisi cysylltiedig o ddangosyddion monitro a sbardunau’r Cynllun i fwydo mewn i baratoi’r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Rhoddwyd y Deyrnas Unedig mewn cyfnod clo ar 23 Mawrth 2020 mewn ymateb i’r pandemig Covid-19. Oherwydd i hyn ddigwydd tua diwedd y cyfnod monitro hwn, ystyrier mai effaith gyfyngedig a gafodd ar y gallu i fonitro ar gyfer y cyfnod 2019-20.

[8] Mae SUDS yn ddatrysiadau draeniad sy’n rhoi amgen i sianelu dŵr wyneb yn uniongyrchol drwy rwydweithiau o bibelli a charthffosydd i lwybrau dŵr cyfagos. Drwy efelychu systemau draeniad naturiol, nod SUDS yw gostwng llifgydd dŵr wyneb, gwella ansawdd dŵr a gwella gwerth amwynder a bioamrywiaeth yr amgylchedd. Mae SUDS yn cyflawni hyn drwy ostwng cyfraddau llif, cynyddu capasiti storio dŵr a gostwng cludo llygredd i’r amgylchedd dŵr *(Cymdeithas Ddaearegol Prydain).*

7.17 Adeg ysgrifennu'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn, roedd peth llacio wedi dechrau ar gyfyngiadau'r cyfnod clo tebyg i agor manwerthu heb fod yn hanfodol a'r diwydiant twristiaeth. Fodd bynnag, bu'r Sir mewn cyfnod clo llwyr am gyfnod o dros dri mis yn cynnwys misoedd Mawrth, Ebrill a Mai a rhan o fis Mehefin. Mae goblygiadau cyfnod clo Covid-19 yn dal i ddod i'r amlwg ar raddfa genedlaethol a lleol ac mae'n dal yn anhysbys pa effaith, os bydd effaith, a gaiff y sefyllfa bresennol gyda Covid-19 ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd. Rhoddir adroddiad mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol am unrhyw oblygiadau.

7.18 Drwyddi draw, mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-20 yn dangos fod cynnydd da yn parhau i gael ei wneud wrth weithredu llawer o bolisïau'r Cynllun a bod y strategaeth yn parhau'n gadarn. Cafwyd llai o sgoriau 'coch' yn ystod y cyfnod monitro presennol, o gymharu ag Adroddiad Monitro Blynyddol 2018-19, oherwydd gwell perfformiad yng nghyswllt datblygiadau a ganiatawyd ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Fodd bynnag, er y gwnaed cynnydd yng nghyswllt Safleoedd Tai Strategol y Cynllun, mae'r cyfraddau cwblhau cronnus ar gyfer cyfnod y Cynllun yn is na gofynion y Cynllun ac yn parhau'n fater o gonsyrn os yw anghenion tai cymunedau Sir Fynwy i gael eu diwallu.

7.19 Oherwydd y pwysigrwydd a roddwyd i ddarparu a chynnal cyflenwad cyson o dir tai, dechreuwyd ar adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2017 a daeth i ben gyda chyhoeddi'r Adroddiad Adolygu Terfynol ym mis Mawrth 2018. Yn seiliedig ar y dystiolaeth o fewn yr Adroddiad Adolygu, daethpwyd i'r casgliad y dylai'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei ddiwygio ac y dylai hyn fod ar ffurf gweithdrefn ddiwygio lawn. Ym mis Mai 2018 penderfynodd y Cyngor i ddechrau gwaith ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer y Sir (ac eithrio'r ardal sydd o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) fydd yn cwmpasu'r cyfnod 2018-2033.

7.20 Caiff y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi. Cafodd Cytundeb Cyflenwi Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ei gymeradwyo gyntaf gan Lywodraeth Cymru ar 14 Mai 2018, gyda'r diwygiad yn cael ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2020. Mae'r oedi dilynol na fedrid ei osgoi gyda phroses paratoi'r cynllun a gafwyd fel canlyniad i'r pandemig presennol a chyhoeddi Amcanestyniadau Poblogaeth 2018 wedi golygu y bu angen adolygiad pellach i Gytundeb Cyflenwi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae Cytundeb Cyflenwi Diwygiedig felly'n cael ei baratoi sy'n gosod amserlen ddiwygiedig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, yn cynnwys cam ymgynghori ar Bapur Twf ac Opsiynau Gofodol wedi ei ddiweddaru i roi ystyriaeth i Amcanestyniadau Poblogaeth 2018 a gyhoeddwyd. Bwriedir adrodd ar hyn yn yr hydref 2020.

7.21 Bydd amserlen y Cytundeb Cyflenwi Diwygiedig yn arwain at oedi sylweddol wrth baratoi a mabwysiadu dilynol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, a rhagwelir ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir yng ngwanwyn 2021 a mabwysiadu'r Cynllun yn hydref 2023. Er ei bod yn rhy fuan i ddeall yn llawn beth fydd effeithiau Covid-19, derbynnir yn gyffredinol fod gan y system cynllunio rôl sylfaenol mewn cefnogi

adferiad parhaus yn dilyn COVID-19, fel yr adlewyrchir yn llythyr diweddar y Gweinidog sy'n cydnabod bod cynlluniau datblygu ystwyth a chyfredol yn gonglfaen y system cynllunio ac y cafodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i system a arweinir gan gynllun ei gyfnerthu gan y pandemig presennol. Mae dogfen Llywodraeth Cymru 'Adeiladu Lleoedd Gwell – Creu Lleoedd a'r Adferiad Covid-19' (Gorffennaf 2020) yn amlygu ymhellach bwysigrwydd cynllunio wrth gefnogi adferiad Covid-19. Mae'n dynodi nifer o flaenoriaethau cynllunio sy'n sylfaenol yn yr ymateb i Covid-19 yn cynnwys creu lleoedd, seilwaith gwyrdd, datgarboneiddio a chanol trefi.

7.22 Felly, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn argymell y dilynol:

1. Parhau i ddatblygu gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae cam ffurfiol nesaf y Cynllun yn cynnwys ymgynghoriad ar y Papur Twf ac Opsiynau Gofodol i roi ystyriaeth i amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2018 a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Rhagwelir y bydd hyn yn dechrau tuag at ddiwedd 2020.

2. Cyflwyno'r chweched Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2020 yn unol â gofynion statudol. Cyhoeddi'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar wefan y Cyngor.

3. Parhau i fonitro'r Cynllun drwy baratoi Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol.

## Atodiad 1 - Amseriad a Camau Datblygu Safleoedd

### Dyraniadau

| Haen Anheddiad/ Anheddiad | Enw'r Safle a Ddyrannwyd | Cyfanswm maint capasiti | Camau Datblygu (Ebrill 2020/Rhagfyr 2022) | | | | Unedau ar ôl cyfnod y cynllun | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cwblhau | Heb Gwblhau | 2020 -21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
| **Prif Drefi** | | | | | | | | | |
| Y Fenni | Fferm Deri (DC/2014/01360) | 250 | 100 | 25 | 25 | 50 | 50 | 0 | 0 |
| | Coed Glas (DC/2015/01587) | 51 | 32 | 19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cas-gwent | Fairfield Mabey (DM/2019/00001 & DM/2019/01960) | 373 | 0 | 0 | 5 | 70 | 81 | 81 | 68 |
| Trefynwy | Heol Wonastow (DC/2015/00390 & DC/2015/00392) | 340 | 327 | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Heol Wonastow (gweddill y safle) | 110 | 0 | 0 | 0 | 0 | 35 | 35 | 40 |
| | Heol Tudor Wyesham | 35 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | 20 |
| **Aneddiadau Glannau Hafren** | | | | | | | | | |
| Porthysgewin | Heol Crug (DM/2019/01041) | 269 | 0 | 0 | 0 | 19 | 50 | 50 | 50 |
| Magwyr, Gwndy | Fferm Rockfield (Cam 1)(DM/2018/01606)* | 144 | 16 | 16 | 28 | 44 | 40 | 0 | 0 |
| | Fferm Rockfield (gweddill y safle) (DM/2016/00883(O/L)) | 122 | 0 | 0 | 0 | 18 | 35 | 35 | 34 |
| | Tir yn Rhiw Finegr (DM/2019/01937)** | 155 | 0 | 0 | 0 | 10 | 40 | 40 | 40 |
| Sudbrook | Hen Felin Bapur (DC/2015/01184) | 210 | 96 | 14 | 26 | 40 | 34 | 0 | 0 |
| **Aneddiadau Gwledig Eilaidd** | | | | | | | | | |
| Penperllenni | Tir i dde Heol Brynbuga (DC/2013/01001) | 40 | 40 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhaglan | Tir yn Heol Cas-gwent (DM/2018/00769)(O/L) | 45 | 0 | 0 | 0 | 12 | 12 | 12 | 9 |
| Brynbuga | Cwrt Burrium*** | 20 | 0 | 0 | 0 | 13 | 7 | 0 | 0 |

| Haen Anheddiad/ Anheddiad | Enw'r Safle a Ddyrannwyd | Cyfanswm maint capasiti | Camau Datblygu (Ebrill 2020/Rhagfyr 2022) | | | | Unedau ar ôl cyfnod y cynllun | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cwblhau | Heb Gwblhau | 2020 -21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
| **Prif Bentrefi** | | | | | | | | | |
| Cross Ash | Tir ger Garej Cross Ash (DM/2017/01335) | 6 | 0 | 0 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Devauden | Tir yn Well Lane (DM/2018/01741 | 15 | 0 | 0 | 0 | 7 | 8 | 0 | 0 |
| Llanddingad | Tir i'r de ddwyrain (DM/2018/01404) | 15 | 0 | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Felinfach | Tir i'r gogledd | 15 | 0 | 0 | 0 | 15 | 0 | 0 | 0 |
| Llanfair Cilgedin | Tir i'r gogledd (DM/2018/02001(O/L)) | 5 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 |
| Llanisien | Tir i gefn Carpenters Arms (DM/2016/00415(O/L)) | 8 | 0 | 0 | 0 | 8 | 0 | 0 | 0 |
| Penallt | Tir i'r de orllewin (DM/2015/00606) | 10 | 0 | 0 | 0 | 10 | 0 | 0 | 0 |
| Drenewydd Gellifarch | Tir i'r dwyrain (i'r de o'r fân ffordd) | 5 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Werngyffordd Pandy | Tir ger | 15 | 0 | 0 | 0 | 5 | 10 | 0 | 0 |

* Caniatâd amlinellol gwreiddiol ar gyfer 266 annedd. Mae Cam 1 y datblygiad yn 144 annedd.

** Cais hybrid ar gyfer 155 annedd - 72 fel cais llawn, 83 amlinellol yn unig

*** Cymeradwywyd 23.04.20 ar gyfer 7 annedd

## Safleoedd gyda chaniatâd cynllunio

| Haen Anheddiad/ Anheddiad | Enw'r Safle a Ddyrannwyd | Cyfanswm maint capasiti | Camau Datblygu (Ebrill 2020/Rhagfyr 2022) | | | | Unedau ar ôl cyfnod y cynllun | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Completions | U/C | 2020 -21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
| **Prif Drefi** | | | | | | | | | |
| Y Fenni | Heol Rhosan (DC/2007/01679) | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Heol Rhosan (DC/2008/00024(O/L)) | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Tŷ Mulberry (DM/2014/01015) | 25 | 0 | 7 | 0 | 18 | 0 | 0 | 0 |
| | Llys Ynadon (DM/2018/00007) | 47 | 0 | 47 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 17-25 Heol Aberhonddu (DM/2018/00156) | 24 | 0 | 24 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cas-gwent | Osborn International (DC/2009/00910) | 169 | 40 | 4 | 26 | 30 | 30 | 30 | 9 |
| Trefynwy | Heol Hillcrest,, Wyesham (DM/2019/02054) | 11 | 0 | 0 | 0 | 11 | 0 | 0 | 0 |
| | Tir i'r gorllewin o Heol Rockfield (DM/2017/00539(O/L)) | 70 | 0 | 0 | 0 | 30 | 30 | 10 | 0 |
| **Aneddiadau Glannau Hafren** | | | | | | | | | |
| Cil-y-coed | Hen White Hart Inn (DC/2013/00796) | 16 | 0 | 0 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 |
| | Heol yr Eglwys (DM/2019/01761) | 130 | 0 | 0 | 0 | 20 | 36 | 36 | 38 |
| Rogiet | Green Farm (DC/2015/01328) | 11 | 0 | 0 | 0 | 5 | 6 | 0 | 0 |
| | Fferm Ifton Manor (DC/2015/00095) | 12 | 0 | 2 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Sudbrook | Hen Iard Llongau (DM/2018/01828) | 46 | 0 | 0 | 10 | 36 | 0 | 0 | 0 |
| **Aneddiadau Gwledig Eilaidd** | | | | | | | | | |
| Llan-ffwyst | Tir yn Fferm Grove (DM/2019/00346) | 106 | 0 | 0 | 0 | 25 | 35 | 35 | 11 |
| **Gwledig** | | | | | | | | | |
| Llanelen | Fferm Llanellen Court (DC/2015/00474) | 14 | 0 | 14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Fferm Llanellen Court (DC/2015/00983) | 14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 14 | 0 | 0 |